Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Pa fath o Gefn Gwlad ydym ei angen?

# Y Rhaglen Ymchwil Cynllunio yng Nghymru

## Adroddiad Ymchwil



# Rhaglen Ymchwil Cynllunio Cymru

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi'i gomisiynu a'i gyflawni fel rhan o Raglen Ymchwil Cynllunio Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Rhaglen wedi'i sefydlu er mwyn diwallu'r angen i ddatblygu polisi cynllunio defnydd tir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o fewn cyd-destun egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.

Is-adran Gynllunio'r Cynulliad sy'n gyfrifol am reoli Rhaglen Ymchwil Cynllunio Cymru a sicrhau bod unrhyw ymchwil a wneir yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion Llywodraeth y Cynulliad. Caiff yr ymchwil ei wneud gan gomisiwn allanol gan mwyaf, neu ar y cyd â sefydliadau eraill. Mae'r Is-adran yn cydweithio'n agos â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ym maes ymchwil cynllunio defnydd tir ac mae hefyd yn defnyddio ymchwil a wnaed gan gyrff eraill.

Pa fath o Gefn Gwlad ydym ei angen?

Mae rhaglenni ymchwil ar wahân wedi'u sefydlu i lywio gwaith ar ddatblygu Polisi Cynllunio Mwynau a Chynllun Gofodol Cymru.

Pennwyd yr amcanion allweddol a'r themâu blaenoriaeth tymor hir ar gyfer Rhaglen Ymchwil Cynllunio Cymru gan Astudiaeth Gwmpasu Cynllunio Defnydd Tir (2000):

## Amcanion Allweddol

- Canolbwyntio ar faterion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisi cynllunio
- Rhoi gwybodaeth reoli at ddiben datblygu polisi cynllunio defnydd tir a
- Datblygu canllawiau ar arferion gorau.

## Themâu ymchwil blaenoriaeth tymor hir

- Datblygu cynaliadwy
- Cynllunio gwledig a
- Cynllunio gofodol

Mae Grwp Defnyddwyr wedi'i sefydlu i roi cyngor ar gynnwys a chyfeiriad y rhaglen.

Mae Cylchlythyr Ymchwil Cynllunio Cymru yn cael ei lunio bob blwyddyn ac mae'r diddordeb a fynegwyd mewn ymateb i hwn ar gronfa ddata sy'n cael ei defnyddio i gynorthwyo/llywio'r gwaith o gaffael contractwyr ymchwil.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar Raglen Ymchwil Cynllunio Cymru yn http://www.wales.gov.uk/subiplanning/topics-e.htm#research. Yma hefyd gellir gweld pa ymchwil sydd ar y gweill ac sydd wedi'i gyhoeddi.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y rhaglen at:

Jonathan Fudge, Yr Uwch Swyddog Ymchwil, Ymchwil Polisi Cynllunio (P2B), Yr Is-adran Gynllunio,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, Ffôn 029 2082 6961 Ffacs 029 2082 5622
Neu drwy gyfrwng blwch post yr Is-adran Gynllunio yn Planning.Division@wales.gsi.gov.uk

**Prifysgol Cymru,**

**Aberystwyth**

*Sefydliad y Gwyddorau Gwledig*

***Cytundeb Rhif 249/2002***

# ADRODDIAD TERFYNOL
# I
# LYWODRAETH Y CYNULLIAD

**GAN**

**SEFYDLIAD Y GWYDDORAU GWLEDIG**
**PRIFYSGOL CYMRU, ABERYSTWYTH**

**A**

**LAND USE CONSULTANTS**

1 **Crynodeb Gweithredol** ........ **7**

2 **Diolchiadau** ........ **15**

3 **Rhagarweiniad** ........ **16**

Brîff y prosiect ........ 16

Crynodeb o bolisïau cefn gwlad cymru ........ 16

4 **Adolygiad o Lenyddiaeth** ........ **19**

Rhagarweiniad ........ 19

Rôl cefn gwlad ........ 19

Cynllunio ar gyfer cefn gwlad ........ 20

Dadansoddi canfyddiadau cyhoeddus ynglŶn â chefn gwlad ........ 21

5 **Methodoleg** ........ **24**

Canfyddiad gyhoeddus o gefn gwlad ........ 24

Arolwg i gartrefi ........ 24

Ymgynghoriadau ymhlith budd-ddeiliaid ........ 27

Arolwg cyhoeddus ar y we ........ 27

Ymarferiad weledigaethu gyhoeddus ........ 27

Polisi cynllunio ar gyfer cefn gwlad ........ 28

Dadansoddiad o Polisi Cynllunio Cymru (2002) a'r TANs ........ 28

Dadansoddiad o gynlluniau datblygu a rheoli datblygu ........ 28

6 **Canlyniadau: Canfyddiadau cyhoeddus o Gefn Gwlad** ........ **30**

Arolwg i gartrefi ........ 30

Canfyddiadau o gefn gwlad ........ 30

Agenda'r cyhoedd ar gyfer cefn gwlad ........ 35

Datblygu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad ........ 37

Gweledigaeth ar gyfer cefn gwlad ........ 40

Unrhyw sylwadau eraill ........ 43

Dadansoddiad pellach o'r canlyniadau ........ 43

Crynodeb ........ 47

Arolwg ar y we ........ 49

Rhagarweiniad ........ 49

Canfyddiadau o gefn gwlad ........ 49

Agenda'r cyhoedd ar gyfer cefn gwlad ........ 51

Datblygu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad ........ 52

Gweledigaethu cymunedol ........ 56

Rhagarweiniad ........ 56

Ymgynghoriad ........ 56

Diffyg integreiddio ........ 57

Tai yng nghefn gwlad ........ 58

Amaethyddiaeth ........ 59

Hamdden a mynediad i gefn gwlad ........ 60

Traffig/Trafnidiaeth ........ 60

Cyflogaeth / Economi leol ........ 61

Twristiaeth ......... 61
Coedwigaeth a choetiroedd ......... 62
Strwythurau cymunedol ......... 62
Diwylliant / Iaith ......... 63
Dynodiadau ......... 63
Crynodeb ......... 64
Ymgynghoriad budd-ddeiliaid ......... 65
Rhagarweiniad ......... 65
Diddordeb mewn /Polisïau cefn gwlad ......... 65
Beth yw'r materion allweddol sy'n wynebu dyfodol cefn gwlad Cymru? ......... 66
Bodlonrwydd gyda pholisi cyffredinol cefn gwlad ......... 67
Datblygu economaidd ......... 67
Tai ......... 68
Tai fforddiadwy ......... 69
Trafnidiaeth yng nghefn gwlad ......... 70
Gweledigaethau ar gyfer Cymru gynaliadwy ......... 71
Asesiad ffotograffig ......... 72
Crynodeb o ganfyddiadau'r cyhoedd o gefn gwlad ......... 73

**7 Canlyniadau: Polisïau Cynllunio ar Gyfer Cefn Gwlad ......... 75**

Rhagarweiniad ......... 75
Pynciau hollgwmpasog ......... 76
Cefn gwlad amlswyddogaethol, integreiddio polisïau ......... 76
Unieithiad cryf â chefn gwlad, pryder mawr ynglŷn â gorddatblygu, ychydig iawn o newidiadau, gwarchod cefn gwlad agored ......... 76
Maint a dyluniad addas ......... 77
Cynllunio ar gyfer anghenion sefydledig, polisi nodweddiadol leol ......... 77
Materion yn deillio o'r themâu ......... 78
Tai ......... 78
Trafnidiaeth ......... 79
Cyflogaeth a dyfodol ffermio ......... 79
Twristiaeth a hamdden ......... 80
Cefn gwlad leol, y Parciau Cenedlaethol ac AoeddHNE ......... 82
Strategaeth aneddiadau ......... 83
Datblygu cynaliadwy a chymunedau lleol ......... 85
Yr Iaith Gymraeg ......... 86
Crynodeb ......... 87
Cefnogaeth i bolisi sy'n bodoli eisoes ......... 87
Her i'r polisi sy'n bodoli eisioes ......... 88

**8 Trafodaeth: Sut Gefn Gwlad Ddylem ni ei Chreu ? ......... 89**

Rhesymeg ......... 89
Datblygu cynaliadwy a datblygu gwledig integredig ......... 89
Rôl cynllunio ......... 91
Datganoliad polisi a hynodrwydd lleol ......... 92
Adeiladu'r gallu a'r adnoddau ......... 94

**9 Argymhellion ......... 95**

Argymhellion cenedlaethol......95
Datblygu cynaliadwy a datblygu gwledig integredig......95
Argymhellion lleol......97
Datblygu cynaliadwy a datblygu gwledig integredig......97
Adeiladu gallu ac adnoddau......99
Argymhellion pellach......99

**10 Llyfryddiaeth......100**

**11 Atodiadau......104**

11 a Holiadur i gartrefi......104
11b Yngynghoriad budd-ddeiliaid......113
11c Holiadur arolwg budd-ddeiliaid......114
11e Detholiad o safbwyntiau ar gyfer ymarferion gweledigaethu cymunedol......116
11f Patrwm ar gyfer y gweledigaethu cymunedol......117
11g Data cymdeithasol-economaidd o'r holiadur i gartrefi......119

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

**Cefndir**

Bwriad yr astudiaeth yma oedd:

- astudio dyheadau cymunedau gwledig ynglŷn â chefn gwlad;
- astudio dyheadau pobl eraill sy'n defnyddio cefn gwlad ar gyfer hamddena ac i bwrpasau eraill; ac
- astudio sut gall y gyfundrefn gynllunio a pholisi cynllunioLlywodraeth y Cynulliad feithrin datblygiad cynaliadwy sy'n cwrdd â'r dydyheadau hyn.

**Adolygiad Llenyddol**

Daeth pum prif thema i'r amlwg o'r arolwg ar gynllunio ar gyfer cefn gwlad, a dyma osododd gefndir yr ymchwil. Yn gyntaf, golygodd y newid yng nghefn gwlad, o fod yn ganolbwynt cynhyrchu i fod yn ganolbwynt defnyddio, ailgreu delwedd amlbwrpas ac intigredig o "gefn gwlad". Yn ail, nad oes un ateb a fydd yn datrys holl broblemau cefn gwlad. Rhaid i'r atebion fod yn hyblyg, yn tarddu o'r gymuned leol ac wedi eu hintigreiddio â gwellianau i strwythurau cyfundrefnol. Yn dryddydd, tra bo gan y system gyllunio ran ganolog ym materion cefn gwlad,dim ond rhan o'r ateb ydyw ac nid yw eto wedi'n llwyr ddeall oblygiadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yr agenda gynaliadwy. Yn bedwerydd, mae gan y cyhoedd ran hollbwysig yng nghreu polisïau ar gyfer cefn gwlad ond daw problemau yn sgîl hyn gan mai byrhoedlog ac o'r top lawr yw natur llawer o'r cyfraniadau ac mai anaml yr â thu hwnt i fod yn ddim mwy na symbolaeth. Yn bumed, dengys astudiaethau sy'n edrych ar ba fath o gefn gwlad mae pobl yn ei dymuno bod gan bobl ymrwymiadau cryfion â thirweddau lleol, o safbwynt esthetig ac o ran defnydd. Mae amryfaliaeth, amrywiaeth, tirwedd traddodiadol a thirwedd sy'n gweithio yn elfennau hynod o ddymunol. Cefnogir datblygu cyn belled â bo hwnnw'n parchu nodweddion lleol yr ardal. Cafwyd ymatebion negyddol tuag at gyflymder a graddau'r newidiadau presennol i'r tirwedd yn sgîl yr hyn a ystyrir fel homogeneiddio a diwydiannu cefn gwlad, ynghyd â theimlad o rwystredigaeth a'r canfyddiad bod y cyhoedd yn cael eu cadw ar gyrion penderfyniadau cynllunio

**Methodoleg**

Golygai'r fethodoleg ofyn barn y cyhoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol yn y maes yn ogystal â dadansoddiad o strategaethau a dogfennau cynllunio. Galluogodd hyn gymhariaeth uniongyrchol o'r graddau roedd yr agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad Cymru yn cyfateb i theori a threfn arferol cynllunio Cymru. Gwnaed dosbarthiad syml o Gymru yn bedair adran, ar lefel ward - yn wledig, cyrion gwledig, cyrion trefol a threfol.

1. Arolwg i gartrefi: Dewiswyd wyth ward ar hap; 2 o bob un o'r dosbarthiadau gwledig/trefol. Paratowyd holiadur cyffredinol yn ymdrin â'r themau a restrwyd uchod. Holwyd sampl o 75 o drigolion ym mhob ward, gan wneud sampl terfynnol o 600.

2. Arolwg budd-ddeiliaid: holwyd 105 o fudd-ddeiliaid a derbyniwyd 22 o atebion ysgrifenedig. Cynhaliwyd seminar i drafod canfyddiadau ehangach y prosiect.

3. Arolwg ar y we: Cynhaliwyd yr arolwg hon ar hafan Sefydliad y Gwyddorau Gwledig ac fe'i hysbysebwyd drwy wahanol fforymau e-bost Cymreig. Defnyddiwyd yr un holiadur â'r arolwg i gartrefi a chafwyd 128 ymateb.

4. Arolwg cymunedol: Dewiswyd 8 cymuned, 2 o bob un o'r dosbarthiadau gwledig/trefol. Aethpwyd â sampl bwrpasol o drigolion ar ymweliad maes i asesu/drafod 3 barn, a ddewiswyd o flaen llaw, yn ymwneud â'r gymuned.

5. Dadansoddiad o Polisi Cynllunio Cymru(PCC), o safbwynt datblygu gwledig, a dadansoddiad o gynlluniau datblygu o'r arolwg cymunedol o safbwynt eu dull o ymdrin â datblygiad cefn gwlad.

6. Dau weithdy ar gyfer cynllunwyr lle drafodwyd oblygiadau barn y cyhoedd ar gyfer cynllunwyr.

**Canlyniadau**

| **Pynciau hollgwmpasog** | ***Sylwadau*** |
|---|---|
| Adnabyddiaeth amlwg o gefn gwlad amlddefnydd | *er bod sut y dylid ymdrin â hyn yn llai amlwg* |
| Anfodlonrwydd cyhoeddus gyda'u profiadau o gynllunio ar gyfer cefn gwlad | *mae anfodlonrwydd amlwg gyda'r profiad o gynllunio er bod polisi cynllunio presennol yn rhannol adlewyrchu'r farn gyhoeddus* |
| Perthynas agos gyda chefn gwlad | *mae cefn gwlad yn cael ei thrysori a'i gwerthfawrogi* |
| Pryder mawr ynglŷn â gorddatblygu | *sy'n gwrthgyferbynnu â'r adnabyddiaeth o fathau o ddatblygiad angenrheidiol* |
| Pryder mawr ynglyn ynglŷn â sbwriel yng nghefn gwlad | *thema amlwg mewn ardaloedd gwledig a threfol* |
| Ddim yn awyddus i weld llawer o newid | *Cefnogaeth gref i warchodaeth cefn gwlad ond ddim yn amlwg sut i gysoni hyn â datblygiad angenrheidiol* |
| Gwarchodaeth cefn gwlad yn gyffredinol ac ardaloedd a ddynodwyd yn ardaloedd arbennig | *cefnogir hyn yn frwd* |
| Maint a chynllun addas i ddatblygiadau | *mater allweddol, hollbwysig* |
| Cynllunio ar gyfer anghenion sefydlog | *cefnogir hon fel y ffordd addas i ymdrin ag ystod eang o ddatblygiadau* |
| Cyfuniad polisïau | *awgrymwyd yn eang bod hon yn elfen angenrheidiol sydd ar goll ar hyn o bryd* |
| Polisi sy'n cyfateb ag anghenion lleol | *angen ymateb i'r mathau niferus o gefn gwlad a geir yng Nghymru a chyfuno'r farn wleidyddol gyda barny bobl* |
| Materion dadleuol (hela/ffermio/trafnidaeth/tai) | *materion a nodwyd yn aml ond mae'r modd y'u trafodwyd yn amlygu'r ffaith eu bod yn faterion llawer mwyn cymhleth na gwlad vs tref.* |
| | |

| **Pynciau penodol** | ***Sylwadau*** |
|---|---|
| Tai | *prif achos pryder yn canolbwyntio ar gynllunio tai ar gyfer anghenion yn hytrach na galw, a'r gallu i'w fforddio*<br>*angen mwy o gysylltiad gyda pholisi cyflogaeth* |
| Trafnidiaeth | *Materion sy'n peri pryder gan fod trafnidiaeth wael yn cael ei ystyried i fod yn dal cefn gwlad yn ôl, ond mae cymudo o'r wlad i'r dref yn cael ei hystyried yn problem yn ogystal.* |
| Cyflogaeth | *angen arallgyfeirio er mwyn helpu economïau gwledig 'gwan,' a gwella natur swyddi, swyddi ar gyfer pobl leol a phobl ifainc*<br>*ond hefyd pryder ynglŷn â graddfa a gorddiwydiannu cefn gwlad* |
| Dyfodol ffermio | *pryder mawr a chytundeb cyffredinol ynglŷn â'r angen am arallgyfeirio addas* |
| Twristiaeth | *ond ar raddfa 'addas', yn amlwg 'Gymreig'ac â chysylltiad clòs â'r cymunedau lleol* |
| Hamdden | *hamddena yw'r prif berthynas â chefn gwlad*<br>*gwelir angen am ragor o gyfleoedd ar gyfer pobl leol, yn enwedig ar gyfer hamddenna anffurfiol* |
| Ardaloedd cefn gwlad lleol | *ystyrir fel y mathau pwysicaf o gefn gwlad, ond nad ydynt yn cael eu cydnabod felly* |
| Parciau Cenedlaethol/AoeddHNE | *cael eu hystyried fel y math ail bwysicaf o gefn gwlad* |
| Strategaeth aneddiadau | *dim cytundeb pendant ynglŷn â'r lleoliadau iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r datblygiadau* |
| Datblygiad cynaliadwy | *angen am ragor o integreiddio gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd lleol* |
| Cymunedau lleol | *pryder ynglŷn â gwanhau cymunedau a'r diffyg cysylltiadau rhyngddynt a'r sector gyhoeddus* |
| Yr iaith Gymraeg | *cael ei ystyried yn bwnc pwysig ond anghytundeb ynglŷn â sut y dylid ymateb i'r broblem* |

## Trafodaeth

O'r canlyniadau, amlygwyd pedair prif thema ar gyfer trafodaeth. Yn gyntaf bod cytundeb ynglŷn â'r math o gefn gwlad mae pobl am ei gweld ond nad yw'r cytundeb hwnnw o fewn un weledigaeth bendant. Yn benodol, bod angen cefn gwlad gynaliadwy, wedi'i seilio ar anghenion lleol. Cefnogir datblygiadau yng nghefn gwlad dim ond lle'r oedd tystiolaeth amlwg bod eu hangen. Gwrthodwyd, ar raddfa eang iawn, ddatblygiadau a gynyddai'r angen am deithio i waith, a ddifethai strwythurau cymunedol ac a leihâi yr ardaloedd gwyrdd/gefn gwlad oedd ar gael ac o fewn cyrraedd. Yn ail, bod angen agwedd fwy gynhwysol a chyfannol tuag at gefn gwlad er mwyn caniatáu i'r degau o asiantaethau cefn gwlad gydweithio gyda, ac er budd cymunedau lleol i greu meddylfryd a strategaethau mwy unedig. Yn sgîl hyn daw'r drydedd thema ar gyfer trafodaeth, sef datganoli polisi a hynodrwydd lleol, lle dylid datganoli cynllunio ymhellach i'r cymunedau a fydd, yn eu tro, yn cymryd rhan weithgar mewn ffurfio polisïau, yn bennaf drwy'r broses strategaeth gymunedol. Golyga gweithredu'r agenda newydd hon gynyddu gallu'r cymunedau lleol a'r asiantaethau i symud oddi wrth y pwyslais presennol ar weithio o'r top i lawr, a chystylliad byrdymor y cyhoedd â phenderfyniadau, tuag at broses lawer mwy hirdymor, yn seiliedig ar drafodaeth eang a gwell cyfathrebu. Ac yn olaf, thema

arwyddocaol ynglŷn â mecanwaith y system cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Dengys y canlyniadau gefnogaeth gyhoeddus gref iawn i lawer o'r theori presennol ynglŷn â gwarchod tiroedd agored cefn gwlad ac ardaloedd a ddynodwyd fel ardaloedd arbennig, ond beirniadaeth gyffredinol o gynllunio yn eu cefn gwlad nhw lle nad yw'r math, cyflymder na maint y datblygiadau'n cydfynd â naill ai'r theori na delfrydau'r cyhoedd. Yma mae angen craffu ymhellach ar rôl gwleidyddiaeth leol yn y broses gynllunio a phenderfyniadau lleol.

**Argymhellion**

**Cenedlaethol**

1. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru greu strategaeth wledig ddiwygiedig a fyddai'n gosod fframwaith ar gyfer gwaith yr asiantaethau a'r gyfundrefn gynllunio. Byddai raid i ddogfen o'r fath ymdrîn â phob cydran o bolisi cefn gwlad ynghyd â sut y byddai'r gyfundrefn gynllunio yn gweithio o fewn y strategaeth. Dylai hefyd ymdrîn â'r angen am ddatganoliad polisi sydd wrth wraidd yr agenda gynaliadwy, gan ddatblygu themâu sy'n rhan annatod o Gynllun Gofodol Cymru. Yn fwyaf penodol, sut y gallai asiastaethau top lawr ailgysylltu â'u cymunedau lleol drwy bolisïau o wahaniaethu a chysylltu lleol. Ystyrir strategaethau datblygu integredig a strategaethau cymunedol fel dulliau pwysig o gyflawni hyn.

2. Argymhellir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu canllawiau ar y modd y gellid gweithredu datblygu cynaliadwy o fewn y gyfundrefn gynllunio ac yng nghefn gwlad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Strategaethau Datblygu Integredig. Byddai sicrhau bod pob polisi'n cael ei ystyried o safwbynt cefn gwlad yn un ffordd o wella ymagwedd gyfunol ynglŷn â materion cefn gwlad drwy Gymru. Argymhellir defnyddio Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac adroddiadau Cyflwr ein Hamgylchedd er mwyn sicrhau cysondeb ac ar gyfer monitro polisi/cynlluniau'n gyffredinol.

3. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy PCC, wneud cais am i bolisïau diwygiedig gael eu datblygu ar gyfer cefn gwlad (tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth) a hynny ar sail empirig cadarn a dadansoddiad o angen, er mwyn dadwneud rhagdybiaethau sy'n bodoli wrth greu polisïau ar hyn o bryd. Hefyd dylid datblygu cyfres o ddangosyddion cefn gwlad er mwyn olrhain newidau yng nghefn gwlad.

4. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi'r rhan y gall LANDMAP ei chwarae, drwy ddarparu data empirig o'r radd flaenaf, mewn gwella datblygu cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru.

5. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ddiwygiad TAN 6, ddarparu canllawiau mwy manwl ar ddatblygu cynaliadwy cefn gwlad amlbwrpas Cymru, a'r defnydd o strategaethau datblygu gwledig integredig fel modd o gyflawni hyn. Dylid canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu economaidd (o bob math) a'i berthynas â darpariaeth tai a thrafnidiaeth Dylai Cynllunio: Cyflawni Dros Gymru hefyd ymhel â'r materion hyn.

6. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ddiwygiad o TAN 6, ddarparu canllawiau mwy manwl ar adnabod anghenion datblygu gwledig drwy dystiolaeth addas (gan gynnwys barn cymunedau lleol), gan gynnwys tai a chyflogaeth, a'r amgylchiadau lle gallai hyn arwain at bolisïau sy'n ymadael â

chanllawiau cyffredinol PCC. Dylai PCC yn ei dro hefyd egluro'r amgylchiadau lle gallai polisïau ar gyfer datblygu gwledig wahaniaethu oddi wrth ei ganllawiau cyffredinol.

7. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o Cynllunio: Cyflawni dros Gymru, ddarparu rhagor o ganllawiau ar y berthynas rhwng Strategaethau Cymunedol/Cynlluniau Datblygu Lleol a rheoli datblygu. Yn arbennig, sut y dylid cyfuno anghenion strategaethol a dyleuadau cymdeithasol er mwyn cefnogi datblygu gwledig cynaliadwy.

8. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog cydgordio mwy effeithiol o waith ar drafnidiaeth leol drwy Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol, strategaethau Cymunedol, a thwy ddarparu atebion integredig i broblemau trafnidiaeth, gan gynnwys ymdrîn ag effaith y defnydd o geir yng nghefn gwlad.

9. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried hel ynghyd eu henillion cynllunio er mwyn cynnal agweddau heblaw am y defnydd o dir mewn cymunedau gwledig.

10. Argymhellir y dylai PCC roi rhagor o bwyslais ar ddarpariaeth tai fforddiadwy a thai i gwrdd ag anghenion lleol yn y Gymru wledig. Dylai hefyd esbonio'r amgylchiadau lle y dylid ymwrthod â datblygiadau tai gan nad ydynt yn cyfateb ag anghenion lleol cydnabyddedig. Dylai adolygiad o TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy ymdrîn â thai fforddiadwy a darpariaeth tai i gwrdd ag anghenion lleol mewn ardaloedd gwledig. Dylid annog ymgymryd â'r agweddau a amlinellir yn '*Local Housing Market Analysis: An Advice Note To Welsh Local Authorities From The Welsh Assembly Government*' *(2002)* yng Nghymru wledig.

11. Argymhellir y dylai PCC hefyd ei gwneud yn fwy amlwg y gall tybiaethau ynglŷn ag hierarchaeth aneddiadol a pherthnasau ffwythiannol amrywio yn unol ag amgylchiadau lleol, ac y dylai polisi, ar sail tystiolaeth gadarn, adlewyrchu amrywiadau o'r fath.

12. Argymhellir y dylai PCC ddarparu rhagor o ganlawiau ar rôl cynllunio mewn gwella cyfleon ar gyfer hamddena anffurfiol yng nghefn gwlad, yn arbennig ar gyfer cymunedau lleol, a'r cysylltiadau â gweithgareddau eraill, yn enwedig strategaethau cymunedol.

13. Argymhellir y dylid croesgyfeirio TAN 12 Cynllunio yn fwy effeithiol gyda PCC ac y dylid roi rhagor o bwyslais ar ddyluniad adeiladau gwledig newydd yn gyffredinol, a'u cyfraniad at dirweddoedd gwledig Cymreig. Dylid hefyd bwysleisio gwerth LANDMAP fel y modd allweddol o ddeall/ddadansoddi tirweddau gwledig Cymru.

14. Argymhellir, pan adolygir TAN 20 Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio, y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i faterion cynllunio Cymru wledig, gan ystyried enghreifftiau o waith ymchwil gyfredol arall. Dylai'r TAN annog y defnydd o amrywiaeth o agweddau tuag at lunio polisi, i ateb amrywiol ofynion lleol.

15. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu rôl a chyfrifoldebau cynghorau cymuned er mwyn ymateb i agenda datganoli polisi.

16. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi datblygiad strategaethau cymunedol fel modd o greu hynodrwydd lleol ac y dyid defnyddio hyn fel modd o sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng y cymunedau lleol a chynlluniau top lawr yr asiantaethau.

17. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adnoddau a chefnogaeth ddigonol er mwyn cynyddu gallu ac adnoddau sefydliadau a chymunedau i wella ac adfywio strategaethau cymunedol a strategaethau gwledig integredig, ynghyd â'r gwaith a gysylltir â'r rhain megis creu polisïau cynllunio lleol, a hybu trafodaethau gwybodus am bynciau allweddol yng nghefn gwlad. Ni ddylid anwybyddu goblygiadau hyn o safbwynt adnoddau(amser ac arian). Byddai'r agenda a gynlluniwyd o ganlyniadau arolygon cyhoeddus yr arolwg hwn sef: gorddatblygu, sbwriel, dyfodol ffermio, trafnidiaeth a hela a saethu, yn fan cychwyn addas a defnyddiol.

**Lleol**

18. Argymhellir bod awdurdodau lleol ac asiantaethau yn cydnabod lle a rôl gwaith cynllunio mewn gwaith a rhaglenni eraill yn y sector gyhoeddus. Yn benodol, dylid ymroi i ddatrys y methiant presennol i weithredu strategaethau datblygu gwledig integredig a strategathau cymunedol.

19. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau weithredu cynlluniau i lanhau cefn gwlad a chreu diwylliant o barch gan bobl sy'n ymweld â neu'n teithio drwy gefn gwlad. Mae ymateb i'r ganfyddiaeth gyffredin bod cefn gwlad yn llawn o ysbwriel yn flaenoriaeth bwysig a ddaw i'r amlwg yn yr ymchwil hwn.

20. Argymhellir bod awdurdodau lleol, ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn ymdrin â datblygu gwledig mewn modd mwy integredig, gan gynnwys defnyddio gweledigaethau a strategaethau datblygu gwledig integredig. Mewn rhai achosion mae lle i ddatblygu polisïau strategol lleol fel y gwnaethpwyd Ne Ddwyrain Cymru. Ni ddylai hyn fod, o angenrheidrwydd, yn ddibynnol ar ganllawiau llawnach Llywodraeth Cynulliad Cymru, er y bydd y rhain, wrth gwrs, yn bwysig.

21. Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ac asiantaethau cysylltiedig geisio datblygu/meithrin entrepreneuriaeth leol mewn gweithgareddau datblygu gwledig. Dylid cynnal arolwg o gynlluniau hyfforddi a chynhaliaeth i fusnesau gyfredol er mwyn amlygu bylchau ac esiamplau o arfer dda megis Cyswllt Ffermio.

22. Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ystyried gwneud defnydd mwy effeithiol o botensial strategol cynllunio er mwyn ymdrin â datblygu gwledig mewn modd mwy ymarferol ac integredig, yn arbennig drwy strategaethau gwledig integredig a chymunedol.

23. Argymhellir y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud rhagor i geisio datblygu polisïau cynllunio sy'n berthnasol i'w cymunedau lleol, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth leol (gan gynnwys barn cymunedau lleol). Rhagwelir y gellir defnyddio data LANDMAP wrth ffurfio polisïau, ynghyd ag arolygon o'r farn gyhoeddus. Gellir yna ddefnyddio'n fath ddeunydd wrth lunio cynlluniau datblygu lleol fel rhan o Ddeddf Cynllunio a Pryniant Gorfodol.

24. Argynhellir y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r broses strategaeth gymunedol fel erfyn ymgynghorol ymarferol, er mwyn adnabod anghenion lleol, o safbwynt cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn yn ei dro yn gosod seiliau i asiantaethau ar gyfer pennu eu hagendâu mewn dull mwy integredig a chynaliadwy, gan felly osgoi yr angen i or-ymgynghori.

25. Argymhellir y dylid rhoi cefnogaeth i brosiectau cymunedol sy'n pwysleisio hynodrwydd lleol. Dylid annog mapiau a chynlluniau plwyfi a datganiadau o gynlluniau pentrefol. Ystyrir elfen ganfyddiad cyhoeddus o LANDMAP yn fan addas ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

26. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol, fel rhan o gonsortiwm o asiantaethau, hybu trafodaethau lleol ynglŷn â phrif faterion cefn gwlad, gan sicrhau cyhoeddusrwydd digonnol weithgareddau o'r fath.

27. Argymhellir y dylid rheoli a chydgordio'r strategaeth gymunedol er mwyn cwrdd ag angenion strategaethau sector gyhoeddus eraill, er mwyn lleihau'r byrdwn o ymgynghori gormodol.

28. Argymhellir y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i le ieuenctid mewn penderfyniadau lleol (er engyhraifft cynrychiolaeth ar gynghorau cymunedol). Yn aml, llais ymylol sydd gan ieuenctid mewn trafodaethau cymunedol gydag eraill yn rhagdybio'r math o gyfleusterau/gweithgareddau y maent eu heisiau.

**Ymchwil pellach**

29. Mae angen ymchwil er mwyn casglu tystiolaeth addas (gan gynnwys barn cymunedau lleol) fel y gellid cynnig gwell cynhaliaeth wrth adnabod anghenion datblygu gwledig. Mae tai, trafnidiaeth a chyflogaeth yn bynciau pwysig ond mae diffyg cyffredinnol yn y defnydd o dystiolaeth er mwyn cefnogi polisïau cynllunio gwledig. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd i wella'r sefyllfa, yn enwedig gan fod hwn yn ran hollbwysig o feithrin cydweithio agosach â chymunedau lleol. Byddai hyn yn darparu'r llwyfan mwy effeithiol, angenrheidiol i ddatblygiad polisi.

30. Amlygodd yr ymchwil ran ganolog strategaethau cymunedol a strategaethau datblygu gwledig integredig er mwyn sicrhau cefn gwlad gynaliadwy. Barn yr awduron yw nad yw'r prosesau hyn yn cyflawni eu llawn botensial hyd yn hyn a'i bod yn hollbwysig cydnabod y cwestiynau "pam", "sut", "ble" a "beth" drwy astudio rhychwant a gweithrediad dulliau newydd o weithredu.

31. Awgryma ganlyniadau'r ymchwil, yn betrus (ar sail sampl bychan), bod lleiafrifoedd ethnig a phobl sydd wedi ymddeol, yn gwneud llai o ddefnydd o gefn gwlad na grwpiau eraill . Efallai y gallai ymchwil pellach astudio a oes gwahaniaethau arwyddocaol yn nisgwyliadau a defnydd o gefn gwlad ymhlith y grwpiau hyn, ac os oes, y dulliau gorau o ddatrys hyn.

32. Astudiwyd sampl o ystod eang o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ac fe ymddengys bod rhai gwahaniaethau cynnil yn y modd y dennir gwahanol grwpiau at wahanol fathau o gefn gwlad. Efallai y gallai ymchwil bellach astudio'r modd y defnyddir cefn gwlad gan wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.

## PRIF AWDUDON

Dr Alister Scott Sefydliad y Gwyddorau Gwledig
James Shorten Land Use Consultants

## BYRFODDAU

AABMG – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
AHNE – Ardal o Harddwch Naturion Eithriadol
CCGC – Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CDU – Cynllun Datblygu Unedol
LICC – Llywodraeth Cynulliad Cymru
LUC – Land Use Consultants
NFU Cymru – National Farmers Union Cymru
PCC – Polisi Cynllunio Cymru
PWC – Partneriaeth Wledig Cymru
RSPB Cymru – Royal Society for the Protection of Birds Cymru
SGG – Sefydliad y Gwyddorau Gwledig
TAN(s) – Technical Advice Notes(s)
YDCW – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

# 2 DIOLCHIADAU

Hoffai'r awduron gydnabod a diolch am gymorth a chefnogaeth y Grwp Llywio wrth arwain y broses o ymchwilio ac wrth gynnig sylwadaeth adeiladol ar yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| Nigel Adams | Bwrdd Twristiaeth Cymru |
| Tim Ball | Cyngor Sir Ceredigion |
| George Ashworth | Cyngor Sir Fynwy |
| Keith Davies | Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) |
| Jeff Phillips | Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) |
| Lyndsay Roberts | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Jasper Roberts | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Paul Robinson | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Richard Thomas | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Ann Watkin | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Merfyn Williams | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/ Cynnal Cymru |

Cydnabyddir y rhai ganlynol hefyd am ddatblyu'r dulliau ymchwil, cynhyrchu'r adroddiad a chefnogi'r gwaith maes.

Roz Wornell SGG
Iwan Owen SGG
Isobel Daniels LUC
Lyndis Cole LUC

# 3 RHAGARWEINIAD

## BRÎFF Y PROSIECT

3.1 Gosodwyd yr amcanion isod ar gyfer y prosiect. I:

- audio dyheadau cymunedau ar gyfer cefn gwlad;
- astudio dyheadau pobl eraill sy'n defnyddio cefn gwlad ar gyfer hamddena a gweithgareddau eraill;
- astudio sut y gall gyfundrefn gynllunio a pholisi cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru feithrin system o ddatblygu cynaliadwy sy'n cwrdd â'r dyheadau yma.

3.2 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o Gynllun Llywodraeth Cenedlaethol Cymru: Rhaglen Ymchwil Cynllunio. Sefydlwyd y Cynllun er mwyn ymateb i'r galw am ddatblygu cynllunio ar gyfer defnydd tir, wedi'i seilio ar dystiolaeth, a hynny o fewn cyd-destun egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## CRYNODEB O BOLISÏAU CEFN GWLAD CYMRU

3.3 Dengys y cynlluniau isod gymhlethdod y strategaethau presennol sy'n dylanwadu ar gefn gwlad ar lefelau cenedlaethol, sirol a lleol. Maent hefyd o gymorth i'r darllenydd wrth geisio deall ymdriniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau unedig o faterion cefn gwlad

### CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

**Cynllunio: Cyflawni dros Gymru 2002**

3.4 Rhoddodd 'Cynllunio:Cyflawni dros Gymru' gyfres o gynigion gerbron ar sut y gellid newid y gyfundrefn gynllunio yng Nghhymru er mwyn gwella cyflwyniad cynlluniau datblygu a gwella'r gyfundrefn benderfyniadau.

**Cynllun Gofodol Cymru 2003**

3.5 Mae Pobl,Lleoedd Dyfodol yn gosod fframwaith i Gymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, gan ddisgrifio'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu gofodol cynaliadwy.

**Cymru: Gwlad Well 2003**

3.6 Gweledigaeth o sut y dylid datblygu prif gryfderau hunaniaeth Cymru er mwyn sicrhau dyfodol unigryw a chynaliadwy i Gymru. Gyda diwygiadau arfaethedig i Bolisi Amaaeth yr Undeb Ewropeaidd, mae'r potensial i'r sectorau economaidd, sy'n seiliedig ar y tir, i fod o fudd i'r amgylchfyd naturiol a chymunedau lleol, yn cynyddu.

**Cymru Ar Ein Hennill 2002**

3.7 Cymru Ar Ein Hennill yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer trawsffurfio economi Cymru, tra'n hybu datblygu cynaliadwy yr un pryd. Dengys y Strategaeth y modd y gellid cynyddu gwybodaeth, ymchwil a datblygiad a'r gallu i arloesi ym mhob rhan o'r economi yng Nghymru; adeiladu ar gryfderau'r diwydiant cynhyrchu; cynyddu nifer y swyddi yn y gwasanaethau ariannol a busnes a helpu

gynyddu'r niferoedd mewn gwaith, er mwyn lleihau ein lefelau o lesgedd economaidd. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r dogfennau "Dysgu Gweithio'n Wahanol: Datblygu Cynaliadwy" a "Cynnal Cefn Gwlad Cymru" a gyhoeddwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru.

**Cynllun datblygu Gwledig 2002**

3.8 Mae'r cynllun hwn yn sianelu cymhorthdal o Ewrop i mewn i ddatblygu economaidd cynaliadwy Cymru wledig. Mae'n ategu'r newidiadau a fu yn y sector amaeth drwy gefnogi prosiectau sy'n hybu rhagor o gydweithio rhwng amaethyddiaeth a'r gymuned wledig ehangach.

**Ffermio i'r Dyfodol 2001**

3.9 Ffermio i'r Dyfodol yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol sefydlog ac ymarferol i amaethyddiaeth yng Nghymru, a hwnnw'n ddyfodol cynaliadwy yn economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

**Dysgu Byw'n Wahanol 2000**

3.10 Yn y ddogfen hon gosodir egwyddorion cynllun statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae hon yn berthnasol i bob rhan o lunio polisi, ar lefelau cenedlaaethol a lleol.

**Partneriaeth Wledig 1998**

3.11 Sefydlwyd Partneriaeth Wledig Cymru (PWC) yn Nhachwedd 1998 fel corff ymgynghorol i ddod ag ystod eang o sefydliadau ynghyd i gyfrannu at ddatblygiad polisïau a rhaglenni ar gyfer cefn gwlad. Mae cyfrifoldebau'r Bartneriaeth yn cynwys pynciau sydd o bwys o safbwynt economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, cyfle cyfartal a diwyllianol, i Gymru wledig.

**Cynllunio Rhanbarthol**

3.12 Mae Canllaw Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru, er enghraifft, yn darparu canllawiau rhanbarthol anffurfiol er mwyn creu cyd-destun rhanbarthol ar gyfer paratoi, ystyried ac diwygio Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU); i leihau oedi ac anghytuno rhwng awdurdodau cynllunio yn ystod ymchwiliadau cyhoeddus; i amlygu pynciau lle mae cytundeb yn bodoli ynglŷn â materion cyffredin; i amlygu pynciau polisi gofodol strategol a all fod angen eu datrys a'r dulliau o'u datrys, yn ogystal â rhoi'r cyfle i sefydliadau gyfrannu at y broses gynllunio ranbarthol.

**Awdurdod Unedol**

**Polisi Cynllunio Cymru**

3.13 Pwrpas Polisi Cynllunio Cymru yw gosod cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio cynaliadwy ar ddefnydd tir. O fewn y cyd-destun hwn mae awdurdodau cynllunio lleol yn paratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol ac yn gwneud penderfyniadau,o safbwynt rheoli datblygu, ynglŷn â cheisiadau ac apeliadau unigol.

**Cynllun Datblygu Unedol**

3.14 Mae'r Cynlluniau Datblygu Unedig yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli datblygu.

**Strategaethau Cefn Gwlad/Gwledig**

3.15 Dyma'r ddogfen gynllunio anffurfiol sy'n cyflwyno gweledigaeth sir ar gyfer ei chefn gwlad. Mae'n ymdrin â'r defnydd o dir ond,yn ogystal, â materion ehangach sy'n ymwneud â chefn gwlad ond sydd heb fod yn ymwneud â chynllunio. Dyma

weledigaeth hir-dymor ar gyfer cefn gwlad, yn seiliedig ar bartneriaethau, a dod a grwpiau a chymdeithasau ynghyd i bennu'u blaenoriaethau.

**Strategaethau Cymunedol**

3.16 Gosododd Rhan 1o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gyfrifoldeb ar bob prif gyngor yng Nghymru a Lloegr i baratoi strategaeth gymunedol i hybu a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd, ac i gyfrannu at y nod o gyflawni datblygu cynaliadwy yn y DU.

3.17 Bwriad strategaethau cymunedol yw tynnu ynghyd pawb all gyfrannu i ddyfodol cymunedau o fewn ardal awdurdod leol, er mwyn cytuno ar brif flaenoriaethau ar gyfer yr ardal a gweithredu arnynt ar y cyd. Felly, bydd paratoi a gweithredu strategaethau cymunedol yn ymwneud â'r awdurdod lleol ac ystod eang o serfydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol,a chymunedol yn ogystal â'r boblogaeth leol.

**Strategaethau Datblygu Economaidd**

3.18 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae gan awdurdodau lleol y grym i wneud unrhyw beth a fydd, yn eu barn hwy, yn hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal.

**Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**

3.19 Cynlluniau, rhaglenni gwaith neu strategaethau i sicrhau gwarchod a defnydd cynaliadwy amrywiaeth biolegol, sy'n cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn unol â blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer cynefinoedd a/neu rywogaethau

# 4 ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

## RHAGARWEINIAD

4.1 Mae cefn gwlad Cymru yn adnodd amlswyddogaethol, dadleuol. Mae gofynion cymdeithas sy'n fwyfwy soffistigedig, o'r fath, fel bod "*rhaid integreiddio mwy a mwy o swyddogaethau i unrhyw dirwedd, ar un tro*" (Tress & Tress, 2003:9). Ond, er gwaetha'r holl bapurau gwynion ar gefn gwlad, asiantaethau cefn gwlad a strategaethau a chynlluniau ar gyfer cefn gwlad, does yr un weledigaeth gynhwysfawr yn bod o'r hyn yr ydym eisiau o gefn gwlad. (Cherry, 1973). Mae'r adolygiad hwn yn darlunio'r newidiadau a fu, o safbwynt y cyd-destun y mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynnol yn edrych ar gefn gwlad, ac yn nodi rhai o'r prif faterion sy'n ymwneud â'r math o gefn gwlad yr ydym eisiau, ac ar gyfer pwy y dylai gael ei rheoli.

## RÔL CEFN GWLAD

4.2 Ers cryn amser sylweddolodd sylwebwyr bod cefn gwlad yn fan dadleuol. Awgrymodd Wibberley (1982) saith rôl ar gyfer cefn gwlad:

- I gynhyrchu bwyd
- I adeiladu a datblygu
- I roi cip olwg yn ôl i ni o ddelfryd wledig yr oes a fu
- I ddiogelu'r status quo (y ddelfryd wledig bresennol)
- I hamddena a chwarae
- I warchod planhigion ac anifeiliaid
- I fod yn hafan ar gyfer llonyddwch a heddwch

4.3 Er bod y swyddogaethau yma yn parhau i fod yn amlwg iawn, nododd Marsden (1999) symudiad sylfaenol oddi wrth gefn gwlad fel canolfan gynhyrchu, lle'r oedd amaethyddiaeth a choedwigaeth yn tra-arglwyddiaethu, i gefn gwlad fel canolfan ddefnyddio lle mae gan dai, gwasanaethau gwledig, hamdden a thwristiaeth le pwysig. Mae'r newidiadau hyn yng nghefn gwlad yn arwain at densiynau a gwrthdaro newydd. Mae pwysau allanol o fannau amrywiol megis diwygio'r PAC, canoli gwasanaethau cyhoeddus, amrywiaethau yn y marchnadoedd tai lleol a gofynion hamddenna anffurfiol yn amlygu'r gwahaniaethau mewn trafodaethau, sydd eisoes yn llawn emosiwn, ynghylch cefn gwlad.

4.4 Bydd yn angenrheidiol i bolisïau'r dyfodol nid yn unig gydbwyso a darparu ar gyfer y gofynion o safbwynt gwahanol ardaloedd gwledig, ond bydd raid iddynt hefyd fod yn fwy creadigol o ran y dulliau a ddefnyddir er mwyn cynyddu gallu cystadleuol ein hardaloedd gwledig.

4.5 Atgyfnerthir hyn gan Midmore (2003) sy'n galw am agwedd mwy hyblyg tuag at newidiadau yng nghefn gwlad Cymru, ac yn nodi'r peryglon o gymhwyso dulliau'r 20ed ganrif ar gyfer datrys problemau'r 21$^{ain}$ ganrif. Er, fel y rhybuddia Buckwell (2002), mae'n hanfodol bod unrhyw gynllun ar gyfer ailadeiladu cefn gwlad yn cynnwys elfen o broffidioldeb os ydyw i gyflawni unrhyw weledigaeth.

4.6 Mae gan bolisi cynllunio ran hollbwysig i'w chwarae mewn rheolaeth cefn gwlad, ac eto mae'n parhau i fod â'i wreiddiau'n ddwfn yn y defnydd o dir, ac yn anfodlon ymgymryd â deinameg gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cefn

gwlad. Yn ôl Scott et al (2004), nid yw strwythurau yng Nghymru yn barod i ymateb i'r agenda hon, er y gellid dadlau bod y Cynllun Gofodol Cymru yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu cynnwys yn y broses gynllunio strategol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003a).

## CYNLLUNIO AR GYFER CEFN GWLAD

4.7 Ystyrir y gyfundrefn gynllunio gwlad a thref fel "*y mecanwaith mwyaf dylanwadol ar gyfer arwain ac ysbrydoli datblygu cynaliadwy cefn gwlad*" (Wakeford 2003). Serch hynny, noda Macnaghten (2003) bod cynllunio yng nghefn gwlad "*wedi tueddu i fod yn adweithiol a cheidwadol, gan ganolbwyntio ar yr esthetig weledol*" (t99). Yn ogystal, mae cyfundrefn gynllunio defnydd tir y DU yn canolbwyntio bron yn gyfangwbl ar effeithiau 'ffisegol' datblygiadau newydd a'r effeithiau ar gymunedau a ddaw yn sgîl hyn. Dywed bod ymgynghoriadau cyhoeddus wedi bod yn gwbl ddiddychymyg ac mae eu hunig effaith oedd atgyfnerthu barn y cymunedau mwy breintiedig. Felly, nid yw polisi cynllunio wedi llwyddo i ymgorffori newidiadau yn y ddeinameg gymdeithasol a diwyddiannol.

4.8 Mae cynllunio cynaliadwy felly yn sialens sylweddol, fel y cydnabyddir gan Cynllunio: Cyflawni Dros Gymru (Llywodraeth Cenedlaethol Cymru: 2002d). O fewn yr ail gread hwn o gefn gwlad mae'n bwysig gwybod ar gyfer cefn gwlad pwy yr ydym yn cynllunio. Yn draddodiadol, mae polisi cefn gwlad wedi bod gyfystyr ag anghenion amaethyddol. Anaml ystyriwyd cefn gwlad fel cyfanwaith ac o'r herwydd ffurfiwyd y tirwedd gan bolisïau amaethyddol, gyda pholisi cefn gwlad yn ymdrechu i ymdrin ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y polisïau hyn(Curry, 1993). Nawr bod polisi cefn gwlad yn ganolog, gwelwn lwybrau mwy amrywiol a dadleuol o ddatblygu yn ffurfio.

4.9 Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (1999) yn cydnabod y symudiad hwn. Mae'n amlwg nad yw 'gwledig' bellach yn gyfystyr ag amaethyddiaeth, gyda'r ddadl gefn gwlad yn amlygu blaenoriaethau eraill ar gyfer cefn gwlad. Adlewyrchir y dyfodol newydd hwn yn y "*ffordd y gallai amaethyddiaeth a chefn gwlad gael eu haildrefnu*" (Ploeg et al 2000: 390). Er enghraifft, cynhaliwyd ymchwil diweddar yng Nghymru yn asesu pa mor ymarferol fyddai sefydlu 'Coed Newydd' yn yr ucheldir (GrŴp Polisi Defnydd Tir, 2002); dengys arolwg gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002a) yr amrywiaeth gynyddol a geir yng nghefn gwlad, gyda symudiad oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol; dengys gwaith ar gynllun Tir Cymen berthynas newydd rhwng economïau trefol a gwledig (Banks a Marsden, 2000) ac amlyga'r gwaith ar ail gartrefi a thai haf, i Lywodraeth Cynulliad Cymru (2002b), y duedd gynyddol o symud i gefn gwlad i ymddeol neu i gymudo, gan ddod â gwahanol ddyheadau, ffyrdd o fyw ac anghenion yn eu sgîl.

4.10 Yn arwyddocaol, ni roddwyd y sylw haeddiannol i ddatblygiad gofodol cefn gwlad (Hadjimichalis, 2003). Serch hynny, mae Cynllun Gofodol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003a) yn ceisio, o fewn pedair her gofodol sef: ystyried gwerth cefn gwlad; creu cymunedau cynaliadwy; cynyddu a lledu ffyniant economaidd a hygyrchedd cynaliadwy, rhoi rhagor o ystyriaeth i amrywiadau lleol yng nghymeriad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cefn gwlad, fel yr argymhellir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (AABMG 2001 a Shorten *et al.* 2001).

4.11 Yn ôl Selman (2002), mae'r meddylfryd mwy integredig hwn yn hollbwysig gan fod y byd cynllunio'n llawn cymhlethdodau gyda llu o amrywiol garfanau a chynlluniau'n cael eu taflu ynghyd heb unrhyw drefn gydlynu hollgynhwysfawr. Yn yr un modd, mae Land Use Consultants (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002a) yn galw

am ymdriniaeth fwy integredig, yn genedlaethol a lleol, gan seilio cynllunio lleol yn ddyfnach ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol amgylahiadau lleol.

4.12 Fodd bynnag, mae Scott (2001) yn bryderus nad yw cynllunydd heddiw wedi'i arfogi'n addas ar gyfer cwrdd â gofynion yr agendâu newydd. Cadarnha ymchwil Hales (2000) hyn gyda dadansoddiad grymus o'r modd y mae datblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu mewn cynlllluniau datblygu. Yn ôl y dystiolaeth, dengys y cynllunwyr gefnogaeth fiwrocrataidd, lwyr i'r status quo, heb yn aml gwestiynu seiliau'r polisïau nac ychwaith fod â'r adnoddau i herio'r cyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes (Scott, 2001).

## DADANSODDI CANFYDDIADAU CYHOEDDUS YNGLŶN Â CHEFN GWLAD

4.13 Mae'r methodolegau ar gyfer dadansoddi canfyddiad cyhoeddus wedi'u sefydlu ers tro, ac yn gynyddol soffistigedig. Maent yn cynnwys graddfeydd graddoli semantig (Penning-Rowsell a Hardy, 1973); arolygon ffotograffig (Byrne 1979); grwpiau ffocws ar gyfer polisi coetiroedd (Burgess, 1996); arolygiadiadau lleol o bentrefi a datganiadau o gynlluniau pentrefol (Owen, 2002); Ymarferion Cynllunio go Iawn (Tewdwr- Jones a Thomas, 1998); ymdriniaethau yn seiliedig ar sefyllfaoedd (Yorkshire Dales National Park, 1992); sefyllfaoedd cyfrifiadurol (Tress a Tress, 2003) ac yn ddiweddar, rhaglenni rhyngweithiol ar y rhyngrwyd (Kingston 1998). Tra bod arolygon o'r fath yn ddull rhwydd o gofnodi canfyddiadau'r cyhoedd, mae troi'r farn yn bolisïau'n parhau i beri problem; wedi'r cwbl, nid un farn gyhoeddus sydd yna ar y mater. Yn wir, mae perygl ymgynghor'n gyhoeddus er ei fwyn ei hun, yn hytrach nag er mwyn ymgorffori'r wybodaeth yn y broses ehangach o greu polisïau.

4.14 Er gwaethaf datblygiadau methodolegol, mae perygl gwirioneddol i lawer o arolygon ddirywio i fod yn ddim ond rhestrau rhwystredig o ddymuniadau yn hytrach nag asesiadau ystyrlon o realiti cefn gwlad. Fel y dywed Osborn (2002), mae angen hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â materion cefn gwlad, gan ddileu'r mythiau ac ymdriniaethau gor-syml, sydd mor gyffredin yn y cyfryngau cyn cynnal arolwg. Serch hynny, dengys arolygon y gall y cyhoedd fod â daliadau soffistigedig iawn ynglŷn â materion cefn gwlad (Scott 2003; Comisiwn Coedwigaeth Cymru, 2003; Bocs 1). Er enghraifft dengys arolygon a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru fel rhan o broses LANDMAP, gysylltiadau cadarnhaol cryf gyda chefn gwlad yn lleol, ymdeimlad o le, defnydd, traddodiad, amrywiaeth, potensial ar gyfer hamdden ac angen i ddatblygu mewn modd sensitif. Ac wrth wraidd y rhain i gyd mae'r ymdeimlad cyffredinol bod cefn gwlad dan fygythiad (Bocs 1).

4.15 Yn wir, mae'r ymdeimlad o le yn ennyn ymrwymiadau emosiynol a diwylliannol cryfion â chefnau gwlad sydd, yn eu tro'n troi'n ddadleuon cyhyrog o blaid eu cadwraeth (Bullen *et al,* 1998a, b, ac c). Er mwyn cydnabod y ffaith bod tirwedd yn creu ymdeimlad o hunaniaeth, mae'n rhaid i'r rhai sy'n creu polisïau ystyried y cysylltiadau cryfion sydd gan unigolion â mannau lleol penodol a'r ymdeimlad o fodlonrwydd a ddaw yn sgîl hynny.

4.16 Gwêl y cyhoedd werth mewn tirweddau sy'n cael eu rheoli, o safbwynt esthetig ac o ran defnyddioldeb. Ceir ymateb cadarnhaol i dirweddoedd amaethyddol ffrwythlon sy'n cael eu rheoli ac fe atgyfnerthir hyn gan y canfyddiad o fygythiad gan ymwthiad trefol i gefn gwlad. Mae'r awydd hwn am warchod

‘gwyrddni’ ac ymatebion negyddol i golli elfennau ‘traddodiadol’ cefn gwlad, megis gwrychoedd, waliau cerrig ac ymylon caeau, yn hollbresennol ac fe’u hadleisir gan Gyngor Cefngwlad Cymru pan ddywedir: *“yn gyffredinol, gwel gymunedau’r angen am ffin werdd, braf ar ymylon a rhwng aneddiadau, megis coetiroedd, rhostiroedd phorfa”* (CCGC, 1996:5).

4.17 Yn ogystal, dengys ymchwil newydd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (2003) werthfawrogiad a chefnogaeth y cyhoedd i goed yn y tirlwedd a’u dymuniad i weld rhagor o goetiroedd yng Nghymru, er bod ffafriaeth amlwg o goed llydanddail.

*“Am fy mod yn teimlo’n rhan ohono: fy mod yn perthyn yno” (yn* Bullen *et al,* 1998b).

*“….ymdeimlad o berthyn – fel mai chi sydd biau’r lle (yn* Bullen *et al*, 1998c)

*“’dydy o’n amlwg ddim driphlith draphlith; mae’n daclus, felly dylai cefn gwlad fod” (yn* Scott, 2002a:285)

*“Edrych fel anferth o fwrdd gwyddbwyll. Fel clytwaith. Rwy’n hoffi’r patrwm a’r lliw”* (ibid, 287)

*“Digonedd o liwiau, uchel ac isel, llawer o goed, hoffi cerdded yn y tirwedd hwn. Mae’r amrywiaeth yn bwysig”* (Sylwadau ar dirwedd dyffryn yn Scott, 2002a:285)

*“….cerdded mewn caeau gleision. Dim ceir na phobl. Heddychlon a iachus iawn”* (Cyngor Cefn Gwlad, 1995:9)

*”Rwy’n teimlo’n rhydd i grwydro fan hyn. Rwy’n byw ger y môr ac rwyf wrth fy modd yn crwydro ar hyd y llwybrau i gadw’n heini”* (yn Bullen *et al* 1998b)

*“….y llefydd tawel yng ngogledd Cymru sydd dan y bygythiad mwyaf”* (Scott, 2003)

*“……rydym yn colli amrywiaeth a chymeriad ein pentrefi. Yr un fricsen goch ym mhobman; gallai fod unrhywle yn y DU.”* (Scott, 2003)

**Bocs 1: Detholiad o ddyfyniadau allan o arolygon canfyddiad cyhoeddus ar hyd a lled Cymru**

4.18 Dangosodd y dulliau seiliedig ar sefyllfaoedd a ddefnyddiwyd gan Tress a Tress (2003) yn Nenmarc, bod bron i dri chwarter o’u grwpiau astudio o blaid cynnydd mewn ffermio diwydiannol, ochr yn ochr â gwelliannau amgylcheddol megis rhagor o goed ac ardaloedd naturiol. Gwerthfawrogir y math hwn o dirwedd fel cyfanwaith, ond fe werthfawrogir hefyd yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo. Mae patrymau caeau a lliwiau’n ddylanwadol iawn ac yn cael eu cysylltu’n gyffredinol â ‘naturioldeb’, felly bod angen i bobl broffesiynol ym myd tirlwedd fabwysiadu agwedd mwy hyblyg tuag at y dehongliad o’r term ‘naturiol’ yng nghyd-destun datblygu polisi. Pwysleisia astudiaethau LANDMAP hefyd y gwerth a roddir ar gefn gwlad o safbwynt economaidd a hamdden, tra bo cefn gwlad hardd yn unig, heb dystiolaeth o ddatblygu economaidd, mannau hamddena wedi eu rheoli neu “rywbeth yn mynd ymlaen” yn cael ei beirniadu (Scott, 2002a). Amlygir yr un themâu mewn gwaith ymchwil diweddar, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar gymunedau cytbwys o ran oed, lle’r amlygwyd ac aseswyd farn ieuenctid yng nghefn gwlad mewn cynlluniau gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004). Yn yr arolwg hwn roedd ieuenctid yng nghefn gwlad am weld rhagor o swyddi ar gael, llwybrau gyrfa effeithiol, llais effeithiol er mwyn dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau cefn gwlad wedi’u targedu at eu hangenion presennol am waith (gofal plant), adloniant a hamdden.

4.19 Datgelwyd mater arall ynglŷn â'r berthynas â chefn gwlad gan arolwg ymysg pobl dduon ac ethnig, lle'r oedd rhwystrau canfyddiadol ac ymarferol yn rhwystro mynediad a mwynhad o gefn gwlad (Asiantaeth Cefn Gwlad, 2003).

4.20 Daeth yr ymatebion mwyaf cadarnhaol i gefn gwlad o weld tirweddoedd sy'n cyfuno elfennau a ystyrir yn 'draddodiadol'a/neu 'naturiol'. Yma mae elfennau megis coed collddail, gwrychoedd a waliau cerrig yn arwyddocaol iawn (Comisiwn Coedwigaeth Cymru, 2003; Bullen *et al*, 1998, 1999; Comisiwn Cefn Gwlad , 1995; Scott, 2002a; Tress & Tress, 2003). Ynghlwm â'r ymateb esthetig hwn mae awydd hefyd i gael profiad uniongyrchol o'r tirwedd drwy gysylltiad ymarferol. Ategir hyn gan ymchwil Tress and Tress (2003), gyda'r rhai a holwyd yn cefnogi rhagor o gyfloedd ar gyfer hamdden yng nghefn gwlad, gan gynnwys mynediad ehangach a mentrau newydd megis llwybrau, llynnoedd pysgota a chanolfannau adloniant. Cadarnheir y syniad yma o gefn gwlad fel man ar gyfer gweithgareddau iach a hamddenna gan waith cymharol yng Nghymru (Bullen *et al* 1998, 1999) a Lloegr (Comisiwn Cefn Gwlad, 1995).

4.21 Fodd bynnag, ymateb gwyliadwrus a geir mewn ardaloedd sensitif o safbwynt twristiaeth, megis Gwynedd, lle'r ystyrir twristiaeth fel bygythiad gwirioneddol, yn sgîl y canfyddiad ei fod yn cyfrannu at y mewnlifiad o breswylwyr di-Gymraeg sydd, gyfystyr â cholli'r diwylliant "Cymreig" (Scott, 2003).


4.22 Ond, er gwaethaf agwedd negyddol tuag at rai datblygiadau ar gyfer twristiaeth, dengys ymchwil nad datblygu ynddo'i hun sy'n cael ei ystyried fel bygythiad, ond yn hytrach, fath, lleoliad a maint datblygiadau presennol. Cydnabyddir bod newid yn anorfod os am gynnal cymunedau bywiog, ymarferol (Bullen *et al,* 1998b). Y newidiadau a grybwyllir amlaf yw tai fforddiadwy, gwaith yn lleol a thrafnidiaeth, a hynny ar raddfa addas. Mae awydd mawr am weld datblygiadau sy'n gweddu i'r amgylchfyd presennol, am atgyweirio adeiladau sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag adeiladu o'r newydd, am ddatblygu o fewn ffiniau pentrefi yn hytrach na datblygiadau strimynog ac am ddefnyddio deunyddiau a llafur lleol (Scott 2003). Yn wir, mae ymateb negyddol amlwg iawn i'r canfyddiad o "homogeneiddio" cefn gwlad gan ddatblygiadau mawr, digymeriad a allai fod unrhyw le.

# 5 METHODOLEG

5.1 Dengys y cyfuniad o ddulliau a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ymchwilio'r pwnc problemus, a hynod o sensitif, hwn yr angen am waith trwyadl. Cynhyrchwyd toreth o lenyddiaeth am weithiau ymchwil ymgynghorol ond mae eu defnyddioldeb yn gyfyngedig oherwydd eu dibyniaeth ar un dull penodol yn unig (Scott, 2002). Fel y noda Burgess (1999), dylai ymchwilwyr mewn ardaloedd gwledig ddefnyddio cyfuniad o ddulliau mesurol ac ansoddol er mwyn esbonio agweddau cymhleth a dadleuol o ymchwil ymarferol a dadansoddol o bolisi gwledig gymhwysol. Mae'r farn hon yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun adnabod ac asesu sut fath o gefn gwlad yr hoffai'r cyhoedd ei gweld.

5.2 Mae saith rhan i'r fethodoleg, sy'n cofnodi barn y cyhoedd, cymunedau, pobl broffesiynol a budd-ddeiliaid, ynghyd â dadansoddiad o strategaethau cynllunio a dogfennau. Mae pedair thema wrth wraidd y gwaith ac fe'u defnyddiwyd fel sylfaen wrth lunio'r fethodoleg.

- Diffiniad/dealltwriaeth o 'gefn gwlad'.
- Dymunol vs rôl/defnydd gwirioneddol o dir cefn gwlad.
- Materion sy'n pryderu pobl am gefn gwlad a pham.
- Gweledigaeth pobl ar gyfer cefn gwlad, a sut y gellid ei chyflawni.




**Ffigwr 1: Methodoleg**

Disgrifir pob rhan yn ei dro

## CANFYDDIAD GYHOEDDUS O GEFN GWLAD

### Arolwg i gartrefi

5.3 Er mwyn sicrhau sampl gynrychioliadol ar hyd a lled Cymru roedd angen ymdrin â'r ymchwil mewn amryw o rannau. Defnyddiwyd y drefn fethodolegol isod.

5.4 Addaswyd dosbarthiad a ddefnyddiwyd gan Land Use Consultants (2001), ar sail amrywiaeth yr economi wledig[1], er mwyn creu teipoleg syml o leoliadau gwledig/trefol. Gwahaniaethwyd rhwng **cyrion gwledig** sef yr ardaloedd gwledig oedd o fewn cyrraedd ac o dan ddylanwad anheddiad a **gwledig** sef ardaloedd oedd yn fwy hunan-gynhaliol; tra ar gyfer y dosbarthiad trefol defnyddiwyd **cyrion trefol** ar gyfer yr ardaloedd a ffiniai'n uniongyrchol ag ardaloedd trefol, a **threfol** ar gyfer canolfannau trefol traddodiadol. Er bo'r dosbarthiad yn un amrwd braidd, fe ganiatâi wahaniaethu rhwng lleoliadau trefol a gwledig.

5.5 Dosbarthwyd holl wardiau Cymru gan ddefnyddio dadansoddiad clwstwr a wnaethpwyd, ar lefel ward, yng nghyfrifiad 1991 gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol. Sylfaenwyd y clystyrau hyn ar ystod o nodweddion economaidd a chymdeithasol ac yna fe'u trosglwyddwyd i'n teipoleg ni. Dyma'r dull a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu canllaw ar gyfer ymgymryd ag arolygon canfyddiad cyhoeddus (CCGC, 2002).

5.6 Dewiswyd dwy ward, ar hap, o bob un o'r pedwar categori hyn, gan roi i ni'r wyth ward derfynol ar gyfer yr astudiaeth.

a. Trefol — Aberafan (Castell-Nedd a Phort Talbot) — Offa (Wrecsam)
b. Cyrion trefol — Mawr (Abertawe) — Aston (Glannau Dyfrdwy)
c. Cyrion gwledig — Talgarth (Sir Frycheiniog) — Llangybi (Mynwy)
d. Gwledig — Tregaron (Ceredigion) — Caerhun (Aberconwy)

5.7 Darparwyd sampl o 150 o gartrefi, ar hap, gan Allied[2] Computing Services, gyda chwota o 75 o ymatebwyr ar gyfer pob ward. Roedd y 75 arall wrth gefn rhag ofn i rai wrthod neu beidio ag ateb. Cafwyd sampl terfynol o 600 o ymatebwyr. Yna targedwyd cyfran o ymatebwyr gwrywaidd/benywaidd i bob cartref, yn ôl ystadegau cyfrifiad 2001.

5.8 Yna,yn ystod Awst-Hydref 2003, holwyd yr ymatebwyr, yn eu cartrefi, gan holwyr dwyieithog, gan ddefnyddio holiaduron o gwestiynau penodol a chwestiynau penagored (Atodiad 11a) Parodd y cyfweliad tua 20 munud.


5.9 Yna bwydwyd yr ymatebion i becyn meddalwedd holiaduron, Keypoint 3.

5.10 Cyfunwyd yr holl elfennau hyn yn y dadansoddiad a wnaethpwyd ym Mhennod 6. Gwelir ragor o fanylion economaidd-gymdeithasol y sampl yn Atodiad 11f.

---

[1] Dosbarthu awdurdodau lleol yn ardaloedd gwledig anghysbell, gwledig ond o fewn cyrraedd a chyrion trefol

[2] Bu'n rhaid defnyddio'r gwasanaeth hwn oherwydd newidiadau yn y Ddeddf Diogelu Gwybodaeth sy'n cyfyngu ar ddefnyddioldeb y cofrestr etholiadol fel fframwaith ar gyfer dewis sampl, a goblygiadau swyddogion awdurdodau lleol yn monitro holwyr gan ddefnyddio'r adnodd hwn.




**Awdurdodau Unedol:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | Ynys Môn | **2.** | Blaenau Gwent |
| **3.** | Pen-y-bont ar Ogwr | **4.** | Caerffili |
| **5.** | Caerdydd | **6.** | Sir Gaerfyrddin |
| **7.** | Ceredigion | **8.** | Conwy |
| **9.** | Sir Ddinbych | **10.** | Sir y Fflint |
| **11.** | Gwynedd | **12.** | Merthyr Tydfil |
| **13.** | Sir Fynwy | **14.** | Castell-Nedd a Phort Talbot |
| **15.** | Casnewydd | **16.** | Sir Benfro |
| **17.** | Powys | **18.** | Rhondda Cynon Taf |
| **19.** | Abertawe | **20.** | Torfaen |
| **21.** | Bro Morgannwg | **22.** | Wrecsam |

**ALLWEDD:**

Ardaloedd Gweledigaethu cymunedol gweledigaeth gymunedol: (coch)    Wardiau holiaduron i gartrefi: (glas)

**Map 1: Sampl o wardiau a chymunedau a ddewisiwyd**

**Ymgynghoriadau ymhlith budd-ddeiliaid**

5.11 Ar gyfer yr arolwg i fudd-ddeiliaid cynhaliwyd ymgynghoriad arferol, gyda chwestiynau rhagddiffiniedig, a adlewyrchai'n fras holiadur yr arolwg i gartrefi, ond bod ei arddull yn fwy agored (Atodiad 11b). Gofynwyd i 105 o fudiadau sydd â diddordeb mewn materion cefn gwlad, i ymateb rhwng Medi a Thachwedd 2003, ond 22 yn unig o atebion ysgrifenedig a dderbyniwyd, ynghyd â phump ymateb llafar.

5.12 Yna cynhaliwyd seminar rhyngweithiol ar Dachwedd 14eg gan ganolbwyntiodd ar ganlyniadau ehangach yr astudiaeth. Bu'r broses ryngweithiol hon o gymorth i ni ddeall ymateb y budd-ddeiliaid i agenda'r cyhoedd, yn ogystal â rhoi rhagor o ddealltwriaeth i ni o'u barn hwythau.

**Arolwg cyhoeddus ar y we**

5.13 Rhoddodd yr arolwg ar y we gyfle i unrhyw un oedd â diddordeb, i gymryd rhan yn yr arolwg. Defnyddiwyd yr un holiadur, yn y Gymraeg a'r Saesneg, â'r holiadur i gartrefi, ddefnyddio meddalwedd Keypoint 3. (http://www.irs.aber.ac.uk/als/netpage/research)

5.14 Defnyddiwyd rhaglen eang o gyhoeddusrwydd a datganiadau i'r wasg er mwyn ceisio creu diddordeb yn yr arolwg yn y papurau newydd cenedlaethol a'r cyfryngau. Hefyd e-bostiwyd fforymau sefydledig megis:

i. http://www.allwalespeople1st.co.uk/forum/; http://www.whatswrongwithbritain.com/
ii. BME-WALES-HEALTH-SOCIAL-CARE- request@jiscmail.ac.uk
iii. BBCi

yn y gobaith o ennyn ymateb.

5.15 Cafwyd 129 o ymatebion erbyn y dyddiad cau, Rhagfyr 1af. Rhaid pwysleisio mai ychwanegu gwybodaeth yn unig a wnaeth yr ymatebion hyn, gan eu bod, yn naturiol, yn tueddu i fod gan rai sydd â diddordeb penodol mewn materion o'r fath, yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Ymarferiad weledigaethu gyhoeddus**

5.16 Ar gyfer y rhan yma'r arolwg, gwnaethpwyd astudiaeth fanwl o'r wyth cymuned. Dewiswyd dwy gymuned o'r teipoleg gwledig-trefol a ddisgrifiwyd eisoes (5.6) gan wneud ymdrech wirioneddol i sicrhau bod y dewis terfynol wrthgyferbyniol o safbwynt nodweddion daearyddol, economaidd a chymdeithasol (Map1).

| | |
|---|---|
| Trefol : | Caerdydd a Rhyl |
| Cyrion trefol: | Resolfen and Llanelwy |
| Cyrion gwledig: | Pencader a Llandrinio |
| Gwledig: | Bala ac Aberaeron |

5.17 Defnyddiwyd model gweledigaethu, gan ei addasu ar gyfer anghenion penodol y prosiect drwy gynnal ymweliadau i ardaloedd penodol o gefn gwlad o fewn, neu o gwmpas, cymuned arbennig.

5.18 Cynhaliwyd ymweliad cyn weledigaethu gan y tîm prosiect ac o ganlyniad amlygwyd gwahanol safbwyntiau y dylid eu hystyried yn ystod y gweledigaethu, yn unol â meini prawf a gytunwyd, fel y nodir yn atodiad 11d.

5.19 Gwnaethpwyd hyn yn ystod mis Hydref a dechrau Tachwedd gydag hyd at 12 unigolyn o'r cymunedau neu gerllaw (hyd at 5 milltir fel arfer) yn cymryd rhan.

5.20 Trefnwyd yr unigolion i gymryd rhan drwy rwydwaith o brif gysylltiadau a thrwy rwydweithio o fewn grwpiau ac arweinwyr cymunedol. Y nod oedd, drwy ddefnyddio samplu bwriadus, cael cynrychiolaeth mor gytbwys o'r cymunedau ag oedd bosib. O ganlyniad, ni chynhwyswyd arweinwyr sefydledig na gwleidyddion lleol, heblaw un cynrychiolydd ar gyngor cymuned.

5.21 Tapwyd y cyfarfod a defyddiwyd ysgrifennydd i gofnodi trafodaethau, a chynhyrchu trawsgrifiad terfynol, gan ddilyn trefn osodedig (Atodiad 11e). Parai'r sesiwn hyd at 4 awr a chynhwysai:

- Frîff technegol;
- 3 ymweliad safle a thrafodaeth; a
- Thrafodaeth derfynol er mwyn diffinio'r weledigaeth o safbwynt y gymuned.

## POLISI CYNLLUNIO AR GYFER CEFN GWLAD

### Dadansoddiad o Polisi Cynllunio Cymru (2002) a'r TANs

5.22 Polisi Cynllunio Cymru (PCC:Llywodraeth Cenedlaethol Cymru 2002c) ynghyd ag 21 o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) yw polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Ar gyfer yr ymchwil hwn canolbwyntiwyd ar arfarniad o PPC ynghyd â TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy; TAN6 Datblygu Amaethyddol a Gwledig; TAN13 Twristiaeth; TAN14 Cynllunio'r Arfordir; TAN16 Chwaraeon a Hamdden; TAN18 Trafnidiaeth a TAN20 Yr Iaith Gymraeg.

5.23 Mae'r dadansoddiad yn dangos prif themâu canfyddiadu'r cyhoedd o gefn gwlad Cymru ac yn astudio'u hoblygiadau ar gyfer polisi cenedlaethol.

### Dadansoddiad o gynlluniau datblygu a rheoli datblygu

*Cynlluniau datblygu*

5.24 Defnyddiodd y tîm ymchwilio arolygon o bolisi cefn gwlad mewn cynlluniau datblygu Cymreig, a wnaethpwyd ganddynt yn y gorffennol, ynghyd â gwerthusiad o saith CDU a oedd yn berthnasol i'r gweledigaethu cymunedol (Caerdydd, Castell-Nedd a Phort Talbot, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Parc Cenedlaethol Eryri). Ychwanegwyd Siroedd y Fflint ac Abertawe, gan wneud cyfanswm o wyth cynllun.

5.25 Ar gyfer y dadansoddiad o PCC a'r TANs, y prif ddull a ddefnyddiwyd oedd astudio goblygiadau prif themâu'r gweledigaethau cyhoeddus ar gyfer cefn gwlad, ar gfer polisi lleol.

*Gweithdai cynllunio.*

5.26 Cynhaliwyd dau weithdy, gyda swyddogion rheoli datblygu ac aelodau etholedig, er mwyn rhoi cyfle i drafod canfyddiadau cyhoeddus o gefn gwlad a'u hoblygiadau ar gyfer polisi a gwaith cynllunio. Cynhaliwyd y rhain ddechrau fis Rhagfyr, yng Nghaerdydd a Phenrhyndeudraeth

5.27 Cyfunir y dair elfen hon o ddadansoddi cynllunio ym mhennod 6.

# 6 CANLYNIADAU: CANFYDDIADAU CYHOEDDUS O GEFN GWLAD

## AROLWG I GARTREFI


6.1 Cyflwynir a dadansoddir ganlyniadau'r arolwg i gartrefi ar gyfer pob un o'r prif gwestiynau. Yna dadansoddir y canlyniadau mewn adrannau diweddarach, yn ôl amrywiadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a daearyddol.

Canfyddiadau o gefn gwlad

| **tref neu gefn gwlad %** | **gwledig** | **cyrion gwledig** | **trefol** | **cyrion trefol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Tref | 20% | 11% | 80% | 22% | 33% |
| Cefn gwlad | 79% | 86% | 19% | 74% | 64% |
| Arall | 1% | 3% | 1% | 3% | 2% |
| | | | | | |

**Tabl 1: Ydych chi'n ystyried eich bod yn byw yn y dref neu yng nghefn gwlad (n=580)**


6.2 Dengys Tabl 1 nad yw lleoliad wardiau'r ymatebwyr yn cyfateb yn gyfangwbl â'u canfyddiadau trefol-wledig. Tra bo'r mwyafrif o'r rhai a holwyd yn ystyried eu hunain i fod yn byw yng nghefn gwlad (64%), mae'n amlwg bod rhai pobl sy'n byw mewn wardiau gwledig yn ystyried eu hunain i fod yn hanu o'r dref (20%) ac fel arall. Dengys cwestiynu pellach bod y canfyddiadau yma wedi'u creu i gryn raddau gan y mannau lle'u magwyd neu lle dreuliwyd y rhan fwyaf o'u hoes a/neu gysylltiadau gyda'u hardaloedd presennol, neu waith. Mae'r canlyniadau'n arbennig o ddiddorol yn ardaloedd y cyrion trefol lle mae mwyafrif mawr yn ystyried eu hunain i fod yn byw yng nghefn gwlad (79%). Yma, fe ymddengys mai'r ffactorau allweddol oedd presenoldeb caeau gwyrddion ac ymdeimlad o arwahanrwydd daearyddol oddi wrth ardal drefol benodol.




**Ffigwr 2: Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o gefn gwlad (n=598)**


6.3 Dengys Ffigwr 2 bod yr ymatebwyr yn defnyddio cefn gwlad yn aml ar gyfer ystod o weithgareddau, gan gynnwys byw, hamdden, cadwraeth a gweiddgareddau beunyddiol. Yn arwyddocaol, defnyddir gefn gwlad lai ar gyfer gwaith/weithgareddau proffesiynol a diddordebau arbennig neu ysbrydol.


6.4 Awgryma Ffigwr 3 y gwêl y cyhoedd gefn gwlad yn cyflawni nifer o rolau amlswyddogaethol. Gwelir y lefelau uchaf o gytundeb ynglŷn â chefn gwlad fel lle ar gyfer cadwraeth (60%) ac i gael heddwch (49%). Fodd bynnag, ceir lefelau uchel o gytundeb hefyd ynglŷn â chefn gwlad fel man ar gyfer cynhyrchu bwyd (32%), hamdden (26%), fel lle i fyw (37%), i gadw'n heini (88%) ac i feithrin cymuned (74%). Anghytunwyd yn bennaf ynglŷn â chefn gwlad fel lle ar gyfer adeiladu ac ar gyfer cludo nwyddau a gwasanaethau.




**Ffigwr 3: Beth yw rôl cefn gwlad (n= 599)**

6.5 Dengys yr asesiad ffotograffig asesiadau positif cryf o'r pedwar math o gefn gwlad (Ffigwr 4). Rhoddwyd y gwerth mwyaf ar y tirwedd pentrefol a'r rhostir, tra bo'r tir amaethyddol yn llai poblogaidd. Astudiwyd y rhesymau am hyn mewn cwestiynau pellach, penagored. Er mai lleiafrif o'r rhai a holwyd a atebodd y cwestiwn hwn (108), seiliwyd yr hoffter o'r rhostir ar ei wylltineb, ei heddwch a'i harddwch naturiol. Y rhesymau dros beidio'i hoffi oedd ei fod yn ddiflas, undonog ac anniddorol. Hoffwyd y pentref oherwydd y canfyddiad o "ymdeimlad o gymuned" a'r ffaith ei fod yn ddatblygiad bychan mewn ardal wledig. Fodd bynnag, cafwyd barn amrywiol ynglŷn â'r tir amaethyddol, gyda rhai'n ei ystyried yn "dir amaethyddol da/cynhyrchiol" gwrthwynebu'r canfyddiad o "ffermio dwys" a "diffyg gwerth cadwraethol". Gwelwyd gwerth i'r parcdir ar gyfer hamdden ond hefyd fe'i hystyriwyd yn ddiflas ac anghynhyrchiol.




**Ffigwr 4: Asesiad ffotograffig (n= 597)**


6.6 Dengys ganlyniadau'r cwestiwn hwn, sef pa newidiadau a ddymunwyd eu gweld i'r tirweddau gwledig yma, lefel uchel o fodlonrwydd gyda chefn gwlad ymhlith yr ymatebwyr, gyda'r mwyafrif ohonynt ddim am weld unrhyw newidiadau o gwbl (Tabl 2). Yn y tirweddau amaethyddol, y rhosdir a'r parcdir, amlygwyd teimlad o'r angen am ragor o goedwigaeth/goetiroedd ar raddfa fechan (collddail neu gymysg yn bennaf) a chadwraeth bywyd gwyllt.

| Pa newidiadau i'r lluniau | Rhosdir | Pentref | Tir amaethyddol | Parcdir |
|---|---|---|---|---|
| dim newidiadau o gwbl | 68% | 81% | 59.7% | 69.8% |
| datblygiad tai ar raddfa fechan | 2.2% | 5.5% | 3.5% | 1.3% |
| datblygu cyflogaeth ar raddfa fechan | 1.2% | 5.5% | 2.5% | 1.7% |
| datblygiad twristiaeth ar raddfa fechan | 5.7% | 5.8% | 4.2% | 6.5% |
| coedwigaeth a choetir ar raddfa fechan | 13.3% | 2.3% | 18% | 4.8% |
| ehangu amaethyddol ar raddfa fechan | 4.3% | 1.2% | 4% | 1.3% |
| anheddiad newydd | 1.2% | 0.2% | 1.2% | 0.3% |
| datblygiad twristiaeth ar raddfa fawr | 0% | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| amaethyddiaeth dwys ar raddfa fawr | 0.5% | 0.2% | 0.2% | 0% |
| coedwigaeth a choetir ar raddfa fawr | 2.3% | 3.3% | 12.7% | 12% |
| cronfa ddŴr neu greu ynni | 3.2% | 0.3% | 1.2% | 0.8% |
| datblygiad ffyrdd/rheilffyrdd | 0.8% | 0.3% | 0.5% | 1.7% |
| arferion cadwraeth newydd | 7.3% | 0.8% | 1% | 0.2% |
| ardaloedd gwarchod bywyd gwyllt | 14.3% | 1.8% | 11.5% | 7.3% |
| cyfanswm (pa mor aml) | 746 | 651 | 721 | 648 |

**Tabl 2: Pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn y ffotograffau (n=108)**

6.7 Amlygwyd ymhellach hoffter yr ymatebwyr o wahanol fathau o gefn gwlad pan ofynwyd iddynt nodi eu hoff ardal wledig yng Nghymru. Wrth gwrs, cafwyd ystod eang o ymatebion ond canfyddwyd rhai tueddiadau cyffredin (Ffigwr 5). Yn gyntaf, mae yna hoffter amlwg o "gefn gwlad leol" (34%), yn seiliedig ar adnabyddiaeth, hygyrchedd ac estheteg. Yn ail, enwyd y Parciau Cenedlaethol yn rheolaidd ymhlith yr hoff ardaloedd gwledig, gan gadarnhau eu statws fel ardaloedd gwledig gwerthfawr. Ategir y duedd hon o werthfawrogi tirwedd o'r radd flaenaf gan y ffaith fod ardaloedd eraill a enwir wedi'u lleoli o fewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)[3].

6.8 Dengys holi pellach y defnyddir y tirweddau/ardaloedd hyn ar gyfer gweithgareddau hamdden ac ymweliadau cyson, gan felly ategu pwysigrwydd hamddena yng nghefn gwlad o fewn cyd-destun Cymreig.




**Ffigwr 5: Beth yw/ble mae eich hoff ddarn o gefn gwlad yng Nghymru. (n=654)**

[3] Doedd dim gwybodaeth o'r ffaith bod rhain yn AoeddHNE, ond yn hytrach bod yr ardal a enwyd wedi'l lleoli o fewn ardal a ddynodwyd fel AHNE.

## Agenda'r cyhoedd ar gyfer cefn gwlad

| Pa bynciau sy'n eich pryderu | Canran | Pa bynciau sy'n eich pryderu | Canran |
|---|---|---|---|
| gorddatblygu | 21% | cyflogaeth wledig | 5% |
| trafnidiaeth wledig | 17% | cyffuriau/ trosedd | 4% |
| sbwriel | 16% | arall | 3% |
| dyfodol amaethyddiaeth | 12% | ffermydd gwynt | 3% |
| hela a saethu | 11% | y dref vs y wlad | 4% |
| tai gwledig | 9% | tai fforddiadwy | 3% |
| gwarchodaeth natur | 8% | twristiaeth | 3% |
| mewnfudwyr | 8% | y dyfodol | 3% |
| mynediad cyhoeddus i gefn gwlad | 7% | biwrocratiaeth | 2% |
| llygredd | 6% | beiciau modur/cerbydau gyriant 4 olwyn | 2% |
| mynediad gyhoeddus I wasanaethau gwledig | 6% | yr iaith Gymraeg | 2% |
| ieuenctid | 5% | anghytundeb lleol ynglŷn â chynllunio | 2% |
| | | dynodiadau tirwedd | 2% |
| | | addysg gynradd | 2% |
| | | tarddiad | 2% |
| | | trethi gwledig | 1% |

**Tabl 3: Pa bynciau sy'n eich poeni fwyaf am gefn gwlad (n= 632)**

6.9 Dengys Tabl 3 pa bynciau, sy'n poeni'r ymatebwyr fwyaf ynglŷn â chefn gwlad Cymru. Amlygir nifer o faterion ac, yn amlwg, naïf fyddai eu hystyried yn ynysig. Serch hynny, mae pump pwnc yn sefyll allan: gorddatblygu (21%), trafnidiaeth yng nghefn gwlad (17%) sbwriel (16%), dyfodol ffermio (12%) a hela a saethu (11%). Dadansoddir y rhain er mwyn ceisio esbonio gwahanol agweddau a barn, a chanfod meysydd ble mae cytundeb ac anghytundeb.

6.10 Tra bod cytundeb amlwg ynglŷn â phwnc gorddatblygu, dadlennir ystod o themâu o fewn y pwnc. Adlewyrchir anfodlonrwydd gyda chyflymdra, graddfa, math a graddau o ddatblygu yng nghefn gwlad, gan gwestiynu gallu'r gyfundrefn gynllunio a'r asiantaethau i ymdrin yn effeithiol â chefn gwlad sydd dan fygythiad.

- Colli cefn gwlad/harddwch naturiol
- Datblygu ar raddfa fawr yng nghefn gwlad
- Gormod o ddatblygu newydd wedi'i seilio ar dai
- Datblygu anaddas
- Swbwrbaneiddio cefn gwlad
- Yn erbyn diwydiannu cefn gwlad
- Cynyddu maint pentrefi llai
- Gormod o adeiladu yn bygwth amaethyddiaeth
- Masnacheiddio cefn gwlad
- Gorboblogi cefn gwlad
- Gormod o newid
- Diffyg rheoli/cyfyngiadau cynllunio
- Rheoli/cyfyngiadau cynllunio mympwyol
- Diffyg adeiladau newydd deniadol yng nghefn gwlad
- Erydiad lleiniau gleision
- Diffyg parch at gefn gwlad gan asantiaethau

- Gormod o fewnfudwyr o Loegr
- Lleiniau ym mhobman ar gyfer adeiladu tai

6.11 Amlygwyd sawl agwedd ar bwnc trafnidiaeth. Gwelwyd ardaloedd amlwg o gytundeb ond hefyd rai tensiynau pwysig. Rhoddwyd flaenoriaeth yn bennaf i ba mor drwm oedd y drafnidiaeth a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad, gyda phryder hefyd yn cael ei fynegi ynglŷn â thagfeydd traffig/problemau parcio. Hefyd lleisiwyd bryder ynglŷn â chostau cynyddol gyrru. Fodd bynnag, fe ymddengys bod y tensiwn pennaf rhwng y rhai hynny a ddymunai well ffyrdd a'r rhai a wrthwynebai adeiladu rhagor o ffyrdd yng nghefn gwlad. Yn arwyddocaol, roedd tensiynau hefyd rhwng gwahanol ddefnyddwyr, yn enwedig ar ffyrdd bychain lle'r oedd problemau diogelwch posib, yn amlwg.

- Trafnidiaeth leol
- Gormod o drafnidiaeth
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- Adeiladu ffyrdd mewn ardaloedd gwledig
- Difrod i ffyrdd a chefn gwlad gan gerbydau trymion
- Angen gwell ffyrdd (newydd ac wedi eu gwella)
- Gwell rheolaeth ar drafnidiaeth yn y trefi
- Gwrthdaro rhwng defnyddwyr y ffyrrdd (beiciau/ceffylau/lorïau/cerbydau fferm/ceir/plant ysgol)
- Ceir yn goryrru
- Cynnydd yng nghost gyrru

6.12 Cafwyd cytundeb llwyr ynglŷn â sbwriel a dympio. Roedd pryderon ynglŷn â'r defnydd cynyddol o gefn gwlad ar gyfer dympio nwyddau o gartrefi ynghyd â sbwriel amlycach fel papurau a chaniau ayb. Roedd problem fandaleiddio hefyd, gyda difrod i adeiladau, eiddo a hyd yn oed anifeiliaid. Roedd cydnabyddiaeth bod y broblem erbyn hyn yn waeth yng nghefn gwlad nac mewn ardaloedd trefol a bod hynny'n adlewyrchiad o ddifyg parch tuag at gefn gwlad.

- Dympio
- Diffyg parch tuag at gefn gwlad
- Sbwriel yn waeth na mewn ardaloedd trefol
- Fandaleiddio ac amharchu

6.13 Roedd pwnc hela yn fwy dadleuol gyda rhai ymatebwyr yn bryderus ynglŷn ag ymyrraeth y llywodraeth, gan gefnogi'r hawl i hela a saethu, tra bo eraill yn gofidio am yr hyn a ystyrient i fod yn greulondeb tuag at anifeiliaid. Yn deillio o hyn, amlygwyd thema ddiddorol sef ai'r cymunedau lleol ddylai fod â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â chaniatáu rhai gweithgareddau arbennig. Soniwyd am ymlid moch daear ar sawl achlysur, sy'n awgrymu ei fod yn dal i ddigwydd mewn rhai mannau er gwaetha'r ffaith ei fod yn anghyfreithlon. Dengys y data nad mater syml o'r wlad yn erbyn y dref yw hyn gan fod ymatebwyr o ardaloedd gwledig a threfol yn rhanedig eu barn ar y mater.

- Amddiffyn arferion cefn gwlad
- Ymlid moch daear
- Caniatáu hela
- Gwahardd hela
- Gwrando ar farn cymunedau lleol


6.14 Roedd dyfodol ffermio hefyd yn bwnc diddorol a adlewyrchai ystod o wahanol safbwyntiau ac a bwysleisiai'r ddadl bwysig ynglŷn â dyfodol amaethyddiaeth. Amlyga'r themâu bryderon economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol, heb unrhyw wir gytundeb heblaw'r teimlad y dylid cefnogi amaethyddiaeth. Roedd tensiynau'n bodoli rhwng yr angen i gefnogi ffermwyr mawr, bach neu ifainc a'r angen i gadw ffermydd yn gyfan. Roedd teimladau negyddol cyffredinol tuag at gnydau a addaswyd yn enetig, a chefnogaeth frwd i ragor o ffermio organig a llai o ffermio ar raddfa fawr/ddwys, ynghyd â'r angen i ystyried pynciau lles anifeiliaid. Nodwyd yr archfarnadoedd fel un o'r chwaraewyr allweddol yn yr argyfwng amaethyddol presennol.

- Colli tir amaethyddol ar gyfer datblygu
- Rhannu unedau amaethyddol traddodiadol
- Angen cynhaliaeth (ariannol a gwleidyddol) ar ffermwyr
- Ymarferoldeb ffermio dan fygythiad
- Ffermio dwys ar raddfa fawr yn broblem
- Gorbori
- Ni ddylid cael ffermwyr aneconomaidd
- Angen annog ffermio organig
- Gormod o blaladdwyr
- Cefnogaeth i ffermwyr bychain
- Dulliau ffermio dinistriol
- Cludo da byw
- Lles anifeiliaid
- Colli neu rheolaeth wael gwrychoedd
- Cnydau a addaswyd yn enetig
- Manipiwleiddio gan yr archfarchnadoedd
- Ni fydd y genhedlaeth iau yn ffermio


**Datblygu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad**

6.15 Dadansoddwyd ymhellach, yn yr holiadur, faterion gwledig a nodwyd gan y Grwp Llywio, megis tai fforddiadwy yng nghefn gwlad, datblygu economaidd a thrafnidiaeth (Ffigyrau 6-9). Dengys y canlyniadau lefel y cytundeb gyda gwahanol gynigion gan awgrymu ymatebion cynllunio posib.


6.16 Amlygir darlun tebyg ynglŷn â thai gwledig a datblygu economaidd (Ffigyrau 6 and 7). Fe ymddengys mai'r neges allweddol yw, bod angen sicrhau bod datblygu'n parchu maint a chymeriad tirwedd ardal, yn hytrach na bod gwrthwynebiad i bob datblygu, fel y cyfryw. Ceir y lefel uchaf o gytundeb gyda datblygu sydd ar raddfa addas o ran maint a chynllun, a'r hyn a amddifynnir gryfaf yw cefn gwlad agored a thirweddau penodedig. Cafwyd yr anghytundeb cryfaf ynglŷn ag aneddiadau newydd yng nghefn gwlad a datblygu y tu hwnt i ffiniau anheddiad, yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae deuoliaeth amlwg rhwng yr angen am ddatblygu mewn aneddiadau mwy ac mewn pentrefi a phentrefi bychain.




**Ffigwr 6: Dylid seilio tai yng nghefn gwlad ar/mewn: (n=599).**





**Ffigwr 7: Dylid seilio datblygu economaidd yng nghefn gwlad ar/mewn: (n=597)**




**Ffigwr 8: Dylid seilio tai fforddiadwy ar/mewn: (n=598)**

6.17 Dengys y proffil tai fforddiadwy bod y lefel uchaf o gytundeb i ymatebion yn seiliedig ar angen, gyda phwyslais arbennig ar y dimensiwn “lleol” (Ffigwr 8). Cafwyd agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu cartrefi fforfddiadwy ar draws y sbectrwm gwledig, gan gynnwys pentrefi a phentrefi bychain, gydag anghytundeb amlwg gyda’r syniad o gyfyngu datblygu i ganolfannau mwy yn unig. Roedd cefnogaeth gynyddol i ddatblygu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad yn gyffredinol ond safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynglŷn â’r defnydd o ganolfannau mwy ar gyfer datblygu tai.




**Fffigwr 9: Dylid datrys problemau trafnidiaeth drwy: (n=600)**

6.18 Dengys y canlyniadau yn Ffigwr 9 bod anghytundeb chwyrn ymhlith yr ymatebwyr i’r datganiad nad oes problem drafnidiaeth. O safbwynt dulliau o

ddatrys y broblem, mae'r cytundeb cryfaf gyda'r syniad o wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus ynghyd â gwella ffyrdd. Mae cefnogaeth hefyd i weithio o gartref a chreu rhagor o swyddi mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae mwyafrif mawr yn gwrthod y syniad o godi trethi uwch ar yrwyr gan herio gweithredu'r egwyddor syml o'r llygrwr yn talu.

### Gweledigaeth ar gyfer cefn gwlad

6.19 Drwy gyfres o gwestiynau penagored cafwyd gweledigaeth yr ymatebwyr, fesul pwnc, ar gyfer dyfodol cefn gwlad. Cafwyd ystod o ymatebion a roddai ddarlun cynyddol o gonsensws ynglŷn â sut y dylid rheoli cefn gwlad. Yn yr adran hon nodir y prir themâu y mynegwyd barn amdanynt.

**Amaethyddiaeth a choedwigaeth**

6.20 Gwelwyd ystod o safbwyntiau a adlewyrchai ddadl bwysig ynglŷn â chyfeiriad amaethyddiaeth a choedwigaeth yn y dyfodol yng Nghymru. Cydnabyddwyd y dylid bod gan amaethyddiaeth a choedwigaeth ddyfodol, ond mewn cefn gwlad fwy amrywiol. Roedd cydnabyddiaeth amlwg y dylai agweddau traddodiadol tuag at y diwydiannau hyn newid, gydag ymatebwyr yn ffafrio gweithgareddau aml-bwrpas, wedi'u seilio ar anghenion yr amgylchfyd . Roedd y themâu hyn yn amlwg:

- Cydnabyddwyd y problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth ond bod angen gofal wrth fabwysiadu polisïau i'w datrys. Er enghraifft, nad oedd taflu arian at y broblem yn mynd i'w datrys; nac ychwaith cyfnewid amaethyddiaeth am goedwigaeth.
- Roedd cefnogaeth i barhau i gynnal amaethyddiaeth fel diwydiant cynhyrchu bwyd yng nghefn gwlad. Roedd yr angen i gefnogi ffermwyr ifainc a ffermwyr bychain yn amlwg ynghyd â'r angen i symud tuag at gynnyrch o'r safon uchaf.
- Hefyd roedd cefnogaeth i amaethyddiaeth ehangach yng Nghymru i fod yn rhydd o gynnyrch a addaswyd yn enetig, a phlaladdwyr, gydag awydd cynyddol am ragor o gynnyrch organig.
- Roedd cefnogaeth i gynnyrch lleol o safon uchel, gyda mwy o bwyslais ar farchnadoedd ffermwyr a mentrau lleol ar gyfer bwyd.
- Roedd cefnogaeth hefyd i ddatblygu coetiroedd a choedwigaeth ar gyrion ardaloedd amaethyddol, yn arbennig ar gyfer gweithgareddau hamdden. Serch hynny, fe ymddengys bod gwrthwynebiad i blannu coed pinwydd ar raddfa eang, gyda'r ymatebwyr o blaid coed collddail brodorol.
- Roedd angen amlgyfeirio'r economi wledig leol os oedd amaethyddiaeth i oroesi. Soniwyd am weithgareddau hamdden, datblygu economaidd, twristiaeth a gweithgareddau cadwraeth a fyddai'n parchu cymeriad ardaloedd.

**Hamdden a thwristiaeth**

6.21 Gwelwyd hamdden a thwristiaeth fel diwydiannau allweddol ar gyfer dyfodol cefn gwlad Cymru. Serch hynny, mynegwyd pryder bod angen eu cysylltu'n fwy sensitif gydag anghenion y boblogaeth leol, yn ogystal ag ymwelwyr. Roedd marchnata sensitif a "Chymreig" yn ffactorau allweddol. Pwysleisiwyd y dylai datblygiadau newydd foddhau anghenion, a bod o fantais, i'r boblogaeth leol yn ogystal ag ymwelwyr ariannog. Roedd gwrthdaro amlwg rhwng barn y rhai a gefnogai ddatblygu twristiaeth a'r rhai a gredai bod Cymru eisoes wedi cyrraedd penllanw o safbwynt twristiaeth. Amlygwyd y themâu isod:

- Bod hamdden a thwristiaeth yn rhan bwysig o ddatblygu gwledig ond bod angen parchu'r lleoliadau a'r cymunedau lleol.
- Pwysigrwydd marchnata er mwyn sicrhau bod blas unigryw, Gymreig yn amlwg a bod y negeseuon cywir yn cael eu trosglwyddo. Pryder ynglŷn â gorfasnacheiddio cefn gwlad.
- Tensiwn amlwg yn bodoli rhwng y rhai sydd o blaid datblygu twristiaeth a'r rhai sydd o'r farn bod cefn gwlad yn ddigon llawn yn barod.
- Pwysigrwydd sicrhau bod ardaloedd hamdden ar gyfer pobl lleol, yn enwedig plant. Gormod o bwyslais ar atyniadau a chyfleusterau sydd y tu hwnt i gyrraedd y boblogaeth leol, oherwydd prisiau mynediad neu eu bod ar gau y tu allan i dymor yr ymwelwyr.
- Pwysigrwydd sicrhau bod pobl yn aros ac yn gwario arian yn yr ardaloedd ynhytrach na theithio drwyddynt yn unig.

**Creu swyddi**

6.22 Cydnabyddwyd bod dyfodol cefn gwlad yn dibynnu ar ddarparu swyddi o ansawdd da, gan ffafrio pobl leol. Roedd gan hyn oblygiadau o safbwynt y math o raglenni hyfforddi a ddarperir, a math a graddfa datblygiadau tai. Roedd gwrthwynebiad amlwg i'r hyn a ystyrir yn "ddiwydiannu" cefn gwlad ond cefnogaeth i ddatblygiadau ar raddfa fach. Gwelwyd cyfleodd ym meysydd hamdden, twristiaeth a chadwraeth, ynglyd â'r angen i fabwysiadu a chefnogi diwylliant o fenter leol, a ystyriwyd i fod yn absennol ar hyn o bryd.

- Cydnabyddwyd yr angen i greu swyddi er mwyn cynnal cefn gwlad ond nid ei diwydiannu. Roedd cefnogaeth amlwg i'r farn y dylid datblygu ar raddfa fechan.
- Roedd ymdeimlad cryf o'r angen am ddatblygu swyddi newydd mewn twristiaeth, hamdden a chadwraeth. Roedd angen mawr gwella delwedd swyddi o'r fath.
- Tra bod croeso i ddiwydiant newydd a'r swyddi a ddaw yn ei sgîl, ffafriwyd yn amlwg gyflogaeth gynhenid, ar raddfa fechan, a ystyrir i fod yn absennol ar hyn o bryd.
- Ystyrir creu gwaith ar gyfer "pobl leol" yn hanfodol, tra bod pryder ynglŷn â'r nifer o fewnfudwyr a ddaw i ardaloedd lle bu buddsoddiad newydd.
- Mae angen darparu swyddi sy'n gysylltiedig â rhaglenni hyfforddi da a pherthnasol yn y colegau, ar gyfer pobl ifainc.
- Roedd pryder hefyd bod angen rhagor o gefnogaeth ar ddiwydiannau sy'n bodoli eisoes, megis ffermio. Roedd canfyddiad bod darblygiadau newydd a buddsoddiad mewnol yn denu gormod o grantiau.
- Roedd pryder ynglŷn â'r niferoedd uchel o bobl sy'n ymddeol neu'n symud i fyw i Gymru (prisiau tai is) ac yna'n teithio i'w gwaith yn Lloegr.
- Cefnoaeth i swyddi sy'n ychwanegu gwerth, o fewn amaethyddiaeth a choedwigaeth megis crefftau, bwyd a nwyddau o gynhyrchion eco .
- Ystyrir bod ardaloedd gwledig ar eu colled o safbwynt materion megis band llydan a rhaglenni buddsoddiad eraill a geir mewn ardaloedd trefol. Ydy ardaloedd gwledig yn cael eu trin yn israddol?
- Cydnabyddiaeth o'r angen am ddarparu gwaith yng nghefn gwlad er mwyn lleihau trafnidiaeth a'r niferoedd sy'n teithio i'r gwaith.

**Datblygu tai**

6.23 Datblygu tai ddenodd y sylwadau mwyaf beirniadol. Er bod cefnogaeth i ddatblygu tai ym mhob math o anheddiad, fe ymddengys mai'r pwynt allweddol yw adnabod a defnyddio "angen" fel ffactor wrth ddatblygu, yn hytrach na'r hyn a ystyrir fel y duedd bresennol i orddatblygu ar gyfer y farchnad foethus. Roedd cefnogaeth amlwg i strategaethau a ffafriai sectorau "lleol" ac "ieuenctid" ac a ymyrrai'n ymarferol er mwyn negyddu'r defnydd o gefn gwlad Cymru fel canolfan gymudo ar gyfer Lloegr. Cefnogwyd y syniad bod angen cynllunio mwy integredig gyda chysylltiadau mwy penodol â swyddi, gwasanaethau a darblygiadau tai.

- Tra bod peth cydnabyddiaeth o'r angen i fyw yng nghefn gwlad, mae angen rhagor o reolaeth, yn ogystal â mesur a phwyso "angen". Yn arwyddoaaol, mae rhai sy'n cwestiynu'r cynsail hwn, gan alw am ddiwedd ar adeiladu tai yng nghefn gwlad, heblaw am mewn canolfannau mwy.
- Mae teimladau amlwg yn erbyn graddfa a'r math o ddatblygiadau sy'n ffafrio tai drudfawr yn hytrach na chartrefi fforddiadwy. Cefnogir datblygiadau bychain sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd llanw neu leoliadau maes llwyd.
- Roedd cefnogaeth i ddatblygu tai ym mhob rhan o'r hierarchaeth aneddiadau, cyn belled â bod y raddfa a'r dyluniad yn addas.
- Roedd tuedd amlwg at gefnogi tai i bobl leol, yn enwedig pobl ifainc, gyda gwrthwynebiad i fewnfudwyr a chymudwyr.
- Cefnogwyd adnewyddu hen ysguboriau, a allai fod o fantais i'r tirwedd gwledig.
- Cydnabyddwyd yn eang yn ddibyniaeth angenrheidiol oedd rhwng tai a chyflogaeth os oedd strategaethau am lwyddo.
- Roedd pryder bod gormod o Saeson yn symud i Gymru, ar draul Cymry'n symud allan.

**Datblygu cynaliadwy**

6.24 Cafwyd nifer arwyddocaol (120) yn peidio ag ateb y cwestiwn hwn, ac o'r atebion a dderbyniwyd roedd yn amlwg nad oedd pawb yn deall y term. Er enghraifft cafodd yr holwyr yr ymateb "Dydw i ddim yn deall y cwestiwn", yn gyson.

6.25 I'r rhai a roddodd ateb penodol, fe ymddengys y golygai ddatblygu cynaliadwy well cynllunio strategol, cefnogi'r asiantaethau cefn gwlad a gwell rheolaeth o gefn gwlad. Roedd cadwraeth, trafnidiaeth a rheoli llygredd hefyd yn amlwg.

6.26 O'r sylwadau a wnaethpwyd, daeth y themâu isod yn amlwg:

- "Rydym ei angen – beth bynnag yw ei ystyr" .
- Mwy o gynllunio strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill, yn cydweithio i gynnal cefn gwlad, yn hytrach na'i difetha.
- Angen buddsoddi yng nghefn gwlad a'i rhwydwaith mewnol.
- Angen ariannu gwell a symlach ar gyfer cefn gwlad, yn ffafrio busnesau newydd a ffermwyr.
- Angen asiantaeth gefn gwlad fwy effeithiol, gydag un gorchwyl yn unig.
- Roedd gwarchodaeth a chadwraeth yn thema gref, yn enwedig yng nghyd-destun ardaloedd dynodedig.
- Pwysigrwydd adeiladu cymunedau cryfion.
- Cefnogaeth i ragor o ddatblygu ynni cynaliadwy, yn enwedig melinau gwynt, er y lleisiwyd wrthwynebiad hefyd i ragor ohonynt.

- Angen gwell rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd.
- Angen rheoli llygredd ac, yn arbennig, wella ansawdd dŴr.

## Unrhyw sylwadau eraill

6.27 Amlygodd hyn themâu newydd o blith atebion yr holiadur i gartrefi, megis gofal am gefn gwlad, annibyniaeth, y status quo a “Chymreictod”.

- Y syniad bod cefn gwlad yn adnodd sydd angen ei warchod a gofalu amdano. Angen newid y diwylliant, yn wleidyddol a chymdeithasol.
- Angen cadw cefn gwlad fel ag y mae hi.
- Angen cadw a chynnal traddodiadau cefn gwlad, heb ymyrraeth o’r tu allan.
- Angen datblygu cynnyrch ar gyfer twristiaeth Cymru, ond symud oddi wrth fodel y parc hamdden.

## Dadansoddiad pellach o’r canlyniadau

6.28 Mae’r adran hon yn cymharu’r tueddiadau cyffredinol a nodwyd uchod gydag ystod o amrywiadau sydd, o bosib, yn dylanwadu ar agweddau tuag at gefn gwlad. Dim ond gwahaniaethau sylweddol a ymdrinnir â hwy yn y sylwadau isod.

***Gwahaniaethau rhwng wardiau trefol/gwledig***

6.29 Cymharol ychydig o wahaniaethau i’r proffil cyffredinol a nodwyd o safbwynt y mwyafrif o’r atebion (Adrannau 6.1.1-6.1.4). Mae canlyniadau arwyddocaol yn cadarnhau pwysigrwydd cefn gwlad fel lle ar gyfer mwynhad a hamdden i’r wardiau trefol (trefol; cyrion trefol) a gwledig (gwledig;cyrion gwledig) i gyd. Fel y byddid wedi’i ragweld, roedd gwahaniaethau o safbwynt y categori lle’r oedd pobl yn byw, a alewyrchai’r ffaith bod y rhai mewn wardiau gwledig yn byw yng nghefn gwlad. O safbwynt rôl cefn gwlad, cefnogwyd gefn gwlad amlddefnydd, ond gyda’r rhai oedd yn byw yng nghefn gwlad, o’u cymharu a’r rhai oedd yn byw mewn ardaloedd trefol, yn tueddu i gefnogi cefn gwlad fel lle ar gyfer adeiladu a datblygu (30%) a chludo nwyddau a gwasanaethau (47%). Awgryma hyn agwedd rywfaint yn fwy amddiffynol ymhlith y rhai sy’n byw mewn ardaloedd trefol.

6.30 Dengys yr asesiad ffotograffig bod gan y wardiau trefol dynfa at y parcdir a’r pentref tra bo’r wardiau gwledig yn ffafrio’r rhosdir a’r pentref. Dangosodd gwestiwn hoff dirwedd rai gwahaniaethau eraill hefyd, sef bod y wardiau gwledig yn fwy tebygol o ffafrio’u cefn gwlad leol, tra bo’r wardiau trefol y dueddol o ffafrio Parciau Cenedlaethol, AoeddHNE a Pharciau Gwledig.

6. 31 Tra ar y naill llaw, y dengys yr agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad bod gorddatblygu, sbwriel/dympio a dyfodol amaethyddiaeth yn parhau i fod yn faterion allweddol, gwelir bod yna wahaniaethau sy’n awgrymu na fydd agwedd yn unig tuag at datrys problemau cefn gwlad yn gweithio. Er enghraiff, tra bo mewnfudwyr (22%) a ieuenctid (13%) yn ffactor yn y wardiau gwledig, ar y cyrion trefol trafnidiaeth(41%) a hela a saethu (18%) sydd amlycaf. Mae cadwriaeth yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth bwysicach yn y wardiau trefol (14%). Ymhellach, dengys gwahaniaethau penodol rhwng y wardiau trefol/gwledig duedd amlwg yn y wardiau trefol tuag at broblemau sbwriel/dympio tra bod tuedd wledig tuag at faterion tai. Cafwyd syndod o sylweddoli bod pwnc hela a saethu yn llai amlwg yn yr ardaloedd gwledig ac yn amlycach yn yr ardaloedd trefol a’r cyrion trefol.

| Pa faterion sy'n eich pryderu chi/ward | Gwledig | Cyrion gwledig | Cyrion trefol | Trefol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| tarddiad | 0% | 5% | 1% | 0% | 2% |
| mynediad gyhoeddus i gefn gwlad | 7% | 10% | 8% | 8% | 8% |
| tai mewn ardaloedd gwledig | 11% | 14% | 7% | 7% | 10% |
| addysg gynradd | 0% | 5% | 1% | 1% | 2% |
| mynediad i wasanaethau yng nghefn gwlad | 5% | 13% | 6% | 2% | 7% |
| sbwriel/dympio | 12% | 11% | 25% | 23% | 17% |
| dadleuon cynllunio lleol | 1% | 4% | 2% | 2% | 2% |
| cyffuriau/trosedd | 4% | 5% | 2% | 8% | 5% |
| cyflogaeth yng nghefn gwlad | 8% | 9% | 1% | 2% | 5% |
| biwrocratiaeth | 1% | 6% | 1% | 2% | 3% |
| dyfodol amaethyddiaeth | 11% | 17% | 13% | 10% | 13% |
| hela a saethu | 4% | 18% | 15% | 13% | 13% |
| trafnidiaeth wledig | 16% | 41% | 14% | 4% | 20% |
| trethi gwledig | 1% | 3% | 1% | 0% | 1% |
| llygredd | 4% | 5% | 11% | 8% | 7% |
| dynodiadau tirwedd | 1% | 4% | 2% | 0% | 2% |
| cadwraeth natur | 7% | 9% | 8% | 13% | 9% |
| y dref vs y wlad | 4% | 7% | 5% | 0% | 4% |
| mewnfudwyr | 22% | 5% | 5% | 3% | 9% |
| y dyfodol | 3% | 5% | 2% | 2% | 3% |
| ieuenctid | 13% | 7% | 2% | 1% | 6% |
| tai fforddiadwy | 5% | 7% | 0% | 0% | 3% |
| arall | 4% | 5% | 2% | 3% | 4% |
| gorddatblygu | 15% | 26% | 27% | 25% | 23% |
| beiciau modur/ cerbydau gyriant 4 olwyn | 1% | 2% | 3% | 3% | 2% |
| ffermydd gwynt | 4% | 1% | 8% | 2% | 4% |
| twristiaeth | 4% | 2% | 2% | 4% | 3% |
| yr iaith Gymraeg | 6% | 0% | 3% | 0% | 2% |

**Tabl 4: Pa faterion sy'n eich pryderu fwyaf ynglŷn â chefn gwlad, yn ôl gwledigrwydd[4]**

6.32 Mae'r cwestiynau ynglŷn â'r datganiad ar ddatblygu a thrafnidiaeth yn adlewyrchu'r proffil cyffredinol ar draws y wardiau trefol/gwledig, heb amlygu unrhyw wir wahaniaethau. Gwelwyd bod ymatebwyr yn gefnogol i ddynodiadau a chefn gwlad yn ehangach, tra ar yr un pryd, yn derbyn yr angen am agwedd fwy hyblyg tuag at dai fforddiadwy. Roedd y wardiau trefol a gwledig fel ei gilydd yn gwrthwynebu trethi uwch fel modd o ddatrys y broblem drafnidiaeth.

[4] Noder bod y tabl yn cyfeirio at y ffaith bod y pwnc wedi ei grybwyll ac nid y safbwynt a fynegwyd. Er enghraifft mae hela a saethu yn cynnwys y cefnogwyr a'r gwrthwynebwyr.

***Canfyddiad o'r dref/wlad***

6.33 Mae'r adran hon yn asesu'r canlyniadau o safbwynt canfyddiad yr ymatebwyr eu hunain ynglŷn ag ydynt yn dod o'r wlad neu'r dref. Yn arwyddocaol, dengys y proffil hwn ychydig iawn o wahaniaethau o'r proffil cyffredinol a ddisgrifiwyd eisoes.

6.34 Mae'r defnydd o gefn gwlad yn debyg, gan gadarnhau, o safbwynt pobl y "wlad" a'r "dref", amlddefnyddioldeb cefn gwlad. Unwaith eto, mae pobl y "wlad" a'r "dref" yn cefnogi'r canfyddiadau cyffredinol, gyda gwrthwynebiadau nodedig o blith y ddwy garfan at y defnydd o gefn gwlad ar gyfer adeiladu a chludo nwyddau. Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr gyda chanlyniadau'r wardiau trefol/gwledig sy'n awgrymu o bosib bod ffactorau lleoliad penodol yn fwy dylanwadol wrth esbonio'r gwahaniaethau. Dengys yr asesiad ffotograffig hefyd bod y rhai a ystyrient eu hunain fel ymatebwyr o'r "dref" yn cael eu denu'n gryfach at y pentref a'r parcdir tra'u bod yn fwy negyddol ynglŷn â'r tir amaethyddol a'r rhosdir. Pan ystyrir yr agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad mae'r proffil yn rhyfeddol o debyg heblaw am y dueddiad "gwledig" o ystyried "mewnfudwyr" (11%) a "thrafnidiaeth wledig"(24%) fel materion. Daw tueddiadau diddorol i'r amlwg yn yr ymatebion i'r datganiadiau ar ddatblygu a thrafnidiaeth, gyda'r boblogaeth sy'n ystyried ei hun yn "drefol" yn fwy parod i dderbyn datblygu economaidd a datblygu tai (heblaw tai fforddiadwy) drwy'r hierarchaeth aneddiadau. Fodd bynnag, maent yr un mor gefnogol i'r system ddynodiadau ac i warchodaeth y gefn gwlad ehangach. Gwelir yr un proffil ar gyfer trafnidiaeth a thai fforddiadwy.

***Dosbarth cymdeithasol***

6.35 Dengys y canlyniadau bod consensws barn ar draws yr holl ddosbarthiadau cymdeithasol.

6.36 Roedd defnydd a rôl cefn gwlad, ynhyd â'r asesiad ffotograffig, yn gyson drwy'r categorïau gan adlewyrchu'r duedd gyffredinol. O safbwynt yr hoff ddarn o gefn gwlad, roedd un gwahaniaeth amlwg, gyda chategori D, gweithwyr di-grefft, yn gryf o blaid eu cefn gwlad leol (40%), gyda'r gweddill yn rhannu'n weddol gytbwys rhwng y Parciau Cenedlaethol a chefn gwlad leol. Mae cysondeb barn ynglŷn â'r agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad ond gyda thuedd bychan tuag at orddatblygu a thrafnidiaeth wledig ymhlith y dosbarthiadau proffesiynol. Gwelir unfrydiaeth barn ynglŷn â phwnc datblygu a thrafnidiaeth hefyd, sy'n adlewyrchu'r proffil cyffredinol.

***Ethnigrwydd***

6.37 Mae angen gofal wrth ddadansoddi'r canlyniadau yn ôl ethnigrwydd gan mai nifer fechan o ymatebwyr du ac o leiafrifoedd ethnig eraill a gafwyd. Yn wir, dengys Atodiad 11f mai 2.3% (14) o'r ymatebwyr oedd o unrhyw gategori ethnig heblaw am wyn.

6.38 Yn gyffredinol dangosa'r proffil bod cytundeb barn ar draws y mwyafrif o ganlyniadau. Cafwyd syndod, o safbwynt yr ymdeimlad o fod yn dod o'r wlad neu'r dref, bod yr ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig yn ystyried eu hunain i fod yn dod o'r wlad yn bennaf, gan adlewyrchu'r tuedd cyffredinol. Heria'r hyn y stereoteip sy'n bodoli o leiafrifoedd ethnig yn y trefi. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y lleiafrifoedd ethnig yn gwneud llai o ddefnydd o gefn gwlad, o safbwynt yr holl weithgareddau, na'r boblogaeth wyn. Roedd barn debyg ynglŷn â rôl cefn gwlad yn

y categorïau i gyd, gan gefnogi'r syniad o amldefnyddioldeb, tra bo'r asesiad ffotograffig yn adlewyrchu'r tueddiadau trefol a nodwyd eisoes yn erbyn y rhosdir a'r tir amaethyddol. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol o safbwynt hoff gefn gwlad, gyda'r boblogaeth ethnig ar y cyfan yn ffafrio'u hardal leol (49%) a chymharol ychydig y ffafrio'r Parciau Cenedlaethol (7%) neu'r AoeddHNE (14%). O safbwynt yr agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad, roedd y proffil yn debyg, ond bod rhywfaint o dueddiad ymhlith y boblogaeth ethnig tuag at fynediad i wasanaethau (27%) a thrafnidiaeth wledig (27%). Roedd y canlyniadau ynglŷn â datblygu a thrafnidiaeth yn debyg.

***Pobl leol/mewnfudwyr***

6.39 Yn yr adran hon, addaswyd ganlyniadau o Atodiad 11f gan ddosbarthu pobl leol fel pobl a fu'n byw mewn ardal am fwy na 5 mlynedd. Dosbarthwyd rhai a fu'n byw mewn ardal am lai na 5 mlynedd fel mewnfudwyr.

6.40 Dengys y dadansoddiad bod unfrydedd barn ymhlith pobl leol a mewnfudwyr ynglŷn â chefn gwlad. Efallai bod hyn yn syndod o ystyried y doreth o lenyddiaeth sydd ar gael sy'n awgrymu bod gwahanol agweddau[5]. O safbwynt defnydd a rôl cefn gwlad, mae'r ddau grŵp yn eithaf cytûn. Gwneir ddefnydd helaeth o gefn gwlad ar gyfer hamdden a chadw'n heini/gweithgareddau arferol. Cefnogir y syniad o gefn gwlad amlddefnydd gyda chefnogaeth gref i gynhyrchu bwyd a chadwraeth. Noda'r ddau grŵp yn un materion allweddol ar gyfer cefn gwlad. Fodd bynnag, yn yr adran datblygu a thrafnidiaeth yr amlygir y gwahaniaeth mwyaf diddorol rhyngddynt. Tra adlewyrchir, o safbwynt tai a datblygu economaidd, ganlyniadau'r proffil cyffredinol, mae'r mewnfudwyr o blaid datblygu gyda chanran uwch o fewnfudwyr na phobl leol yn ffafrio datblygu gwasgaredig ar gyfer datblygu mewn canolfannau newydd a datblygu ar draws yr hierarchiaeth aneddiadau. Cefnogir y system ddynodiadau ond mae'r canlyniadau hyn yn sicr yn cwestiynnu'r damcaniaethau arferol bod mewnfudwyr yn fwy gwrthwynebus i ddatblygu na phobl leol.

***Oed***

6.41 Unwaith eto ychydig o wahaniaethau a amlygwyd. Rydym wedi addasu'r categorïau o Atodiad 11f er mwyn creu tri chategori, sef "ifanc", "canol oed" a "henoed".

6.42 O safbwynt y canfyddiad o fod yn hanu o'r dref neu'r wlad, mae'n ddiddorol bod y bobl ifainc ac oedrannus yn tueddu i ystyried eu hunain i fod yn dod o'r dref, gan wrth-ddweud y tuedd cyffredinol. Gall hyn awgrymu bod y ddwy boblogaeth hon wedi symud i'r wlad yn ddiweddar. Adlewyrcha hyn y duedd ymhlith yr henoed i ymddeol i'r wlad. O safbwynt rôl cefn gwlad, mae pob oed o blaid y syniad o gefn gwlad amlddefnydd. Fodd bynnag, o safbwynt y defnydd o gefn gwlad mae rhai gwahaniaethau diddorol, gyda'r henoed yn gwneud ychydig iawn defnydd o gefn gwlad ar gyfer unrhyw weithgareddau o'i gymharu â'r boblogaeth ganol oed ac ifanc.

[5] Er enghraiffr Newby,H. (1988): The Countryside in Question ; Llundain: Hutchinson

| Pa faterion sy'n eich pryderu/Oed | Ieuenctid | Canol oed | Wedi ymddeol |
|---|---|---|---|
| mynediad gyhoeddus i gefn gwlad | 5% | 7% | 13% |
| tai mewn adraloedd gwledig | 7% | 12% | 5% |
| mynediad i wasanaethau gwledig | 5% | 6% | 8% |
| sbwriel/dympio | 17% | 18% | 18% |
| cyffuriau/trosedd | 7% | 4% | 6% |
| dyfodol amaethyddiaeth | 5% | 13% | 15% |
| hela a saethu | 5% | 15% | 10% |
| trafnidiaeth wledig | 10% | 19% | 24% |
| llygredd | 10% | 7% | 5% |
| cadwraeth bywyd gwyllt | 7% | 11% | 7% |
| mewnfudwyr | 7% | 9% | 9% |
| ieuenctid | 15% | 4% | 9% |
| gorddatblygu | 34% | 23% | 19% |

**Tabl 5: Pa faterion sy'n eich pryderu fwyaf ynglŷn â chefn gwlad, yn ôl oed (wedi'i addasu)**

6.43 Dengys yr agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad rai gwahaniaethau diddorol a chymhleth. Tra bo sbwriel yn cael ei ystyried yn broblem gyffredinol gan bob oed, mae'r boblogaeth ifanc yn pryderu fwy ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag ieuenctid a gorddatblygu, tra bo'r henoed yn poeni fwy am faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth wledig, mynediad gyhoeddus i gefn gwlad a dyfodol amaethyddiaeth. Mae'r canol oed yn fwy pryderus am orddatblygu, hela a saethu a thai, er eu bod hefyd yn mynegi gofid ynglŷn â thrafnidiaeth wledig.

### *Yr iaith Gymraeg*

6.44 Yn yr adran hon ystyriwyd y gwahaniaethau rhwng y boblogaeth Gymraeg ei hiaith a'r boblogaeth ddi-Gymraeg. Eto, cymharol ychydig o wahaniaethau sydd rhyngddynt. Fodd bynnag, mae rhagor na hanner yr ymatebwyr Cymraeg eu hiaith yn cytuno gyda chefn gwlad fel lle ar gyfer cludo nwyddau a gwasanaethau, sy'n wahanol iawn i farn y boblogaeth di-Gymraeg. Er hynny, nid ydynt o blaid cefn gwlad fel lle ar gyfer adeiladu na datblygu. Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ffarfio'u hardal leol ac i hoffi'r rhodsir a'r pentref a welir yn y ffotograffau. Yn arwyddocaol, mae mewnfudwyr a'r iaith yn faterion sy'n tra-arglwyddiaethu agenda'r siaradwyr Cymraeg o'i gymharu'r â'r di-Gymraeg. Heblaw am hynny, mae'r materion yn debyg iawn. O safbwynt datblygu cefn gwlad mae cefnogaeth i ddatblygu ar draws y hierarchaeth anheddiadau, sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd eisoes.

## Crynodeb

6.45 Dengys yr arolwg i gartrefi bod cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r materion cefn gwlad allweddol yma:

- Mae cefn gwlad yn adnodd amlddefnydd gwerthfawr.
- Defnyddir cefn gwlad yn eang ar gyfer ystod o weithgareddau.
- Mae cefn gwlad leol yn bwysig.
- Mae cysylltiadau cryfion, positif iawn gyda chefn gwlad sy'n cael ei rheoli, a chefn gwlad wylltach.
- Mae'r agenda gyhoeddus ar gyfer cefn gwlad yn cynnwys gorddatblygu, trafnidiaeth, sbwriel/dympio, dyfodol ffermio a hela a saethu.

- Dylid seilio datblygiadau ar ddyunio da a graddfa'r lleoliad.
- Dylid rheoli datblygu economaidd a thai o fewn dynodiadau a chefn gwlad wylltach.
- Dylid seilio tai fforddiadwy ar angen leol lle bynnag y bo.
- Mae problem drafnidiaeth arwyddocaol mewn ardaloedd gwledig.
- Mae cysylltiad annatod rhwng dyfodol cefn gwlad ac economi leol fwy amrywiol, gydag agenda gymdeithasol gryfach.

6.46 Yn ogystal, amlygodd yr arolwg i gartrefi y gwahaniaethau isod:

- Diffyg defnydd o gefn gwlad gan leiafrifoedd ethnig a'r henoed.
- Peth amrywiaeth o safbwynt pryderon ynglŷn â chefn gwlad, yn ôl ymdeimlad o fod yn hanu o'r wlad/dref, oedran a ffactorau diwylliannol.
- Peth tuedd trefol tuag at faterion sbwriel a chadwraeth.
- Peth tuedd gwledig tuag at faterion tai gwledig a thrafnidiaeth.
- Tensiwn amlwg, a phryder ynglŷn â'r mewnlifiad o Loegr.
- Tensiynau amlwg ynglŷn â dyfodol ffermio a hela a saethu. Ond serch hynny nid oedd hyn yn adlewyrchu'r rhaniad trefol vs gwledig a ddarlunir yn aml.
- Gwahaniaethau o safbwynt hoff ardal wledig, gyda'r lleiafrifoedd ethnig, y gweithwyr di-greft a'r boblogaeth wledig yn ffafrio'u hardaloedd lleol yn hytrach na dynodiadau.
- Poblogaethau trefol/gwledig yn hoffi gwahanol fathau o gefn gwlad.

## AROLWG AR Y WE

### Rhagarweiniad

6.47 Roedd yr arolwg hwn ar y we, yn gweithredu fel atodiad i'r arolwg i gartrefi a ddisgrifiwyd yn yr adran uchod. Rhoddodd y dull hwn ar y we, gyfle i bobl drwy Gymru gyfan i ymateb, ond drwy wneud hynny, roedd tuedd gref i'r ymatebion fod gan unigolion oedd â chymhelliad cryf dros wneud hynny. Cafwyd 129 ymateb i gyd[6].

6.48 O ganlyniad, rhaid trin y canlyniadau gyda gofal. Mae'r tablau isod yn crynhoi prif bwyntiau'r ymatebion. Yn arwyddocaol, mae'r patrymau a'r tueddiadau yn ailadrodd y prif bwyntiau a welwyd yn yr arolwg i gartrefi, sy'n awgrymu bod consensws yn datblygu.

### Canfyddiadau o gefn gwlad

| Y dref neu'r wlad | Canran |
|---|---|
| Y dref | 38% |
| Y wlad | 58% |
| Arall | 4% |
| Cyfanswm | 100 |

**Tabl 6: Ydych chi'n eich ystyried eich hun i fod yn byw yn y dref neu'r wlad (n=129)**

6.49 Dengys y canlyniadau bod yr ymatebiwyr yn tueddu i ystyried eu hunain i fod yn hanu o'r wlad (Tabl 6). Y prif ffactorau sy'n ymwneud â'r ymdeimlad hwn yw ardaloedd gwyrddion, cefndir teuluol a phrofiad, tra bo'r tueddiadau trefol yn fwy seiliedig ar y man lle mae'r ymatebwyr yn byw ar hyn o bryd.

### Defnydd o gefn gwlad

| Defnydd o gefn gwlad | Yn aml | Yn achlysurol | Byth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| ymarfer corff | 75% | 19% | 6% | 100 |
| hanesyddol | 33% | 67% | 0% | 100 |
| byw yno | 60% | 27% | 13% | 100 |
| diddordeb proffesiynol | 69% | 6% | 25% | 100 |
| hamdden a hamdden | 87% | 13% | 0% | 100 |
| gweithgareddau arferol | 60% | 33% | 7% | 100 |
| gweithgareddau arbennig | 43% | 50% | 7% | 100 |
| ysbrydol | 15% | 31% | 54% | 100 |
| gwylio bywyd gwyllt | 53% | 33% | 13% | 100 |
| gweithio yno | 33% | 47% | 20% | 100 |

**Tabl 7: Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o gefn gwlad (arolwg ar y we) n=129**

[6] Dyma'r nifer cyfredol o ymatebion ar Ragfyr 4ydd 2003. Mae'r arolwg ar agor tan Ionawr 30ain.

6.50 Cadarnha'r ymatebion y llu o wahanol ddefnyddiau a wneir o gefn gwlad gan yr ymatebwyr (Tabl 7). Gwneir y defnydd mwyaf ohoni ar gyfer gweithgareddau hamdden ac mae nifer sylweddol yn ymgymryd â gweithgaredau arbennig. Yn arwyddocaol , mae hefyd ragor o ymatebwyr yn nodi diddordeb proffesiynol. Nid yw hyn yn peri syndod gan fod yr ymatebwyr i'r math hwn o arolwg yn hunan-etholedig.

**Rôl cefn gwlad**

| **Rôl cefn gwlad** | Anghytuno'n chwyrn | Anghytuno | Dim teimladau cryfion | Cytuno | Cytuno'n llwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| heddwch | 0% | 0% | 0% | 31% | 69% | 100 |
| adeiladu a datblygu | 33% | 33% | 7% | 20% | 7% | 100 |
| gwarchod bywyd gwyllt | 0% | 0% | 0% | 19% | 81% | 100 |
| datblygu cymuned | 0% | 0% | 12% | 37% | 50% | 100 |
| cadw'n heini | 0% | 0% | 13% | 69% | 19% | 100 |
| byw | 0% | 0% | 19% | 50% | 31% | 100 |
| cynhyrchu bwyd | 0% | 0% | 13% | 44% | 48% | 100 |
| hamdden a chwarae | 0% | 6% | 19% | 25% | 50% | 100 |
| cludo nwyddau | 13% | 33% | 27% | 27% | 0% | 100 |
| gweithio | 0% | 6% | 13% | 44% | 38% | 100 |

**Tabl 8: Beth yw rôl cefn gwlad (arolwg ar y we) n =129**

6.51 Mae'r ymatebion yn cadarnhau'r farn bod cefn gwlad yn adnodd amlddefnydd (Tabl 8). Mae cytundeb brwd gyda chefn gwlad fel adnodd hamdden, amgylcheddol ac amaethyddol. Yn arwyddocaol, mae cefnogaeth i gefn gwlad fel lle gwaith. Ar hyn o bryd nid oes cefnogaeth i gefn gwlad fel lle ar gyfer adeiladu a datblygu nac i gludo nwyddau.

**Asesiad ffotograffig**

| **Asesiad ffotograffig** | **Tir amaethyddol** | **Rhosdir** | **Parcdir** | **Pentref** |
|---|---|---|---|---|
| ddim yn hoffi o gwbl | 0% | 4% | 0% | 0% |
| ddim yn hoffi | 5% | 0% | 5% | 0% |
| dim teimladau cryfion | 40% | 23% | 19% | 11% |
| hoffi | 40% | 27% | 33% | 53% |
| hoffi'n fawr iawn | 15% | 46% | 43% | 37% |
| **cyfanswm** | 100 | 100 | 100 | 100 |

**Tabl 9: Asesiad ffotograffig (n=120)**

6.52 Cafwyd ymatebion positif i'r pedwar math o gefn gwld (Tabl 9). Hoffwyd y rhosdir a'r parcdir yn bennaf. O safbwynt y rhosdir, pwysleisiwyd ei wylltineb, y posibiliadau ar gyfer hamdden a bioamrywiaeth; tra ystyriwyd y posibiliadau ar gyfer hamdden a gwerth tir glas, agored, wedi'i reoli, fel ffactorau pwysig o ran y parcdir.

| Pa newidiadau i'r lluniau | Rhosdir | Pentref | Tir amaethyddol | Parcdir |
|---|---|---|---|---|
| dim newidiadau o gwbl | 41% | 48% | 16% | 31% |
| datblygiad tai ar raddfa fechan | 0% | 9% | 3% | 0% |
| datblygu cyflogaeth ar raddfa fechan | 0% | 13% | 6% | 3% |
| datblygiad twristiaeth ar raddfa fechan | 0% | 4% | 0% | 6% |
| coedwigaeth a choetir ar raddfa fechan | 15% | 4% | 19% | 9% |
| ehangiad amaethyddol ar raddfa fechan | 0% | 0% | 0% | 6% |
| anheddiad newydd | 0% | 0% | 3% | 0% |
| datblygiad twristiaeth ar raddfa fawr | 0% | 0% | 0% | 0% |
| amaethyddiaeth ddwys ar raddfa fawr | 0% | 0% | 0% | 0% |
| coedwigaeth a choetir ar raddfa fawr | 0% | 4% | 23% | 25% |
| cronfa ddŴr neu gynhyrchu ynni | 6% | 0% | 0% | 0% |
| datblygu ffyrdd/rheilffyrdd | 3% | 4% | 3% | 3% |
| dulliau cadwraeth newydd | 12% | 4% | 3% | 3% |
| ardaloedd gwarchod bywyd gwyllt | 24% | 8% | 23% | 13% |
| cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 |

**Tabl 10: Pa newidiadau hoffech chi eu gweld i'r ffotograffau (arolwg ar y we) (n=88)**

6.53 Dengys yr ymateb i'r ffotograffau ysfa bron yn unfrydol i gadw'r tirweddau fel ag y maent, heblaw am y tir amaethyddol (Tabl 10). Yma roedd yr ymatebwyr am weld cyfuniad o ardaloedd cadwraeth bywyd gwyllt a rhagor o goedwigaeth a choetiroedd. Yn wir, mae tystiolaeth amlwg o gefnogaeth i ragor o goedwigaeth a choetiroedd, ar raddfa fechan, ym mhob tirwedd. Yn ddiddorol, roedd cefnogaeth hefyd i weithgareddau a fyddai'n dod a gwaith i'r pentref.

## Agenda'r cyhoedd ar gyfer cefn gwlad

| Pa faterion sy'n eich pryderu | Canran | Pa faterion sy'n eich pryderu | Canran |
|---|---|---|---|
| gorddatblygu | 31% | yr iaith Gymraeg | 5% |
| trafnidiaeth wledig | 23% | cyffuriau/trosedd | 4% |
| dyfodol amaethyddiaeth | 16% | arall | 3% |
| hela a saethu | 13% | ffermydd gwynt | 3% |
| sbwriel/dympio | 11% | biwrocratiaeth | 3% |
| tai yng nghefn gwlad | 11% | twristiaeth | 3% |
| gwarchod bywyd gwyllt | 10% | diffyg rheolaeth ar gynllunio | 3% |
| mynediad i wasanaethau | 10% | | |
| mynediad gyhoeddus i gefn gwlad | 8% | | |
| llygredd | 6% | | |
| cyflogaeth yng nghefn gwlad | 6% | | |
| ieuenctid | 5% | | |

**Tabl 11: Pa bynciau sy'n eich pryderu fwyaf ynglŷn â chefn gwlad (arolwg ar y we) (n=146)**

6.54 Mae agenda'r ymatebwyr ar y we ar gyfer cefn gwlad yn adlewyrchu, i raddau helaeth, yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg i gartrefi (Tabl 11). Fodd bynnag, dengys y proffil bwysigrwydd clwstwr mawr o faterion sy'n ymwneud â datblygu, trafnidiaeth, amaethyddiaeth, hela a saethu, sbwriel, tai, cadwraeth, hamdden a gwasanaethau gwledig. Unwaith eto, nodi'r agenda'n unig a wna'r tabl, yn hytrach na cheisio pwyso a mesur yr anghytundeb sy'n bodoli ynglŷn â'r materion hyn.

**Datblygu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad**

| **Datblygu yng nghefn gwlad** | Anghytuno'n chwyrn | Anghytuno | Dim teimladau cryfion | Cytuno | Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| aneddiadau gwasgaredig | 45% | 23% | 14% | 18% | 0% |
| aneddiadau mwy | 9% | 27% | 27% | 27% | 9% |
| dyluniad a maint | 0% | 0% | 4% | 22% | 74% |
| wedi'l gyfyngu mewn dynodiadau | 5% | 0% | 18% | 27% | 50% |
| newydd | 45% | 36% | 9% | 9% | 0% |
| wedi'l gyfyngu yng nghefn gwlad | 13% | 22% | 17% | 35% | 13% |
| pentrefi a phentrefi bychain | 10% | 19% | 10% | 62% | 0% |

**Tabl 12: Dylid seilio datblygu economaidd yng nghefn gwlad ar/mewn (arolwg ar y we) (n=101)**

6.55 Dengys yr ymatebion gefnogaeth i ddatblygu economaidd drwy'r hierarchiaeth aneddiadau gyda gwrthwynebiad amlwg i ddatblygu aneddiadau newydd (Tabl 12). Fodd bynnag, ble mae datblygu economaidd yn digwydd, cefnogir yn gryf faterion yn ymwneud â chynllun a graddfa. Mae cefnogaeth eang i reolaeth ar y fath ddatblygiadau o fewn dynodiadau gwledig. Yn arwyddocaol, mae tensiwn amlwg yn ymddangos o safbwynt y datganiad y dylai datblygu economaidd gael ei gyfyngu yng nghefn gwlad.

| **Tai yng nghefn gwlad** | Anghytuno'n chwyrn | Anghytuno | Dim teimladau cryfion | Cytuno | Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| aneddiadau gwasgaredig | 38% | 46% | 0% | 15% | 0% |
| aneddiadau mwy | 4% | 19% | 15% | 42% | 19% |
| dyluniad a maint | 0% | 0% | 4% | 21% | 75% |
| wedi'u cyfyngu mewn dynodiadau | 9% | 0% | 13% | 26% | 52% |
| aneddiadau newydd | 31% | 46% | 8% | 15% | 0% |
| wedi'u cyfyngu yng nghefn gwlad | 5% | 9% | 23% | 36% | 27% |
| pentrefi a phentrefi bychain | 15% | 19% | 12% | 54% | 0% |

**Tabl 13: Dylid seilio tai yng nghefn gwlad ar/mewn (arolwg ar y we) (n=101)**

6.56 Dengys yr ymatebion i dai yng nghefn gwlad broffil tebyg i ddatblygu economaidd, yn enwedig o safbwynt pwysigrwydd dyluniad a graddfa datblygiadau newydd a'r teimlad y dylid eu cyfyngu arnynt mewn dynodiadau gwledig (Tabl 13).

Fodd bynnag, mae yna rai gwahaniaethau bychain. Y gwahaniaeth amlycaf yw maint yr anghytundeb yn adran y pentrefi a'r pentrefi bychain a ddengys bod tensiwn cynyddol ynglŷn â thai newydd yn y aneddiadau llai hyn. Mae yma hefyd gefnogaeth amlycach i ragor o gyfyngiadau ar adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad.

| **Tai fforddiadwy** | Tystiolaeth bod eu hangen | Canolfannau mwy | Angen lleol | Ni ddylid eu hadeiladu | Cefn gwlad agored | Pentref/pentref bach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| anghytuno'n chwyrn | 0% | 17% | 0% | 16% | 44% | 5% |
| anghytuno | 5% | 28% | 5% | 32% | 50% | 11% |
| dim teimladau cryfion | 21% | 6% | 5% | 32% | 0% | 5% |
| cytuno | 47% | 33% | 47% | 11% | 6% | 47% |
| cytuno'n llwyr | 26% | 17% | 42% | 11% | 0% | 32% |
| cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

**Tabl 14: Dylid seilio tai fforddiadwy yng nghefn gwlad ar/mewn (arolwg ar y we) (n=103)**

6.57 Dengys y proffil ar gyfer tai fforddiadwy gryn gefnogaeth i ddatblygu ar sail angen, gyda phwyslais arbennig ar y dimensiwn "lleol" (Tabl 14). Dylid lleoli datblygiadau o'r fath drwy'r holl hierarchaeth aneddiadau, yn hytrach na mabwysiadu polisi o ganoli. Yn wir, gwelir gwahaniaethau amlwg yma o blaid tai fforddiadwy, o'i gymharu â'r proffil ar gyfer tai yn gyffredinol (Tabl 13). Yn ddiddorol, mae cryn anghytundeb ynglŷn â thai fforddiadwy yn y wlad agored.

| **Trafnidiaeth** | Anghytuno'n chwyrn | Anghytuno | Dim teimladau cryfion | Cytuno | Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| gweithio gartref | 0% | 4% | 32% | 40% | 24% |
| rhagor o swyddi yng nghefn gwlad | 0% | 16% | 8% | 56% | 20% |
| gwella ffyrdd | 12% | 27% | 19% | 35% | 8% |
| dim problem drafnidiaeth | 58% | 27% | 4% | 12% | 0% |
| trethi uwch | 20% | 28% | 20% | 16% | 16% |
| gwell trafnidiaeth gyhoeddus | 0% | 0% | 0% | 50% | 50% |

**Tabl 15: Gellid datrys problemau trafnidiaeth yng nghefn gwlad drwy (arolwg ar y we) (n=129)**

6.58 Yn gyntaf oll, a phwysicaf, mae'r canlyniadau'n cadarnhau bod problem drafnidiaeth sydd angen ei datrys, yng nghefn gwlad (Tabl 15). Gwelwyd y gefnogaeth gryfaf i wella trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â chreu swyddi yng nghefn gwlad a gweithio o gartref. Mae gwahaniaeth barn ynglŷn â gwella ffyrdd a chodi trethi; mae'r gefnogaeth i godi trethi uwch yn gryfach yn yr arolwg ar y we na'r arolwg i gartrefi.

**Gweledigaeth ar gyfer cefn gwlad**

6.59 Derbyniodd yr arolwg ar y we hefyd syniadau ar gyfer dyfodol cefn gwlad. Crynhoir yr ymatebion isod mewn cyfres o themâu.

**Amaethyddiaeth a choedwigaeth**

6.60 Y themâu allweddol yn y weledigaeth oedd:-

- Cynhyrchu bwyd yn lleol
- Angen dulliau o ffermio mwy cynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd
- Angen cefn gwlad fwy amrywiol gyda rhagor o goetiroedd brodorol yn cael eu plannu
- Angen rhagor o gyflogaeth leol i gynnal amaethyddiaeth a choedwigaeth ac i ychwanegu gwerth i'r cynnyrch
- Gweledigaeth gadarnhaol i'r dyfodol, cyn belled â bod ffermwyr yn addasu ar gyfer amgylchiadau newydd.

**Hamdden a thwristiaeth**

6.61 Y themâu allweddol a amlygwyd yn y weledigaeth hon oedd:-

- I gynyddu ymhellach y cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth yn nghefn gwlad Cymru ben baladr
- I ddatblygu twristiaeth sensitif, "werdd", wedi'i chreu law yn llaw â chymunedau lleol
- I sicrhau bod hawliau mynediad cyfreithiol yn hygyrch i bawb sydd am eu defnyddio
- I ehangu datblygiadau hamdden a thwristiaeth sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chreu rhai newydd
- Cydnabod y peryglon sydd ynghlwm â datblygu twristiaeth ar wahan i fentrau datblygu economaidd eraill.

**Gwaith yng nghefn gwlad**

6.62 Y themâu allweddol a amlygwyd yn y weledigaeth hon oedd:-

- Cost uchel llafur yn fygythiad i greu gwaith yng Nghymru
- Angen creu gwaith mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth gyda'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin
- Gwahaniaeth barn ynglŷn â'r angen i greu gwaith yng nhghefn gwlad, yn hytrach na'i ganoli mewn aneddiadau mwy
- Sefydlu rhagor o fentrau cynhyrchu ysgafn yng nghefn gwlad
- Am weld rhagor o entrepreneuriaid lleol yn gallu sefydlu busnesau.

**Byw yng nghefn gwlad**

6.63 Y themâu allweddol a amlygwyd yn y weledigaeth hon oedd:-

- Angen rhagor o reolaeth ar adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad, yn seiliedig ar angen gwirioneddol
- Angen cynnydd aruthrol yn y nifer o dai ar rent sydd ar gael i bobl leol

- Mae dyluniad a graddfa yn faterion cynllunio allweddol. Cadw Wimpey a Barratt allan o gefn gwlad.
- Problemau tai lleol yn cael eu datrys gan bobl leol sydd â diddordeb yn eu hardal leol.
- Rhagor o bwyslais ar dai fforddiadwy yn hytrach na datblygiadau drudfawr ar gyfer mewnfudwyr.

**Datblygu cynaliadwy**

6.64 Y themâu allweddol a amlygwyd yn y weledigaeth hon oedd:-

- Lleoleiddio'r ymateb i anghenion byd eang
- Gwell dealltwriaeth o ddylanwad y defnydd o adnoddau yng nghefn gwlad
- Amaethyddiaeth cynaliadwy sy'n symud oddi wrth systemau amaethyddol dwys
- Defnydd mwy effeithiol o ynni cynaliadwy megis gwynt, trydan dŵr a thonnau'r môr.

## GWELEDIGAETHU CYMUNEDOL

### Rhagarweiniad

6.65 Cymrodd gynrychiolwyr o wyth cymuned ran mewn ymarferiad gweledigaethu cymunedol dwys, gan ddefnyddio'r un teipoleg trefol/gwledig â'r arolwg i gartrefi (Adran 5.14). Canolbwyntia'r adran hon ar y materion allweddol a'r pwyntiau trafod a ddaeth i'r wyneb wrth i ymatebwyr ystyried gwahanol safbwyntiau ynglŷn â'u cefn gwlad leol. Pan yn bosib, cynhwyswyd ddyfyniadau er mwyn ceisio esbonio a rhoi'r materion yn eu cyd-destun.

6.66 Dengys Tabl 16 y prif faterion a ystyriai'r ymatebwyr yn berthnasol i'w cefn gwlad. Yn arwyddocaol roedd diffyg integreiddiad, tai fforddiadwy, twf canolfannau cymudo, rheoli trafnidiaeth a rôl amaethyddiaeth yn amlwg ym mhob ardal astudiwyd. Yn ogystal, roedd y ffaith bod pobl ifainc yn gadael ardaloedd, ynghyd â mynediad i gefn gwlad hefyd yn amlwg ac yn gysylltiedig ag o leaiaf dri o'r categorïau.

6.67 Ond er gwaetha'r teimladau cyffredinol hyn, fe ymddengys bod materion penodol ynghlwm â chefn gwlad o safbwynt y wlad a'r dref. O safbwynt ardaloedd gwledig, roedd mwy o bwyslais ar ffactorau cymdeithasol-economaidd megis cyflogaeth a'r gwrthdaro a ddaw yn sgîl newidiadau yn strwythur y boblogaeth, tra'r ymboenai'r ardaloedd trefol fwy am faterion mynediad, diogelwch, hamdden a chadwraeth.

6.68 Mae deall y materion hyn, ynghyd â'u cyd-destun mewn gwahanol ardaloedd gwledig, yn hollbwysig wrth eu dadansoddi yn unol â'r canfyddiad cyfoes o wledigrwydd. Astudir pob pwnc yn ei dro er mwyn rhoi darluniau ac asesiadau personol o'r sefyllfa.

### Ymgynghoriad

6.69 Ar ddechrau'r ymarferion gweledigaethu cymunedol hyn lleisiodd sawl cymuned bryder ynglŷn â'u pwrpas a'u gwerth (Bala; Llanelwy; Rhyl; Pencader). Yn arwyddocaol, roedd ymatebwyr yn ymwybodol o ymgynghoriadau eraill a gynhaliwyd yn ddiweddar ond roeddent yn amheus o'u gwerth oherwydd yr hyn a ystyriwyd yn ddiffyg gweithredu cyffredinol o ganlyniad i'r ymgynghoriadau.

*"Rwyf wedi bod mewn sawl cyfarfod fel hyn yn y blynyddoedd diwethaf" "Does dim yn digwydd – beth yw'r pwynt?" (Gwledig.)*

*"Cawsom gyfarfod fel hyn yr wythnos diwethaf; does dim byth yn digwydd" (Cyrion gwledig).*

6.70 Mae teimladau o'r fath yn bwysig o safbwynt y nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelir ynghyd â'r modd y rheolir y broses a'r ffordd y trosglwyddir y canlyniadau i'r rhai a gymerodd ran yn y broses[7].

[7] Addawyd copi o'r rhan hon o'r adroddiad i bawb a gymerodd ran yr yr ymarferiad.

| **Pwnc/gwledigrwydd** | **Gwledig** Aberaeron Bala | **Cyrion gwledig** Llandrinio Pencader | **Cyrion trefol** Resolfen Llanelwy | **Trefol** Caerdydd Rhyl |
|---|---|---|---|---|
| diffyg integreiddio | x | x | x | x |
| tai fforddiadwy | x | x | x | x |
| cymudo | x | x | x | x |
| traffig | x | x | x | X |
| amaethyddiaeth | x | x | x | x |
| colli ieuenctid | x | x | x | |
| diffyg mynediad i gefn gwlad | | x | x | x |
| trafnidiaeth gyhoeddus | x | x | | x |
| amgylchedd ddelfrydol | x | x | | |
| cyflogaeth | x | x | | |
| tlodi | x | x | | |
| poblogaethau dros dro/cyfnewidiol | x | x | | |
| cymuned | | x | | x |
| twf/uniad aneddiadau | | x | | x |
| esgeulustod | | | x | x |
| rheolaeth a phenderfyniadau lleol | | | x | x |
| hamdden | | | x | x |
| newid ym mhatrymau siopa | x | | | |
| dylanwad ar iaith a diwylliant | x | | | |
| rhaniad mewnfudwr / lleol | | x | | |
| dylanwadau allanol | | x | | |
| diffyg gwybodaeth | | | x | |
| diffyg buddsoddiad | | | x | |
| diffyg parch at gefn gwlad | | x | | |
| diffyg gwarchodaeth | | | | x |
| ymddeoliad | x | | | |
| diogelwch | | | | x |
| dibyniaeth ar dwristiaeth/diffyg cydbwysedd | x | | | |

**Tabl 16: Prif faterion a amlygwyd gan yr ymarferiad gweledigaethu cymunedol**

## Diffyg integreiddio

6.71 Pwysleisiodd ymatebwyr ym mhob ardal bwysigrwydd cysylltu materion allweddol gwaith, tai a thrafnidiaeth. Roedd y canfyddiad o ddarniad y darlun ehengach o gefn gwlad yn amlwg o safbwynt gweithredoedd a pholisïau'n cael eu "gwthio" ar breswylwyr, yn enwedig yn y cyrion gwledig a'r cyrion trefol lle'r oedd y pwysau didostur am dai newydd, heb swyddi newydd, amlycaf.

*"Mae gwella ffyrdd ynghyd â thâl cymunedol isel yn, yn trawsnewid cyfleoedd ar gyfer cymudo. Does gennym ni ddim swyddi yma ond mae cymudwyr yn cymryd lle pobl leol ac yn teithio i Loegr i weithio"(Cyrion trefol).*

*"Os ydych yn darparu tai mae'n rhaid i chi ddarparu gwaith, adloniant – y cwbl lot. Mae canfyddiad clir nad yw hyn yn digwydd, yn enwedig o safbwynt amlygrwydd datblygiadau tai" (Cyrion gwledig).*

6.72 Roed teimlad hefyd bod cefn gwlad angen ei thrin yn wahanol, gyda chynlluniau a rhaglenni gwhanol i'r dref. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gydnabyddiaeth sydd i hyn mewn mentrau datblygu gwledig.

*"Mae datblygu gwledig yn cael ei drin yn yr un ffordd â datblygu trefol – defnyddir yr un meini prawf. Mae hyn yn cael effaith anferthol ar ein pentrefi; mae'r datblygiad newydd mor amlwg" (Cyrion gwledig).*

## Tai yng nghefn gwlad

6.73 Gellir rhannu pwnc cyffredinol tai yng nghefn gwlad i chwech prif bryder; gorddatblygu, natur a chyflymder y datblygu, twf canolfannau cymudo, diffyg tai fforddiadwy, tai ar gyfer pobl ifainc a thwf cyflym ac ymdoddiad aneddiadau (Tabl 16). Yr unig wahaniaeth bychan oedd mai dim ond yn yr ardaloedd gwledig y soniwyd am ail gartrefi. Ystyriwyd y rhain i gyd fel ffactorau dinistriol o safbwynt strwythur, diwylliant, tirwedd a bywyd cymunedau.

6.74 Mae'r dyfyniadau isod yn nodweddiadol o'r trafodaethau yn yr holl gymunedau astudiwyd, ynglŷn â datblygu tai yng nghefn gwlad.

*"Mae hwn/hon yn troi'n bentref/dref/sir i gymudwyr" (Cyrion gwledig).*

*"Mae rhagor o ddatblygu tai yn achosi colli cymuned" (Gwledig).*

*"Dydy'r tai yma ddim ar gyfer pobl leol, maen nhw ar gyfer cymudwyr cyfoethog o Loegr." "Mae fel chwa o awyr iach pan fo rhywun lleol yn prynu tŷ yma" (Cyrion gwledig).*

*"Dydy'r datblygiadau tai diweddar ddim yn cyweddu â'r bensaernïaeth leol; mae tai moethus, anferth wedi eu gwasgu gyda'i gilydd, yn edrych yn ofnadwy." "Dydy datblygiadau trefol ddim yn gweddu i'r wlad – mae pentrefi traddodiadol yn llawn o bob math o wahanol arddulliau ond heddiw maen nhw'n adeiladu tai sydd i gyd yn edrych yr un fath ac allan o gymeriad" "Does dim synnwyr cyffredin mewn cynllunio"(Trefol).*

*"Rydym yn colli ein cefn gwlad oherwydd ehangu cyflym a datblygu strimynog" (Cyrion trefol).*

*"Y bygythiad mwyaf i gefn gwlad yn y dyfodol yw tai" (Cyrion trefol).*

*"Dylid darparu cyfleusterau a swyddi yn sgîl adeiladu tai" (Gwledig).*

*"Mae angen cyfaddawd sensitif" (Trefol).*

6.75 Mae'n amlwg, o natur gyffredinol y materion hyn ym mhob cymuned, bod cryn anfodlonrwydd gyda'r canfyddiad o'r modd y gweithredir polisïau cynllunio a thai. Dengys dadansoddiad o'r canfyddiadau hyn yr ystyrir cefn gwlad fel adnodd werthfawr, amlddefnydd a bod gormod o golli cefn gwlad oherwydd graddfa a chyflymder adeiladu tai newydd, sydd ag oblygiadau negyddol o safbwynt y tirwedd a strwythurau cymunedol. Roedd pryder ynglŷn â graddfa datblygu, amlycaf yn yr ardaloedd cyrion gwledig lle'r ymddengys bod datblygu cyflym wedi trawsnewid "teimlad" y lle a chreu tensiynau rhwng y bobl leol a'r mewnfudwyr. Yn yr ardaloedd trefol roedd y pwyslais ar greu dynodiadau llain glas er mwyn

gwahardd ymdoddiad pellach y dref i'r wlad ac er mwyn amddiffyn yr ardaloedd gwyrddion.

6.76 Yn arwyddocaol, teimlir nad protest syml o fath "ddim yn fy ngardd gefn i" oedd hon. Roedd y dulliau a awgrymwyd er mwyn datrys y broblem yn cydnabod bod rhagor o ddatblygu yn anochel, ond y dylai gael ei dargedu yn ôl yr angen, gan ffafrio'r ifainc a phobl leol ac y dylai fod ar raddfa fechan, gan lenwi mewn rhwng adeiladau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na lledu'n ddibaid i gefn gwlad. Gwelwyd cynllunio sensitif fel ffactor bwysig arall ar gyfer sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol yn gyffredinol.

6.77 Mae'r teimladau hyn yn cydfynd yn union â pholisi cynllunio Cymru ar hyn o bryd, a all awgrymu felly mai gweithredu'r polisi sy'n peri'r problemau. O'r herwydd, ystyriwyd yr angen a fynegir yn aml am ddatganoli rhagor o hawliau i bobl leol i fod yn hanfodol ar gyfer cynllunio mwy effeithiol ac integredig.

**Amaethyddiaeth**

6.78 Cafwyd sylwadau pwysig a ddangosai gonsyrn ynglŷn ag amaethyddiaeth. Cytunwyd yn gyffredinol y dylid ffermio cefn gwlad ac y dylid cefnogi ffermwyr, hyd yn oed os oedd hynny am resymau amgylcheddol, ynghyd â chynnig gwell cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio. Unwaith eto, adlewyrcha hyn gyfeiriad strategaeth bresennol a threfniadaeth y dyfodol o safbwynt polisi.

6.79 Yn yr ardaloedd trefol/cyrion trefol roedd cydnabyddiaeth amlwg o'r angen am *"gynnal tirwedd amaethyddol sy'n cael ei reoli"* gyda'r prif ofid ynglŷn â ffermydd yn cael eu gadael ac, o ganlyniad, eu huno a/neu ddatblygiadau tai newydd. Ystyriwyd enghreifftiau o fandaliaeth, dympio a throsedd hefyd fel anfanteision o safbwynt parhad ymarferoldeb ffermio ger ardaloedd trefol/cyrion trefol.

6.80 Mewn ardaloedd gwledig roedd mwy o drafodaeth a gofid ynglŷn ag amaethyddiaeth, yn enwedig dyfodol ffermio a pholisi amaethyddol yn gyffredinol. Er enghraifft, tra'r ystyrir cynlluniau amaethyddol/amgylcheddol i fod yn bwysig, roeddent yn peri gofid hefyd.

"*Tir Gofal – mae'r egwyddor yn iawn ond dydy'r cynllun ddim yn cael ei weithredu'n iawn; rhy ychydig o bobl yn cael a gormod ddim yn cael*" *(Gwledig).*

6.81 Cydnabyddir hefyd bod amaethyddiaeth *"wrth galon y gymyuned/iaith diwylliant yn y gorffennol, ond ddim o angenrheidrwydd erbyn hyn" (Gwledig).* Roedd gan hyn oblygiadau pwysig i ddyfodol amaethyddiaeth ac i gryfder y lobi amaethyddol yn gyffredinol. Roedd olyniaeth ffermydd yn bwnc allweddol sy'n rhaid ei wynebu "*Gynted ag y caiff bobl ifainc flas ar gyflog wythnosol, ni ddônt byth yn ôl i'r fferm*" *(Gwledig).*

6.82 Adlewyrcha'r farn *"nad yw ffermwyr yn broblem erbyn hyn"* eu cysylltiad mwy amlwg â chadwraeth erbyn hyn, yn ogystal â gostyngiad yn eu niferoedd a'u dylanwad ar economi ey hardaloedd.

6.83 Er bod lefelau uchel o gefnogaeth i amaethyddiaeth, roedd rhai unigolion yn herio'r unfrydiaeth barn. Yn enwedig yn y cyrion trefol roedd dadl ynglŷn â manteision caniatáu i dir amaethyddol ddychwelyd yn dir gwyllt a choetir mewn rhai ardaloedd, yn bennaf ar gyfer cadwraeth, ond hefyd fel modd o ychwanegu at amrywiaeth cefn gwlad.

## Hamdden a mynediad i gefn gwlad

6.84 Roedd y pwnc yma'n amlwg yn y cymunedau i gyd. Ystyriwyd cefn gwlad leol fel adnodd pwysig ar gyfer hamdden, ac roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnydd a gwelliant o safbwynt mynediad a hamdden fel rhan o'r broses ehangach o amrywio'r economi wledig.

6.85 Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau bychain rhwng yr ardaloedd a astudiwyd yn y modd y lleisiwyd y cysyniad o fynediad ac hamdden. Mewn ardaloedd trefol mynegwyd y mater yn nhermau cyfyngiadau a gwrthdaro; bygythiad beiciau modur a cherbydau gyriant 4 olwyn a chyfyngu/rhwystro mynediad gan ystadau saethu mawrion, rheolwyr coedwigoedd a ffermwyr unigol. Pwysleisiai'r cyfranwyr bwysigrwydd mynediad i gefn gwlad ar gyfer defnyddwyr sefydlog ac i ddefnyddwyr o'r ardaloedd trefol a allai, o bosib, "gysylltu" gyda'u cefn gwlad. Cafwyd hefyd sylwadau a gefnogai gynnydd yn y cyfleoedd ar gyfer hamdden yng nghefn gwlad, gydag ardaloedd hamdden a gâi eu rheoli'n cael eu hystyried yn arbennig o bwysig ar gyfer darparu adnodd lleol ar gyfer cerddwyr a phobl anabl. Roedd cefnogaeth frwd i barciau/ardaloedd gwyrddion lle gallai'r gymuned ymgymryd â chwaraeon a gweithgareddau yn ogystal â gwarchodfeydd natur lleol fel adnodd addysgol pwysig. Ystyrir hyn i gyd yn bwysig iawn ar gyfer ieuenctid, a ystyriwyd yn gyson i fod yn dioddef o ddiffyg cyfleusterau wedi'u cynllunio ar eu cyfer.

6.86 Roedd cynrychiolwyr ffermwyr/tirfeddianwyr yn y grwpiau hyn yn awyddus i bwysleisio mai dim ond lleiafrif a achosai broblem o safbwynt mynediad, a bod ffermwyr mewn ardaloedd agos i ardaloedd trefol yn wynebu problemau enbyd o ddiffyg parch tuag at gefn gwlad gydag adroddiadau am ddympio, sbwriel, fandaliaeth a hyd yn oed ymosodiadau ar anifeiliaid.

6.87 Roedd trafodaeth ynglŷn â darparu lle gwyrdd a rhagor o gyfleoedd ffurfiol ar gyfer hamdden. Fodd bynnag, cysylltwyd hyn yn fwy penodol â thwristiaeth a ystyriwyd i fod yn hollbwysig i economi'r ardaloedd hynny. Roedd pryder bod angen i'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd am i'r cyhoedd wneud mwy o ddefnydd o gefn gwlad, ddarparu'r rhwydwaith angenrheidiol er mwyn i bobl ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac er mwyn iddynt barchu cefn gwlad fel adnodd amlddefnydd. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod datblygiadau twristiaeth o fantais i'r economi leol.

*"Rhaid darparu mwy o wybodaeth ar gyfer ymwelwyr" (Gwledig.)*

*"Rhaid i Awdurdodau ddangos ymdeimlad o anghenion lleol ac ymwelwyr" (Cyrion gwledig.)*

## Traffig/Trafnidiaeth

6.88 Ystyriwyd traffig a thrafnidiaeth yn faterion o bwys. Roedd honiadau bod ardaloedd yn cael eu "tagu gan draffig" ac "na all y ffyrdd ddygymod â'r traffig", yn gyffredin, fel ag yr oedd y cysylltiad rhwng trafnidiaeth a 'r rhagolygon ar gyfer datblygu gwledig. Ystyrir diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel anfantais sylweddol i'r rhai hynny oedd heb gar. Sonnir mewn enghreifftiau penodol ynglŷn â maint a llifeiriant traffig mewn pentrefi a threfi a diffyg lle parcio mewn trefi, ac effaith hynny ar ansawdd bywyd a chyfleoedd ar gyfer datblygu. Roedd y pwnc allweddol yn canolbwyntio'n bendant ar y ffaith bod ymddygiad cynghorau lleol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn anwybyddu barn ac anghenion pobl leol.

*“Does dim trafnidiaeth gyhoeddus – allwch chi ddim mynd i unman os nad oes gennych chi gar” (Gwledig).*

*“Mae’r cynllunio ffyrdd yn drychinebus. Pam na wnaethon nhw ofyn i ni” (Urban).*

6.89 Ystyriwyd bod gwelliannau ffyrdd yn gyfrifol am dwf datblygiau ar gyfer cymudwyr. Roedd hyn amlycaf yn yr ardaloedd gwledig a chyrion gwledig, lle’r oedd teithio i Loegr yn bosibilrwydd ymarferol oherwydd y ffyrdd da. Roedd gan hyn oblygiadau difrifol ar gyfer y farchnad dai leol a strwythurau cymunedol.

### Cyflogaeth / Economi leol

6.90 Tra bo’r mwyafrif o ymatebwyr yn gwbl ymwybodol o ansawdd ardderchog y wlad o’u cwmpas, roeddent yn cydnabod bod cefn gwlad yn adnodd economaidd yn hytrach nac yn amgueddfa. Roedd rôl ymarferol cefn gwlad fel adnodd ar gyfer gwaith ac elw yn thema gyson drwy’r cymunedau.

*“Heb i’r gymuned greu incwm waeth i ni heb a dweud beth hoffen ei weld yng nghefn gwlad.” “Mae’n hyfryd byw yng nghefn gwlad, ond allwch chi ddim bwyta golygfa”(Cyrion gwledig).*

*“Un peth â’m trawodd i oedd y tlodi.” “Mae cyflogau, ar gyfartaledd, tua’r un faint â bod ar y dôl” (Gwledig).*

6.91 Roedd sefyllfa’r economi leol a’r angen i ddarparu ystod lawn o swyddi, yn rhan amlwg o’r trafodaethau yng nghefn gwlad. Ystyriwyd bod prinder swyddi “proffesiynol” o ganlyniad i golli gwasanaethau a ddarparai swyddi a dalai’n gymharol dda yn y gorffennol, megis y banciau, gweinyddu, a’r heddlu *“Mae busnesau lleol yn defnyddio gwasanaethau lleol – mae’r effaith yn anferth”* ynghyd â dibrisiad ymddangosiadol y “crefftau”, *“Mae prinder sgiliau ymarferol traddodiadol”,* fel ffactorau cyfrannol.

6.92 Cwynwyd am golli pobl iau i’r trefi mawr a’r dinasoedd, wedi eu denu gan addysg a chyfleoedd ar gyfer gyrfa, a phwysleisiwyd yr angen am gadw neu ddenu’r ieuenctid yn ôl.

*“Mae pobl ifainc am adael cyn gynted ag y gallant ac nid ydynt yn dychwelyd” “Rydych chi’n colli’r holl allu o gefn gwlad” “Mae angen i ni gyfoethogi’r gymuned gyda phobl 20 a 30 oed” (Cyrion gwledig).*

6.93 Yn rhyfedd iawn, roedd yr ardaloedd trefol yn mynegi’r un teimladau. Ystyriwyd bod pob economi leol, heblaw am Gaerdydd, yn dioddef o ganlyniad i fuddsoddiad anwastad ac roedd teimlad cyffredinol “ein bod ni ar ein colled”. Gwaethygwyd hyn gan gymudwyr yn symud i mewn i gefn gwlad ar gyrion y trefi i wneud gwaith a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a buddsoddiad o Ewrop mewn ardaloedd eraill. Dengys yr arolygon cymunedol yng ngogledd Cymru anfodlonrwydd cynyddol ynglyn â phŴer a dylanwad Caerdydd o’i gymharu ag ardaloedd eraill.

### Twristiaeth

6.94 Roedd ffurf a swyddogaeth twristiaeth yn fater amlwg yn yr ardaloedd gwledig, yn un ardal ar y cyrion gwledig ac un ardal drefol, lle’i hystyriwyd yn ffactor pwysig o ran yr economi leol.

6.95 Amrywiai’r farn o rai a ystyriai dwristiaeth fel bygythiad *“does dim byd heblaw am dwristiaeth” (Gwledig),*neu’n wastraff adnoddau ar draul trigolion lleol *“maen nhw’n*

*manteisio ond ddim yn talu",* i eraill a werthfawrogai rôl bresennol twristiaeth a'i photensial ar gyfer y dyfodol, cyn belled â bod trigolion a busnesau lleol yn ymwybodol o anghenion twristiaid.

*"Mae angen i ni fod yn le haws ar gyfer twristiaid. Mae diffyg ymwybyddiaeth yma o anghenion twristiaid" (Gwledig)*

6.96 Lleisiwyd teimladau cryfion ynglyn â natur rhai datblygiadau ar gyfer twristiaid; *"dim rhagor o garafannau",* a'r awydd i ddarparu ar gyfer ystod ehangach o dwristiaeth a thwristiaid nac a wnaethpwyd hyd yn hyn. Roedd tuedd gynyddol i rwydo cwsmeriaid sy'n gwario mwy, gan symud oddi wrth y twristiaid "bwced a rhaw".

*"Mae angen gwestai da." "Mae angen mwy o amrywiaeth o ran twristiaeth, er enghraifft twristiaeth ddiwylliannol" (Gwledig)*.

6.97 Yn yr ardaloedd trefol cydnabyddwyd y ffaith bod y wlad o'u cwmpas yn fantais economaidd allai ddenu twristiaid, wrth iddynt chwilio am ragor o gyfleusterau. Y broblem sylfaenol oedd cael twristiaid i aros a gwario'u harian yn yr economi leol; yn rhy aml o lawer roedd trefi a chanolfannau llai yn cael eu hosgoi.

### Coedwigaeth a choetiroedd

6.98 Gwelwyd coetiroedd fel rhan pwysig o dirwedd y gymuned gyda chryn hoffter o'r coetiroedd sy'n bodoli eisoes ac awydd i weld rhagor o goed.

6.99 Fodd bynnag, gwrthodwyd yn gyffredinol blanhigfeydd mawr o goed conifferaidd gan ffafrio yn hytrach blannu coetiroedd llydanddail "*Mae coedwigaeth unffurf yn drychineb" (Gwledig)*. Fodd bynnag, o'u hintegreiddio gydag elfennau eraill o'r tirwedd, ar raddfa addas, ystyriwyd bod gan goed conifferaidd gyfraniad cadarnhaol i'w wneud i ardaloedd. Er hynny, ffafriwyd yn amlwg goed llydanddail brodorol a chymysgedd o fathau "*mae'n hyfryd gweld y tymhorau'n newid" (Cyrion trefol)*.

6.100 Er mai'r Comisiwn Coedwigaeth oedd y tir-ddeiliad amlycaf mewn un ardal, ni ystyriwyd gyfraniad coetiroedd i'r economi leol fel un arwyddocaol, gan gymunedau gwledig na threfol, "*Ychydig iawn o bobl sy'n gweithio mewn Coedwigaeth" (Cyrion trefol),* ac roedd diffyg mynediad i goedwigoedd yn peri cryn anfodlonrwydd.

### Strwythurau cymunedol

6.101 Amlygwyd colli "hunaniaeth" a bywyd/strwythurau cymunedol traddodiadol yn y cymunedau gwledig a threfol ac fe'i priodolwyd i newidiadau cyflym yn strwythur y boblogaeth, a ffafriai fewnfudwyr a ymddengys i fod unai'n anfodlon neu'n analluog i chwarae unryw ran ym mywyd y gymuned.

*"Dydy pobl ddim ond yn adnabod pobl yn eu hardal fechan eu hunain" "Yr un pobl sydd bob amser yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned"(Gwledig.)*

6.102 Roedd pryder dealladwy ynglŷn ag o ble ddeuai'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr "ymarferol" ac anfodlonrwydd ynghylch yr hyn a ganfyddwyd i fod yn ddiffyg gwerthfawrogiad o fywyd cymunedol ymhlith llawer o fewnfudwyr diweddar, er gwaethaf ymdrechion penodol i'w hannog i gymryd rhan.

*"Dydy mewnfudwyr ddim yn deall ystyr cymuned"(Gwledig)*.

6.103 Arweiniodd ffactorau megis poblogaethau byrhoedlog, mewnlifiad o ardaloedd trefol, a datblygiadau megis rhannu eiddo yn fflatiau ar rent, at broblemau cymdeithasol nas clywyd amdanynt yng nghefn gwlad o'r blaen, fel y camddefnydd o gyffuriau a'r canfyddiad o raniad rhwng y bobl leol/mewnfudwyr mewn rhai ardaloedd. Roedd yr hyn a ystyrir yn ddirywiad yn y bywyd teuluol traddodiadol a theuluoedd estynedig, hefyd yn cael ei ystyried yn golled enbyd i'r gymuned.

6.104 Mewn rhai ardaloedd cyrion gwledig canfyddwyd yn eang bod mewnfudwyr yn disodli pobl leol oherwydd y pwyslais ar ddatblygu tai drudfawr a gysylltid â chymudo neu ymddeol. Roedd hyn, yn anuniongyrchol, yn cael dylanwad ar nodweddion traddodiadol, sefydlog y cymunedau hyn, gyda gofidiau gwirioneddol yn codi ynglŷn â'u cynaliadwyedd yn y dyfodol. Parodd hyn, yn rhannol, drafodaeth ddifyr ynglŷn â phwysigrwydd rheolaeth leol. Roedd barn amlwg bod llawer o ddatblygiadau wedi cael eu gorfodi ar y gymuned a bod angen ail-gysylltu â'r boblogaeth leol mewn modd mwy effeithiol a roddai fwy o lais iddynt yn yr hyn a ddigwyddai. Gwelwyd bod yno ysfa wirioneddol am gael rhan fwy gweithredol yn y gymuned, cyn belled â bod pŴer gwirioneddol yno i wneud rhywbeth.

### Diwylliant / Iaith

6.105 Yn y cymunedau gwledig oedd gan ddiwylliant a'r iaith Gymraeg y rhan amlycaf yn y trafodaethau. Fodd bynnag er yr ystyriwyd y ffaith fod llawer o'r mewnfudwyr diweddar wedi ymrwymo i fynychu gwersi i ddysgu Cymraeg, yn galonogol, nodwyd yn bryderus mai "*ychydig o fewnfudwyr s'n gwerthfawrogi na charu'r iaith*".

6.106 Teimlwyd y dylai diwylliant (yr iaith a hanes lleol) chwarae rhan mwy amlwg mewn polisi cynlllunio, o safbwynt targedu tai, gwaith a pholisïau twristiaeth, yn hytrach na bod y Bwrdd Twristiaeth, er enghraifft yn "*ymddangos i fod ag ofn dweud wrth bobl bod hon yn ardal Gymraeg ei hiaith*" *(Gwledig)*.

6.107 Ar y llaw arall, mewn un gymuned wledig mynegwyd y farn bod "*yr iaith Gymraeg yn rwystr, yn ddylanwad negyddol ar y potensial o ran twristiaethl*", gan bwysleisio'r bygythiad a deimlir ymhlith rhai di-Gymraeg, ond oedd hefyd, o bosib, yn atgyfnerthu'r teimlad o ddiffyg gwerthfawrogiad a goddefgarwch a nodwyd uchod.

6.108 Yn un o'r cymunedau trefol, ystyriwyd Deddf yr Iaith Gymraeg fel rhwystr i Gymry di-Gymraeg a Saeson gael swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus (y prif gyflogwr), ac roedd galw am lacio'r gofynion ieithyddol.

### Dynodiadau

6.109 Cyfeiriwyd yn rheolaidd at natur a maint "dynodiadau" a wnaethpwyd neu a orfodwyd ar rannau o'r wlad neu ardaloedd cyfain. Trafodwyd yn bennaf ddynodiadau a gynlluniwyd er mwyn amddiffyn a diogelu bywyd gwyllt neu dirwedd, ond trafodwyd hefyd ddynodiadau a gymhwysai'r ardal dan sylw ar gyfer yr hyn a ystyrir i fod yn adfywiad yr oedd ei ddirfawr angen, ac arian o Ewrop.

6.110 Roedd teimlad cyffredinol nad oeddent (y preswylwyr) yn gwybod digon am ddynodiadau: er enghraiff, beth yn union oedd ystyr statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ond ar y llaw arall, mynegwyd teimladau cryfion ynglŷn â'r angen i amddiffyn ardaloedd a ganfyddwyd i fod â gwerth gynhenid ac a gyfranai at arbenigrwydd yr ardal dan sylw.

*"..mae arnom ni, y budd-ddeiliaid, angen mwy o wybodaeth…dylem wybod beth sy'n cael ei ganiatáu a beth sydd ddim" (Cyrion trefol).*

*"Mae gan y bryniau hunaniaeth Gymreig….a hebddynt……. byddai fel llun heb ffrâm" (Trefol).*

6.111 Roedd y statws arbennig a roddwyd i ardaloedd a ddynodwyd hefyd yr bwnc llosg, hynny yw, y canfyddiad bod Parciau Cenedlaethol/ AoeddHNE yn well tirwedd, pan fo ardaloedd yr un modd hardd a gwerthfawr sydd heb fod mewn unrhyw ddynodiad. Yn arwyddocaol, gallai dulliau presennol LANDMAP o asesu nodweddion y tirwedd ddatrys gofidiau o'r fath yn yn y dyfodol.

*"Mae'r un mor bwysig â'r Parciau Cenedlaethol" (Cyrion gwledig)*

*"Pam na allwn ni amddiffyn Dyffryn Clwyd yn ogystal â'r bryniau; mae'r un mor arbennig"(Cyrion Gwledig).*

6.112 Ar y llaw arall, ystyriwyd y gall y ddeddfwriaeth a'r ymyrraeth a gysylltir ag ardaloedd a ddynodwyd, ynghyd â diffyg hyblygrwydd ymddangosiadol ar ran rhai Awdurdodau, gael effaith andwyol ar lefelau'r mwynhad a geir mewn rhai ardaloedd ac ar y posibiliadau o safbwynt yr economi a thwristiaeth.

*"Mae'n mynd yn fwy anodd i ddefnyddio'r llyn oherwydd dylanwad Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'n mynd yn fwy anodd i'w fwynhau" "Allwch chi ddim siarad hefo nhw" (Gwledig).*

6.113 I'r eithaf arall, canfyddwyd y methiant i gydnabod pa mor ddifreintiedig yw ardaloedd gwledig a chyrion gwledig drwy beidio a chreu mathau eraill o ddynodiadu, fel rhwystr i adfywiad economaidd.

*"Mae gennym rannau difreintiedig yn ein hardal, ond ddim digon i'n gwneud yn gymwys ar gyfer cymorth o'r tu allan i ddatrys ein problemau" (Cyrion gwledig).*

## Crynodeb

6.114 Mae'r ymarferion gwelediagaethu wedi rhoi darlun gwerthfawr i ni o bynciau ac o'r dyfodol. Dengys Tabl 16 (6.3.1) grynodeb eglur o'r pynciau a nodwyd yn yr ardaloedd. Yn arwyddocaol, rhoddodd yr ymarferion hyn lawer o awgrymiadau ynglŷn ag atebion posib, yn hytrach na'r duedd draddodiadol o restru problemau. Mae'r awydd am weld dulliau unedig o weithredu, asesiadau pragmataidd o angen, datganoli lleol o ran cynllunio a gwell gwybodaeth, yn adlewyrchiad amlwg o'r unfrydiaeth barn ynglŷn â pha lwybrau y dylid eu dilyn yn y dyfodol. Mae llawer o'r sylwadau a wnaethpwyd yn adlewyrchu egwyddor ac amcanion polisi cynllunio heddiw. Felly, mae'r canfyddiad o anfodlonrwydd yn codi cwestiynau ynglŷn â'r broses a'r modd y'i gweithredir yn y cymunedau.

## YMGYNGHORIAD BUDD-DDEILIAID

### Rhagarweiniad

6.115 O'r 105 o fudd-ddeiliaid a wahoddwyd i ymateb i'r ymarferiad ymgynghori ysgrifenedig (Atodiad 11b), dim ond 22 ymateb ysgrifenedig a 5 ymateb llafar a dderbyniwyd. Datgelodd sgyrsiau personol gyda'r rhai na atebodd ofidiau (a restrir isod) ynglŷn â maint a gofynion yr holiadur, ynghyd â phryder ynglyn â'r nifer o ofynion ymgynghorol oedd arnynt yn gyffredinol:

- Anhawsterau ynglŷn â rhoi ymateb asiantaethol, gan nad oedd un person yn amlwg gyfrifol am gefn gwlad
- Anhawsterau gan fudiadau amlswyddogaethol, gan nad oedd ganddynt un weledigaeth benodol ynglŷn â chefn gwlad
- Canfyddiad bod llawer o ailadrodd, gyda nifer fawr o ymgynghoriadau gwledig/cefn gwlad yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill
- Rhai wedi syrffedu ar gael eu holi
- Swyddogion wedi eu trwmlwytho â gwaith, a'i gwnâi yn adnodd iddynt roi unrhyw ymatebion oedd angen amser neu adnoddau sylweddol.

6.116 Tra bo angen cofio'r ffactorau hyn, cafwyd problemau pellach gan yr ymatebwyr yn rhoi ychydig iawn o sylwadau penodol am gynllunio ar gyfer neu yng nghefn gwlad. Adlewyrcha hyn y farn gyffredinol mai dim ond rhannol ddylanwadol yw'r gyfundrefn gynllunio wrth benderfynu sut gefn gwlad sydd ei heisiau. Daeth yn amlwg hefyd bod peth dryswch ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng polisi cynllunio a rheolau cynllunio, gyda'r mwyafrif o'r sylwadau'n ymwneud â'r ail.

6.117 Er mwyn datblygu ar allbwn yr ymgynghoriad, cynhaliwyd seminar ar gyfer 20 o fudiadau allweddol, yn Llanfair-ym-Muallt. Cynhwyswyd allbwn y cyfarfod hwn yn y themâu allweddol a drafodir isod.

### Diddordeb mewn /Polisïau cefn gwlad

6.118 Dangosodd ymatebion y budd-ddeiliaid lu o ddiddordebau yng nghefn gwlad Cymru ac fe'u crynhoir ym Mocs 2. Dylid nodi amlygrwydd diddordebau o safbwynt y sectorau a datblygu personol. Dengys yr ymatebion gan asiantaethau, ddiddordebau arbenigol, gyda chryn ddyblygu rhyngddynt. Yn arwyddocaol, nid oedd unrhyw un o'r mudiadau hyn yn amlygu perspectif cefn gwlad integredig. Roedd datganiadau polisi, oherwydd natur amrywiol y mudiadau, yn tueddu i fod yn gyffredinol yn hytrach na phenodol; yn wir yn cuddio mwy nag oeddent yn ei ddatgelu ynglŷn â cynaliadwyedd cefn gwlad. Mae Bocs 2 hefyd yn crynhoi'r gweithrediadau polisi allweddol ar gyfer cefn gwlad, ac mae'n werth nodi nad oes unrhyw swyddogaethau "cynllunio gwlad a thref", "integreiddio" na "rheoleiddio" yn amlwg.

| **Diddordebau** | | | |
|---|---|---|---|
| Bywoliaethau | Dysg | Cyflogaeth | Cynllunio |
| Gwasanaethau | Adloniadol | Tirwedd | Amgylchedd |
| Cymuned | Tai | Arfer Orau | Lles |
| Dealltwriaeth | Diogelwch | Ffyniant | Mwynhad |
| Twristiaeth | Datblygu econ. | Mynediad | Partneriaeth |
| Cynaliadwyedd | Gwasanaethau | Diwylliant | Treftadaeth |
| Cynefinoedd | Iechyd | | |

| **Polisïau** | | |
|---|---|---|
| Hybu | Magu | Datblygu |
| Amddiffyn | Darparu | Cynnal |
| Cefnogi | Gwarchod | Gwella |
| Cyflawni | Creu | Addysgu |

**Bocs 2: Crynodeb o ddiddordebau a pholisïau budd-ddeiliaid yng nghefn gwlad Cymru.**

## Beth yw'r materion allweddol sy'n wynebu dyfodol cefn gwlad Cymru?

6.119 Dengys ymatebion y budd-ddeiliaid un ar bymtheg o faterion allweddol ar gyfer cefn gwlad (Bocs 3). Tra bo rhai ohonynt yn broblemau cefn gwlad cydnabyddedig, noda eraill yr angen am agwedd fwy gyfannol, gyda diwygio mudiadau a gwell cyfathrebu yn flaenoriaethau. Noda rai sylwadau'r angen am "*…awyrgylch o integreiddio a chyfathrebu gyda holl gyrff budd-ddeiliaid cefn gwlad Cymru*",tra pwysleisia eraill yr angen am i asiantaethau ddarparu ar gyfer cefn gwlad amrywiol: "*dydy cefn gwlad Cymru ddim yn uned unffurf ac felly mae angen i'r dulliau amrywio er mwyn cymryd y gwahaniaethau hyn i ystyriaeth*".

6.120 Adlewyrcha'r materion penodol a nodwyd, gymhlethdod "problem cefn gwlad". Soniwyd yn rheolaidd am yr angen am sicrhau bod swyddi a bywoliaethau da i'w cael o, ac yng, nghefn gwlad, tra'n cynnal bioamrywiaeth, yr amgylchedd, y gymuned, mynediad ac hamdden. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod cefn gwlad yn adnodd ddadleuol, ond nad yw hyn wedi'i gydnabod yn llawn hyd yn hyn o fewn polisi cynllunio.

| | |
|---|---|
| Gormod o asiantaethau, nid yw dda | Datblygu gwledig integredig |
| Trafnidiaeth | Ymrwymiad cyhoeddus effeithiol |
| Cymunedau amaethyddol ymarferol a phroffidiol | Cymunedau gwledig cynaliadwy |
| Gwell mynediad i wasanaethau gwledig | Ymdrin ag eithrio cymdeithasol |
| Diwygio'r gyfundrefn gynllunio | Cynllunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd |
| Amgylchedd fel ased economaidd/ gymdeithasol dda | Darparu swyddi o ansawdd dda |
| Gwell mynediad gyhoeddus i gefn gwlad | Cefn gwlad gynhwysol |
| Cynnal treftadaeth ddiwylliannol/ naturiol | Gwell buddsoddi preifat |
| Rhagor o goedwigaeth amlbwrpas | |

**Bocs 3: Materion allweddol sy'n wynebu cefn gwlad**

## Bodlonrwydd gyda pholisi cyffredinol cefn gwlad

6.121 Dengys yr ymatebion gasgliad cyffredin o bryderon ynglŷn â rhwydwaith cyfundrefnol Cymru ar hyn o bryd, sy'n rhwystro ymateb polisi unol. Ystyrir bod natur dameidiog asiantaethau a diffyg cynllunio a gweithredu unedig, yn achosi dryswch a dyblygiad diangen, tra bod strwythurau cyfundrefnol hen ffasiwn yn ymddangos i fod yn arafu creu polisïau ar gyfer cefn gwlad. Cafwyd galwadau dro ar ôl tro am agweddau mwy deinamig a dyfeisgar tuag at faterion, a chreu a gweithredu polisïau cefn gwlad, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.


6.122 Tra'n croesawu sefydlu Llywodraeth Genedlaethol Cymru, galwai'r ymatebwyr am ymdrech ymarferol i leihau nifer yr amrywiol strategaethau gan ffafrio,yn eu lle, agwedd fwy corfforaethol fel y gellid cysylltu cynllunio, a phob mecanwaith arall, yn un weledigaeth effeithiol. Nodwyd mewn sylwadau ar gynllunio'n benodol nad yw anghenion lleol yn cael eu hystyried, yn rhannol oherwydd y canfyddiad bod y patrwm cynllunio yn gorfodi'r un ateb ym mhob ardal, boed hynny'n addas ai peidio. Cydnabyddwyd mai dim ond rhan o'r ateb fyddai diwygio'r gyfundrefn gynllunio "*mae cynllunio'n fwy na phroses yn unig – fe ymddengys bod tensiwn rhwng y defnydd economaidd, ac arall, o gefn gwlad; mae angen cysylltu â pholisi cynllunio tra'n cydnabod mai dim ond rhan ydyw o'r hyn sy'n dylanwadu ar gefn gwlad*".

6.123 Nodwyd mater allweddol ynglŷn ag ymgynghori cymunedol a'i allu i hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau polisi. Fe ymddengys bod diffyg ymrwymiad uniongyrchol â chymunedau a diffyg ymdrech i wrthweithio hyn. Fodd bynnag, lleisiwyd peryglon gorsymleiddio'r dull o drin y broblem o'r gwaelod i fyny, lle gallai disgwyliadau afrealistig rhai cymunedau adael asiantaethau yn analluog i weithredu oherwydd prinder adnoddau. Teimlwyd mai'r ateb fyddai sefydlu *partneriaethau* effeithiol yn hytrach na rhagor o siopau siarad.

6.124 Teimlwyd bod materion ariannu hefyd yn hollbwysig ar gyfer ymdriniaeth effeithiol a chynaliadwy o gefn gwlad, a bod angen, ar frys, proses fwy stragegol, unedig, wedi ei rheoli, ac a gynhwysai becynnau ariannu tymor hir. Nodwyd cynlllun Cymunedau'n Gyntaf fel enghraifft o gynllun allai gael ei addasu ar gyfer datrys problemau tymor hir cefn gwlad.

## Datblygu economaidd

6.125 Ym Mocs 4 crynhoir y materion allweddol a gysylltir â datblygu economaidd yng nghefn gwlad Cymru. Mae cefnogaeth gref i ddiwydiannau traddodiadol cefn gwlad (amaethyddiaeth a choedwigaeth) ond gyda phwyslais newydd ar amrywiaeth, amlddefnyddioldeb a chyfrifoldeb amgylcheddol. Ystyriwyd cynhaliaeth fusnes effeithiol, strwythur grantiau symlach a chyngor fel mecanweithiau hanfodol ar gyfer y newidiadau hyn, yn ogystal ag ymestyniad tebygol cynlluniau amgylchfyd-amaethyddol ar gyfer rhagor o ffermwyr. Yma pwysleisiwyd gyfraniad positif Cyswllt Ffermio. Yn ogystal, roedd angen edrych eto ar y modd yr ystyrir bod prosesau trethi busnes a chaniatâd cynllunio yn llesteirio llawer o gyfleoedd dilys i arallgyfeirio.





**Bocs 4: Crynhoad o'r materion allweddol a gysylltir â datblygiad economaidd yng nghefn gwlad**

6.126 Y brif neges fodd bynnag, oedd bod angen ehangu sylfaen economaidd cefn gwlad, a bod angen ail greu cefn gwlad gyda swyddi o ansawdd da mewn cymunedau gwledig a'r strwythur dynol a ffisegol angenrheidiol i gefnogi datblygiadau o'r fath. Yn gysylltiedig gyda'r dymuniad yma oedd yr angen i ail gysylltu gyda'r gymuned leol i helpu pawb.

## Tai

6.127 Dengys yr ymatebion i bolisïau tai ar gyfer cefn gwlad cryn bryder a negatifrwydd (Bocs 5). Roedd galw am adolygiad polisi sylfaenol, ac anfodlonrwydd amlwg gyda'r ffordd yr oedd rhai agweddau o bolisi cynllunio'n gweithio. Ymwnâi'r prif broblemau â maint a chyflymder datblygiadau; gorbwyslais ar ddatblygiadau o dai moethus; gormod o ddatblygiadau tai oedd yn rhy debyg i'w gilydd; diffyg integreiddiad o ran datblygu tai a swyddi, trafnidiaeth a rhwydweithiau mewnol eraill, gan greu aneddiadau cymudo a fygythiai'r anghenion datblygu economaidd a drafodwyd eisoes. Galwyd yn bennaf am ddefynyddio arolygon systematig o anghenion lleol o safbwynt tai, a hynny nid wedi'u seilio ar fforddiadwyaeth yn unig; y defnydd o ddatblygiadau bychain ar draws yr hierarchiaeth aneddiadau ac ystod o ddarparwyr tai drwy bartneriaethau dyfeisgar lle nad elw oedd eu hunig gymhelliant. Yn arwyddocaol, roedd y mwyaftif o'r ymatebion gan fudd-ddeiliaid yn cefnogi'r pwyslais cynllunio cyfredol ar gyfyngu datblygu yng nghefn gwlad agored.




**Bocs 5: Crynodeb o themâu yn ymwneud â thai yng nghefn gwlad**

**Tai fforddiadwy**

6.128 Er gwaetha'r galw gan fudd-ddeiliaid am i anghenion tai gael eu hasesu yn ôl meini prawf ehangach na fforddiadwyaeth, ystyriwyd bod angen datrys problem tai fforddiadwy yng nghefn gwlad,ar frys. (Bocs 6). Pwysleisiai ymatebwyr y cysylltiad amlwg rhwng tai fforddiadwy, cadw ieuenctid yn y gymuned a chynaliadwyedd wledig. Roedd pryder eglur nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â'r hyn a ystyrir i fod yn angen presennol nac ychwaith yn gytbwys o safbwynt y gyfran o dai newydd nad oedd yn fforddiadwy. Fodd bynnag, dadlwyd na ddylid ystyried tai fforddiadwy fel achubiaeth ar gyfer cymunedau gwledig; ond y dylid canolbwyntio yn ogystal ar waith, trafnidiaeth a gwasanaethau ar y cyd â thai fforddiadwy.


6.129 Awgrymwyd wneud defnydd mwy effeithiol o asesiadau angen a defnyddio polisïau cynllunio presennol yn ehangach er mwyn cyflawni cwotâu tai fforddiadwy. Awgrymwyd hefyd bod lle ar gyfer cynlluniau mwy blaengar megis cynlluniau tir cymunedol a fu'n ychwanegiad llwyddiannus i'r cymdeithasau tai yn yr Alban.




**Bocs 6: Crynodeb o'r themâu yn ymwneud â thai fforddiadwy yng nghefn gwlad**

### Trafnidiaeth yng nghefn gwlad

6.130 Gwelwyd trafnidiaeth fel pwnc arall oedd angen ei ddatrys ar fyrder, ac unwaith eto ymwnâi'r mwyafrif o'r sylwadau â'r modd y teimlir bod polisi yn gwaethygu problemau gwledig (Bocs 7). Fodd bynnag, ychydig o sylwadau a wnaethpwyd ynglŷn â phroblemau uniongyrchol cynllunio a thrafnidiaeth. Pwysleisiwyd yn bennaf bod angen ystyried ac ymdrin â thrafnidiaeth wledig mewn modd gwahanol i drafnidiaeth drefol. Roedd angen modelau newydd er mwyn ateb amrywiol anghenion y boblogaeth "wledig" yn benodol. Unwaith eto ystyriwyd y cysyniad o "anghenion" fel un hollbwysig wrth chwilio am atebion. Pwysleisiwyd bynciau megis buddsoddiad, cynlluniau gwirfoddol a grëwyd yn lleol ond a gefnogwyd gan fudiadau cenedlaethol, ansawdd ac mynychder, yn ogystal â'r angen am integreiddio darparwyr.




**Bocs 7: Crynodeb o themâu yn ymwneud â thrafnidiaeth yng nghefn gwlad**

**Gweledigaethau ar gyfer Cymru gynaliadwy**

6.131 Gweledigaethau tebyg, ar y cyfan, sydd gan y budd-ddeiliaid ar gyfer dyfodol cefn gwlad Cymru. O'u crynhoi, dengys y datganiadau bod:-

- Angen gweledigaeth gref, ar lefel genedlaethol neu leol er mwyn gweithredu strategaethau a chynlluniau
- Angen agwedd integredig
- Cydnabyddiaeth "gryfach" o gyfraniad pobl
- Gwreiddioldeb, amlochredd a hyblygrwydd mewn polisïau
- Angen gwell cysylltiad â'r cyhoedd
- Angen creu cyfleon gwirioneddol i gymunedau gyfrannu at drafodaethau ar lefel uchel, a gwneud gwahaniaeth
- Angen gwneud defnydd mwy effeithiol o arian, yn hytrach na gofyn am ragor o arian bob amser.

6.132 Er gwaetha'r galwadau am adolygu polisi gwledig yn gyffredinol, cydnabu'r budd-ddeiliaid na fyddai polisi byth yn cyflawni'r holl ddymuniadau ar gyfer dyfodol cefn gwlad yng Nghymru. Fodd bynnag, mynegwyd yr angen am fod yn ofalus wrth y rhai oedd eisiau ail greu'r gyfundrefn gynllunio'n llwyr. Ar y cyfan roedd rheolau cynllunio, a'r defnydd effeithiol ohonynt ar lefel leol, yn achosi fwy o bryder na pholisi cynllunio fel y cyfryw. Er gwaetha cysondeb gweledigaethau'r budd-ddeiliaid ar gyfer dyfodol Cymru, amlygodd y seminar y teimlad na fyddai'n dderbyniol ceisio datrys yr holl broblemau yn yr un modd, ac y dylid asesu anghenion lleol a'u cynnwys mewn unrhyw ddatblygiad.

**Asesiad ffotograffig**

6.133 Fe ymddengys, ar y cyfan, i'r elfennau ffotograffig a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad beri peth dryswch, gyda chymharol ychydig o ymatebion. Serch hynny, roedd yr ychydig o ymatebion a dderbyniwyd yn fanwl a threiddgar.

6.134 Ffotograff 1 (Rhosdir) - cafwyd ymateb tebyg gan y budd-ddeiliaid i gyd, sef y dylid gochel rhag gor-bori a/neu goedwigaeth conifferaidd, tra bo ffiniau traddodiadol, coed collddail a pheth pori yn dderbyniol. Mynegodd leiafrif farn y gallai bod cyfleon, a bygythiadau oddi wrth ddatblygiadau ynni gwynt mewn amgylcheddoedd o'r fath.

6.135 Ffotograff 2 (Pentref) - cafwyd ymatebion tebyg gan yr holl fudd-ddeiliaid, o'r rhai oedd am weld lleihad mewn gwella tir gan ganiatâu i'r tir ddychwelyd yn borfeydd a wellwyd yn rhannol, i rai a hoffai weld gwrychoedd ac ardaloedd gwylltion yn cael eu hadfer. Cytunwyd y gallai datblygu ar raddfa fechan fod yn addas ar gyfer ardal o'r fath ond na ddylid gwneud penderfyniad heb ddealltwriaeth gyfannol o amgylchiadau arbennig yr ardal. Pwysleisiwyd y dylai unrhyw ddatblygu o'r fath fod ar raddfa fechan ac y dylai weddu'r adeiladau a fodolai eisoes.

6.136 Ffotograff 3 (Tir amaethyddol) - cafwyd ymatebion gwrthgyferbyniol i'r ffotograff hwn. Rhannwyd yr ymatebwyr, fwy neu lai, yn eu hanner ynglŷn â gwerth tirwedd a ffermir yn ddwys fel yr ymddangosir. Cafwyd ystod o sylwadau ar ddyfodol tirweddtirweddau o'r fath, o'r rhai a deimlai bod rhaid cynnal dulliau amaethu o'r fath er mwyn sicrhau cefn gwlad ymarferol ar gyfer y dofodol, i'r rhai a gredai y byddai rhagor o borfeydd wedi eu trin yn rhannol, neu heb eu trin o gwbl, yn fwy buddiol ar gyfer bywyd gwyllt. Cafwyd cytundeb ynglŷn â'r posibiliadau ar gyfer datblygu ar raddfa fechan yn y fath dirwedd, gydag un o'r ymatebwyr yn nodi'r posibilrwydd o adeiladu gwesty neu gyfleusterau hamdden eraill tebyg mewn amgylchedd o'r fath.

6.137 Ffotograff 4 (Parcdir) – dengys yr ymateb i'r ffotograff hwn bod ardaloedd hamdden o'r fath yn rannau hollbwysig o gefn gwlad, nid yn unig am eu bod yn sicrhau mynediad a chyfleon ar gyfer hamdden ond hefyd am eu bod yn aml yn darparu'r unig dir glas mewn ardaloedd trefol. Teimlwyd y gellid gwneud mwy mewn ardaloedd o'r fath i greu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt ac i annog pobl leol i gymryd rhan yn eu cynnal a'u rheoli. Dim ond un budd-ddeiliad awgrymodd y dylid datblygu ardal o'r fath – teimlai y gellid adeiladu gwesty neu gyfleusterau hamdden eraill o'r fath ar y safle, cyn belled â'i fod yn ddatblygiad sensitif o ran y tirwedd.

6.138 Er gwaethaf ymdrechion y budd-ddeiliaid i fynegi barn ar y ffotograffau unigol, pwysleisiodd y sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd, eu hanhawster wneud hynny heb fod yn ymwybodol o'r cyd-destun. Fodd bynnag, roedd y budd-ddeiliaid yn awyddus i bwysleisio y dylid trafod *unrhyw* newidiadau i'r tirwedd Cymreig gan roi'r ystyriaeth gryfaf bosib i gynaliadwyedd yn ei ystyr ehangaf. Eto'i gyd, roedd egni cefn gwlad yn thema allweddol ac, o ganlyniad, roedd angen i unrhyw newidiadau adlewyrchu anghenion y cymunedau a effeithir, a defnyddwyr cefn gwlad y dyfodol. Ond eto ychydig iawn o fewnwelediad gafwyd i sut y gellid cyflawni hyn.

## CRYNODEB O GANFYDDIADAU'R CYHOEDD O GEFN GWLAD

6.139 Mae'r adran hon yn hel ynghyd y prif faterion a welwyd yng nghanfyddiadau'r cyhoedd o gefn gwlad.

| **Materion hollgwmpasog** | *sylwadau* |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth glir o gefn gwlad fel adnodd amlddefnydd** | *er bod sut y dylid gweithio â hyn yn llai eglur* |
| **Anfodlonrwydd gyhoeddus gyda'u profiadau o gynllunio ar gyfer cefn gwlad.** | *mae anfodlonrwydd amlwg gyda'u profiadau o gynllunio er bod yr hyn a ddymuna'r cyhoedd yn tueddu i adlewyrchu'n rhannol bolisi cynllunio gyfredol* |
| **Atyniad cryf at gefn gwlad** | *gwerthfawrogir gefn gwlad yn fawr* |
| **Pryder mawr ynglŷn â gorddatblygu** | *o'i gyferbynnu â chydnabod bod mathau angenrheidiol o ddatblygu* |
| **Pryder mawr ynglŷn â sbwriel yng nghefn gwlad** | *thema gyson ym mhob ardal .* |
| **Am weld dim ond ychydig o newid** | *cefnogaeth gref i gadwraeth wledig ond aneglur sut y gellir cysoni hyn â datblygu angenrheidiol* |
| **Angen amddiffyn cefn gwlad agored a dynodiadau** | *cefnogir yn gryf* |
| **Datblygu o faint a dyluniad addas** | *pwnc allweddol hollbwysig* |
| **Cynllunio ar gyfer anghenion cydnabyddedig** | *cefnogir hyn fel y ffordd addas ar gyfer ystod eang o ddatblygu* |
| **Integreiddio polisïau** | *awgrymir yn eang bod hon yn elfen sydd ar goll er ei bod yn angenrheidiol* |
| **Polisïau nodweddiadol leol** | *angen ymateb i'r nifer fawr o fathau o gefn gwlad sydd yng Nghymru ac angen cyfuno gweithio o'r top lawr ac o'r gwaelod fyny* |
| **Pynciau dadleuol (hela/ffermio/trafnidiaeth/tai)** | *pynciau cyffredin yn cael eu henwi ond sylwadau ar bynciau penodol yn awgrymu sefyllfa fwy cymhleth na'r wlad vs y dref* |
| | |

| **Pynciau** | ***Sylwadau*** |
|---|---|
| **Tai** | *prif ofid ynglŷn â chynllunio ar gyfer angen yn hytrach na galw, a fforddiadwyaeth*<br><br>*angen rhagor o gysylltiad â pholisi cyflogaeth* |
| **Trafnidiaeth** | *teimlir bod materion problemus megis mynediad wael i drafnidiaeth yn dal ardaloedd gwledig yn ôl, ond ystyrir cymudo o'r wlad i'r dref yn broblem hefyd* |
| **Cyflogaeth** | *awydd am weld rhagor o amrywiaeth er mwyn helpu economïau gwledig 'gwan' a gwella ansawdd swyddi, swyddi ar gyfer pobl leol a ieuenctid*<br><br>*ond pryder hefyd ynglŷn â graddfa a 'diwydiannu' cefn gwlad* |
| **Dyfodol ffermio** | *pryder fawr, gyda chytundeb bras ynglŷn â'r angen am amrywiaeth addas* |
| **Twristiaeth** | *ond ar raddfa 'addas', nodweddiadol Gymreig, integredig ac â chysylltiad lleol cryf* |
| **Hamdden** | *hamdden yw'r prif gysylltiad â chefn gwlad*<br><br>*cefnogir ragor o gyfleon ar gyfer pobl leol, yn enwedig ar gyfer hamdden anffurfiol* |
| **Cefn gwlad leol** | *y math pwysicaf o gefn gwlad ond dim digon o gydnabyddiaeth i'r ffaith honno* |
| **Parciau Cenedlaethol / AoeddHNE** | *y mathau nesaf o gefn gwlad o ran pwysigrwydd* |
| **Strategaeth anheddiadau** | *dim cytundeb amlwg ynglŷn â'r lleoliadau addas ar gyfer yrhan fwyaf o'r datblygu* |
| **Datblygu cynaliadwy** | *angen rhagor o integreiddio a chanolbwyntio ar yr ardal leol* |
| **Cymunedau lleol** | *pryder ynglŷn â gwanhau cymunedau a diffyg cysylltiad rhwng y sector gyhoeddus a'r cymunedau* |
| **Yr iaith Gymraeg** | *pwnc pwysig ond anghytundeb ynglŷn â sut y dylid ymateb* |

6.140 Yn y bennod nesaf asesir y canfyddiadau cyhoeddus o safbwynt polisïau cynlllunio cyfredol ar gyfer cefn gwlad, ar lefel genedlaethol ac awdurdodau unedol.

# 7 CANLYNIADAU: POLISÏAU CYNLLUNIO AR GYFER CEFN GWLAD

## RHAGARWEINIAD

7.1 Mae dwy haen o bolisi cynllunio gwledig yng Nghymru – cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru 2002 - PCC) a atgyfnerthir gan Nodiadau Cyngor Technegol (neu TANs), a lleol (Cynlluniau Datblygu Unedol - CDU). Mae PCC yn gymharol newydd ac felly dim ond ar gymharol ychydig o 'r CauDU y bydd wedi dylanwadu gan bod llawer ohonynt wedi eu parato,i i gryn raddau, dan gyfarwyddid ei ragflaenydd (Polisi Cynllunio Cymru 1999). Fodd bynnag, trosglwyddwyd Illawer o elfennau PCC o'r cyfarwyddid cenedlaethol blaenorol.

7.2 TAN 6 Datblygu Amaethyddol a Gwledig yw'r ddogfen fwyaf perthnasol oherwydd ei phwyslais wledig, er bod TANs eraill megis 5, (Cadwraeth Natur), 13 (Twristiaeth), 16 (Chwaraeon a Hamdden) ac 18 (Trafnidiaeth) hefyd yn berthnasol oblegid eu bod yn ymdrin ag agweddau trefol a gwledig y pynciau polisi hyn.

7.3 Mae PCC yn gosod blaenoriaethau cynhwysfawr ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Y rhai ar gyfer ardaloedd gwledig yw:

- *cymunedau gwledig cynaliadwy a mynediad i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel;*
- *economi wledig ffyniannus ac amrywiol lle yr ategir gweithgareddau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth gan dwristiaeth gynaliadwy a mathau eraill ar gyflogaeth mewn cefn gwlad sy'n gweithio; a*
- *chefn gwlad deniadol a hygyrch gydag ecoleg gyfoethog lle caiff yr amgylchedd a'r bioamrywiaeth ei gadw a'i wella.* (2.4.4)

7.4 Pwysleisia'r sylwadau, sy'n cyd-fynd â'r rhestr hon, gymhlethdod adnoddau gwledig yng nghefn gwlad a'r angen felly am integreiddiad o safbwynt polisïau.

7.5 Yn ogystal, cyflwyna ddrafft ymgynghorol y ddogfen ddyfeisgar '*Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru*' (Medi 2003) y weledigaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yng Nghymru a'r fframwaith ar gyfer cyd-weithio a chyd-greu polisïau mewn modd mwy integredig ar draws ffiniau'r sectorau a'r swyddogaethau.

7.6 Mae polisi cenedlaethol yn rhoi trosolwg cenedlaethol o gefn gwlad, yn ei gyfanwaith, ac o safbwynt polisïau thematig megis tai, cyflogaeth a chadwraeth. Gan mai prif swyddogaeth cynllunio yw rheoli newid, mae'r polisi hwn yn rhagweld rhai newidiadau yng nghefn gwlad yn y dyfodol.

7.7 Mae'r hynny'n wir hefyd am bolisi cynllunio lleol. Disgwylir hefyd i bolisi lleol adlewyrchu polisi cenedlaethol a'i addasu ar gyfer amgylchiadau lleol.

7.8 Cymer yr adran hon ei phrif themâu o ganfyddiadau'r cyhoedd a'r budd-ddeiliaid o gefn gwlad, a'u cymharu â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol yng Nghymru, gan asesu a ddylid adolygu elfennau o'r polisi cynllunio.

## PYNCIAU HOLLGWMPASOG

### Cefn gwlad amlswyddogaethol, integreiddio polisïau

7.9 Un o faterion allweddol y canfyddiadau yw bod cefn gwlad yn amlswyddogaethol. Noda PPC hyn gan wneud y cysylltiad pwysig rhwng cefn gwlad amlswyddogaethol a'r angen am ymagwedd integredig tuag at bolisi.:

"Mae cefn gwlad yn gaffaeliad deinamig ac aml-bwrpas. Yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, rhaid cadw cefn gwlad, a'i wella lle y bo modd, er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archaeolegol ac amaethyddol ac am ei dirwedd a'i adnoddau naturiol, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen am warchod y nodweddion hyn ac anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden y cymunedau lleol ac ymwelwyr". (para 2.4.5)

"*Er mwyn gwireddu'r nodau a'r amcanion hyn, mae'n hanfodol bod polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gwbl integredig. Argymhellir bod strategaethau datblygu gwledig integredig yn cael eu paratoi*". (para 2.4.6., t17)

7.10 Mae hon yn agwedd weddol soffistigedig tuag at gynaliadwyedd ac amlddefnyddioldeb cefn gwlad, a does dim syndod nad yw meddylfryd o'r fath wedi treiddio i'r CauDU i unrhyw raddau, hyd yn hyn. Felly, mae polisi PCC yn parhau i fod rywfaint yn uchelgeisiol, yn rhannol am ei fod yn eithaf arloesol ac felly braidd yn anodd i'w weithredu'n lleol. Mae angen rhagor o arweiniad, ar fyrder, ynglŷn â sut y gellid gweithredu'r agenda hon, a gellild ei gynnwys, yn y dyfodol, mewn adolygiad o TAN 6.

### Unieithiad cryf â chefn gwlad, pryder mawr ynglŷn â gorddatblygu, ychydig iawn o newidiadau, gwarchod cefn gwlad agored

7.11 Mae'r clwstwr hwn o bynciau'n awgrymu'n gryf bod cytundeb ynglŷn â'r hen egwyddorion o warchod cefn gwlad er ei mwyn ei hun a pheidio datblygu cefn gwlad agored. Ychydig iawn o gefnogaeth oedd i'r syniad bod cynllunio yn orgaethiwus a'i fod yn rhwystro datblygiad yng nghefn gwlad, yn hytrach teimlwyd bod y gwrthwyneb yn wir, sef bod y duedd i ddatblygu, tai yn arbennig, yn ddylanwad ddinistriol o safbwynt amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol.

7.12 Adlewyrchir yr egwyddorion cynllunio grymus hyn yn PCC yn y drafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd treftadaeth naturiol. Nodir na chyfyngir yr egwyddorion hyn i ddynodiadau statudol ond yn hytrach eu bod yn ymestyn i ardaloedd trefol, cefn gwlad a'r arfodir:

*"Mae amgylcheddau deniadol ac ecolegol doreithiog yn bwysig, er eu lles eu hunain yn ogystal ag er iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd pobl a chymunedau. Mae bioamrywiaeth a thirwedd yn bwysig ym mywyd economaidd llawer o gymunedau ac mae ansawdd yr amgylchedd yn ystyriaeth bwysig yn aml wrth leoli busnesau". (para 5.1.1)*

7.13 Adlewyrchir pryderon o'r fath yn y CauDU hefyd. Nid ydynt, ar y cyfan, o blaid datblygu cefn gwlad agored. Mae hon yn egwyddor gynhaliol o safbwynt cynllunio gwledig yng Nghymru, ac fe'i chefnogir yn gryf gan dystiolaeth yr ymchwil. Ond hefyd, pwysig nodi nad yw'r ymdeimlad warchodol hon yn gorwedd yn gwbl esmwyth gydag agweddau eraill o'r ymatebion, sef yr angen am rai mathau o ddatblygiadau newydd.

7.14 Efallai felly mai'r teimlad amlycaf yw pwysigrwydd gwarchod cefn gwlad, ond gan hefyd dderbyn newid *angenrheidiol,* ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn y modd mwyaf sensitif posib.

### Maint a dyluniad addas

7.15 Unwaith eto, mae'r ffaith y dylai datblygu gwledig fod o faint a dyluniad addas ar gyfer ei amgylchfyd yn egwyddor sefydlog mewn polisi cynllunio ac fe'i hadlewyrchir yn effeithiol yn PCC ac yn y CauDU.

***Datblygu yng nghefn gwlad****…. Dylai pob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal o'i gwmpas a dylai fod ar raddfa a dyluniad priodol.* (para 2.5.7)

7.16 Fodd bynnag, mae nifer o sylwadau ar hyd ac ar led yr ymatebion sy'n awgrymu nad yw pob datblygiad yng nghefn gwlad o faint a dyluniad addas. Mae angen ymrwymiad ac astudiaeth bellach o hyn wrth weithredu'n lleol. Ystyrir proses gymeriadu LANDMAP, ynghyd â'r datganiadau o gynlluniau pentrefol, fel y prif ddulliau o weithredu hyn. Dylid croesgyferirio TAN 12 Dylunio yn fwy effeithiol â PCC a dylid rhoi rhagor o bwyslais ar ddyluniad adeiladau gwledig newydd a'u cyfraniad i dirwedd gwledig nodweddiadol Gymreig.

### Cynllunio ar gyfer anghenion sefydledig, polisi nodweddiadol leol

7.17 Er bod y syniad o gynllunio ar gyfer anghenion sefydledig yn cael ei ystyried gan amlaf yng nghyd-destun tai, teimlwyd bod angen cymhwyso hyn ymhellach ar gyfer pynciau megis cyflogaeth, twristiaeth a thrafnidiaeth. Roedd pryder amlwg nad oedd angen rhai datblygiadau gwledig diweddar, megis tai moethus na all y boblogaeth leol eu fforddio, neu swyddi a ffafriai fewnfudwyr yn hytrach na phobl leol.

7.18 Mae'r rhain yn amlwg yn bynciau dadleuol iawn mewn llawer o achosion. Lleisir pryder mawr y dyliai polisi fod yn well adlewyrchiad o'r ardal leol ac yn fwy sensitif i farn cymunedau lleol, a lleisir neges groch bod angen rhagor o wahaniaethu o ran polisi cynllunio gwledig.

7.19 Mae ymdriniaeth dda o'r materion hyn yn PCC, gan ei gwneud yn orfodol i Ran 1 o'r CauDU bennu:
*"mewn ardaloedd gwledig, strategaeth datblygu gwledig integredig ar gyfer datblygiadau newydd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac sydd wedi'u teilwrio ar gyfer asedau ac anghenion penodol yr ardal".* (para 7.5.1)

7.20 Efallai mai adlewyrchiad o newydd-deb PCC oedd y ffaith nad oedd fawr iawn o dystiolaeth o hyn yn y CauDU a astudiwyd. Yn wir, nodwyd mewn gwaith cynharach ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru[8] ddiffyg ystyriaeth o anghenion o'r fath a diffyg cyffredinol yn y defnydd o dystiolaeth benodol i gefnogi polisi cynllunio gwledig.
Cadarnhaodd y gweithdai cynllunio'r mai dyma'r sefyllfa, gan gadarnhau'r canfyddiad cyffredinol mai anaml y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi gwyro oddi wrth bolisi cenedlaethol. Yn wir, roedd ymdeimlad braidd yn ddigalon ymhlith y cynllunwyr mai eu cyfyngu mae PCC:

[8] Yr Economi Wledig a'r system Gynllunio (2002), LUC.

*Os yw'n ymddangos bod polisïau neu gynigion a geir mewn CynllunDatblygu Unedol drafft yn groes i arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar bolisïau cynllunio, ac os yw'n ymddangos nad yw amgylchiadau lleol yn eu cyfiawnhau, bydd y Cynulliad yn dod â hyn i sylw'r awdurdod cynllunio lleol ac, os oes angen, yn ymyrryd â phroses y cynllun drwy ei wrthwynebu neu drwy roi cyfarwyddyd i'w newid neu drwy alw i mewn y cynllun cyfan neu ran ohono. Byddai'r Cynulliad yn disgwyl na fyddai angen iddo ddefnyddio'i bwerau cyfarwyddo yn aml.* (para 3.1.6)

7.21 Felly, fe ymddengys bod gofid eang nad yw cynllunio gwledig yng Nghymru yn ymateb yn ddigonol i amgylchiadau lleol.

## MATERION YN DEILLIO O'R THEMÂU

### Tai

7.22 Pryder bod y math anghywir o dai – 'moethus' neu 'ddrudfawr' – yn cael eu hadeiladu ar hyd ac ar led cefn gwlad Cymru. Yn gysylltiedig â hyn mae'r teimlad y dylid yn hytrach, adeiladu tai fforddiadwy drwy'r hierarchiaeth aneddiadau, a hynny o ganlyniad i dystiolaeth o angen, yn hytrach na galw.

7.23 Mynegir deimladau cryfion ynglŷn â'r materion hyn, ac maent yn aml yn gysylltiedig materion erail sy'n ymwneud â newidiadau i gymunedau lleol megis 'mewnfudwyr', colli ieuenctid, cyfleon newydd ar gyfer swyddi ac effaith ar y diwylliant a'r iaith Gymraeg.

7.24 Rhoddir arweiniad manwl yn PPC ar ddatblygu tai, gan ffafrio agwedd integredig at ddarpariaeth wledig, a phwysleisio pwysigrwydd asesu'r angen am dai. Wrth drafod tai gwledig yn benodol meddir:

*"Wrth gynllunio ar gyfer tai mewn ardaloedd gwledig mae'n bwysig cydnabod y dylai datblygiad yng nghefn gwlad ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan fod o fudd i'r economi ac i gymunedau lleol tra'n cynnal yr amgylchedd a'i wella. Dylid cael dewis o dai, gan gydnabod anghenion pawb, gan gynnwys y rhai y mae arnynt angen tai fforddiadwy neu arbennig". (para 9.2.18)*

7.25 Pwysleisir hefyd yr angen am i strategaeth dai gwrdd ag amcanion cynaliadwyedd. Dylid canoli'r rhan fwyaf o'r datblygu newydd mewn aneddiadau mwy o ran maint a nodwyd yn y CauDU . Mae hon yn agwedd tuag at ddatblygu gwledig a sefydlwyd ers cryn amser yng Nghymru, yn enwedig o safbwynt tai, heblaw am safleoedd bychain o dai fforddiadwy ar gyfer gweithwyr amaethyddol a choedwigaeth. Felly, mae'n naturiol i'r strategaeth ddatblygu hon gael ei hadlewyrchu'n gryf yn y CauDU .

7.26 Mae barn gyhoeddus amlwg sy'n galw am symudiad o ran polisi tuag at dai fforddiadwy a thai i gwrdd ag anghenion lleol cydnabyddedig, sy'n egwyddor a ymddengys i fod wedi dioddef, ers cryn amser, ar draul mathau eraill o ddatblygiadau tai. O'r herwydd, mae awydd amlwg am weld llai o adeiladu tai anfforddiadwy.

7.27 Eto, gellid dadlau bod cryn dipyn o bolisi defnyddiol yn bodoli eisoes, ond fe ymddengys bod canlyniadau polisi o'r fath yn llai boddhaol. Mae hyn oherwydd na all cynllunio, ar ei liwt ei hun, sicrhau tai fforddiadwy,yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae problemau fforddiadwyedd yn aml yn fwy amlwg a ble mae llai o

safleoedd datblygu mawrion.  Gall hyn ddigwydd yn unig ar y cyd ag arian cyhoeddus neu bartneriaethau preifat.

7.28 Trafodwyd y materion hyn yn hirfaith yn y gweithdai ar gyfer cynllunwyr. Roedd teimlad amlwg y dylid rhoi rhagor o ryddid i gynllunwyr lleol a chymunedau i archwilio dulliau mwy radical o ddatrys problemau cynllunio ynglŷn â diffyg tai fforddiadwy a thai i gwrdd ag anghenion lleol y Gymru wledig.  Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol eisoes yn ceisio targedu eu polisïau tai yn fwy penodol at anghenion lleol, ond heb, ar hyn o bryd, gefnogaeth lawn Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Cytunwyd hefyd nad oedd yr iaith Gymraeg  a thai fforddiadwy yn gyfystyr â'i gilydd, er gwaetha'r ffaith bod cysylltiad aml rhwng y ddau fater, ac  felly y dylai cynllunio ofalu peidio â drysu'r ddau fater, er eu bod yn aml yn cyd-ddigwydd.

### Trafnidiaeth

7.29 Dengys y canlyniadau anfodlonrwydd helaeth gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat yng nghefn gwlad.  Teimlwyd eu bod yn annigonol ac nad oeddent wedi eu hanelu at gefn gwlad yn ddigon penodol.  Cwynwyd hefyd am ddylanwad ardaloedd trefol cyfagos, a phellach, fel mannau gwaith ar gyfer preswylwyr gwledig.

7.30 Fe ymddengys bod problem trafnidiaeth yn ffon ddwybig ac na all cynllunio'n unig ei datrys.  Dylanwadu ar ddosbarthiad datblygiadau newydd yn unig mae cynllunio.  Nid yw'n aml yn darparu rhwydwaith drafnidiaeth newydd na rheolaeth dros rwydwaith sy'n bodoli eisoes.  Mynegir pryder amlwg ynglŷn â'r ffaith mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â chfrifoldeb lwyr dros briffyrdd, tra bo'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am weddill y rhwydwaith ffyrdd.  Amlygwyd ymdeimlad bod trigolion lleol yn cael eu dieithrio o benderfyniadau trafnidiaeth, er gwaetha'r ffaith y gallant gael effeithiau gofodol pellgyrhaeddol.

7.31 O'r herwydd, mae PCC a'r CauDU  yn gefnogol iawn i leoliad datblygiadau gwledig newydd, mewn mannau sy'n hygyrch drwy ddulliau heblaw am geir preifat. Gelwir y rhain, yn PCC, yn *ganolfannau gwasanaeth lleol*.  Fodd bynnag, gellir dadlau bod lleihad mewn gwasanaethau gwledig a chynnydd mewn cymudo yn arwydd o ragor o ddefnydd o geir yn y Gymru wledig.  Dylanwad cymhedrol yn unig all darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ei chael ar y sefyllfa, ac ni all gynllunio ychwaith ddylanwadu ar sut a faint o ddefnydd wna'r boblogaeth o drafnidiaeth gyhoeddus nac ychwaith ar sut y maent yn teithio i'w gwaith.

7.32 Felly, ni all gynllunio ddatrys lawer o'r materion hyn yn uniongyrchol.  Gall polisïau integredig, wedi'u hanelu at gefn gwlad yn benodol ac wedi'u sylfaenu ar dystiolaeth wirioneddol o angen, gwrdd ag anghenion yr agenda gynaliadwyedd ehangach, ond mae'r materion ymhell o fod yn hawdd eu datrys.  Mae cydgyswllt agos rhwng Strategaethau Cymunedol, Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a gwaith cynllunio yn hollbwysig.  Ond mae hefyd yn bwysig cydnabod sefyllfa wirioneddol trafnidiaeth yng nghefn gwlad fel bod polisi'n ymwneud â'r defnydd o geir yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus.

### Cyflogaeth a dyfodol ffermio

7.33 Mae'r materion hyn ynghlwm â'u gilydd ac fe ystyrir arallgyfeirio fel modd pwysig o gynnal amaethyddiaeth ac o fod o gymorth i economïau lleol gwan neu dan anfantais, yn y dyfodol. Pwysleisir yn arbennig, yr angen am ddarparu rhagor o swyddi addas ar gyfer y 'bobl leol' a phobl ifainc.  Ond gwrthbwysir y sylwadau hyn gan ofidiadu ynglŷn â diwydiannu cefn gwlad ac effaith cymudo o'r wlad i'r dref.

7.34 Nid yw'r rhain yn broblemau unigryw i Gymru, ond mae ardaloedd enfawr o Gymru yn wledig ac felly ceir canllawiau manwl yn PCC ar yr economi wledig, gan bwysleisio'n gryf yr angen am *strategaethau integredig ar gyfer datblygu economaidd* fel fframwaith ar gyfer datblygu *diwydiannau gwledig traddodiadol* a *mentrau newydd* yn y dyfodol.

Noda PCC hefyd bod

" *busnesau newydd mewn ardaloedd gwledig yn holl bwysig er mwyn cynnal a gwella cymunedau gwledig, ond anaml y bydd datblygiadau sydd ond yn cynnig enillion economaidd tymor byr yn dderbyniol*". (para 7.3.1)

7.35 Mae'r mwyafrif o'r datblygiadau masnachol i'w lleoli mewn *aneddiadau sy'n bodoli eisoes heblaw am arallgyfeirio ar ffermydd a dylid ei ystyried, p'un ai yw'r ffermydd yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus ai peidio.*

7.36 Gwnaethpwyd astudiaeth ddiweddar ar yr economi wledig a'r gyfundrefn gynllunio yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru[9]. Dengys y canlyniadau bod cynllunio, ar y cyfan, yn croesawu datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, ond ei fod yn rhy adweithiol ei naws. Er mwyn cynnig rhagor o gynhaliaeth weithredol, roedd angen agwedd fwy integredig, yn genedlaethol ac yn lleol, gyda pholisi lleol wedi'i wreiddio'n ddyfnach yn anghenion a sefyllfa'r ardal leol.

7.37 Pan gynhaliwyd yr arolwg hwn roedd PCC yn ei fabandod ac ni ellir bod wedi disgwyl i'w bolisïau ffres fod wedi treiddio i'r CauDU .

7.38 Ond mae cefnogaeth ar gyfer arallgyfeirio gwledig ac ar ffermydd yn egwyddorion sefydliedig ac, fel y gellid ei ddisgwyl, fe'u hystyrir yn eang yn y CauDU. Roedd y siroedd mwy gwledig yn amlwg yn cydnabod yr angen am arallgyfeirio sylfaen yr economi wledig, tra bo'r awdurdodau trefol yn wynebu casgliad gwahanol o faterion; pwysau datblygu ar gyrion trefol ac yn yr ardaloedd gwledig cyfagos, ac ymdoddiad aneddiadau.

> Drafft Adneuo Castell-Nedd a Phort Talbot: Polisi 9 (Rhan 1 PCC)
>
> *"Bydd arallgyfeirio a chryfhau'r economi leol yn cael eu hannog. Gosodir pwyslais ar gynorthwyo ffermydd i arallgyfeirio, cynigion sy'n ymwneud â thwristiaeth, cynorthwyo mentrau bach a chanolig eu maint i gael eu creu a thyfu, yn arbennig y rheiny sy'n ceisio hybu cynhwysiad cymdeithasol ac arferion mwy amgylcheddol gynaliadwy"*

7.39 Gwelwyd yn yr arolwg hwn mai peth prin iawn oedd unrhyw dystiolaeth o agwedd integredig at ddatblygu economaidd gwledig. Yn syml iawn, nid yw strategaethau datblygu economaidd integredig yn cael eu gweithredu. O'r herwydd, mae problemau o ehangu'n sylweddol gyfraniad cynllunio i ddatblygu economaidd gwledig, yn dal i fod.

### Twristiaeth a hamdden

7.40 Mae'r canlyniadau'n ddiddorol o safbwynt twristiaeth cefn gwlad a hamdden. Mae'n amlwg y cydnabyddir y ddau fater fel elfennau pwysig yng nghefn gwlad Cymru, ond mae pryderon am y ffaith y dylai datblygiadau twristiaeth y dyfodol fod yn fwy sensitif, o ran lleoliad a'r cyd-destun Cymreig, yn fwy cysylltiedig â chymunedau lleol ac wedi'u hintegreiddio'n fwy effeithiol â gweddill yr economi wledig.

[9] Yr Economi Wledig a'r system gynllunio, LUC et al, 2002

7.41 Mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r trigolion yn gweld cysylltiad cryf a phwysig rhwng hamdden a chefn gwlad Cymru. Fodd bynnag, maent hefyd yn gofidio bod cyfleon hamdden ar gyfer y boblogaeth *leol* yn annigonol, yn enwedig ar gyfer hamddena anffurfiol. Yn arwyddocaol, cymharol ychydig o sylwadau ynglŷn â hamddena yng nghefn gwlad a wneir yn PCC ac mae posibiliadau amlwg ar gyfer unioni hyn pan ddiwygir y ddogfen yn y dyfodol.

7.42 Fodd bynnag, noda PCC bod twristiaeth yn arbennig o bwysig i ardaloedd gwledig ac arfordirol Cymru, ac yn rhan sylweddol o economi Cymru, ac o'r herwydd y dylid:

- *"hybu twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru, gan ddefnyddio i'r eithaf ei manteision economaidd a chyflogaeth, gan hyrwyddo twristiaeth ym mhob tymor ac annog ei datblygu mewn cyrchfannau anhraddodiadol, gan ddiogelu'r amgylchedd, a buddiannau cymunedau lleol; a*
- *rheoli'r newid yn y sector twristiaeth mewn ffyrdd sy'n parchu integriti'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol i ddarparu ar gyfer twf economaidd, cyflogaeth a gwarchod yr amgylchedd".* (para11.1.2)

7.43 Yn yr un modd, nodir bod chwaraeon a hamdden yn cyfrannu at les y boblogaeth ac mai nod y polisi yw:

- "*rhwydweithiau o gyfleusterau a mannau agored mewn mannau sy'n cael eu gwasanaethau'n dda gan ddulliau cynaliadwy o deithio, yn enwedig oddi mewn i'n hardaloedd trefol;*
- *cynhwysiant cymdeithasol, gwell iechyd a lles drwy sicrhau mynediad hwylus i bawb, gan gynnwys yr henoed a phobl ag anableddau, i gyfleusterau o ansawdd a dyluniad da a mannau agored".(*para 11.1.3)

7.44 Yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir dylai twristiaeth, chwaraeon ac adnoddau hamdden fod yn hygyrch drwy amrywiol ddulliau o deithio, ond yn fwyaf arbennig ar droed, ar feic neu drafnidiaeth gyhoeddus.

7.45 Mae twristiaeth gynaliadwy hefyd yn thema amlwg yn y CauDU, ac yn gysylltiedig â diogelu a chadw'r amgylchfyd, yn enwedig yn yr ardaloedd sy'n draddodiadol yn derbyn llawer iawn o ymwelwyr.

7.46 Mewn rhai CauDU mae cefnogaeth i fentrau twristiaeth newydd wedi'i sylfaenu ar gysylltiadau â threftadaeth diwylliannol neu hanesyddol, drwy ddatblygiadau twristiaeth cynaliadwy. Mae CauDU Sir Ddinbych, Powys a Chastell-Nedd a Phort Talbot i gyd yn cynnwys polisïau i adfer a defnyddio camlesi lleol ar gyfer twristiaeth a hamdden. Mae'r cysylltiad â phroblem ehangach adfywio economaidd yn bwysig ac i'w groesawu.

7.47 Ar y cyfan, mae datblygiadau twristiaeth wledig yn digwydd yn y prif aneddiadau, ar wahân i fentrau arallgyferirio ar ffermydd sy'n digwydd yn y gefn gwlad agored. Gan amlaf mewn achosion o'r fath, disgwylir i'r cynlluniau fod yn eilradd neu'n ychwanegol i brif waith y fferm.

7.48 Fodd bynnag, nid yw rhai elfennau o'r casgliadau sef, y dylai datblygiadau twristiaeth newydd gael eu integreiddio'n well, fod yn gysylltiedig â chymunedau neu'n amlwg yn cynnal economi'r tir yn yr ardal, yn cael eu mynegi'n effeithiol yn y PCC na'r CauDU.

7.49 Mae darpariaeth adnoddau hamdden yn hen ofid cynllunio, ac o'r herwydd mae'n cael ei drin yn eang gan y Cynllniau Datblygu Unedol. Ond ni adlewyrchir yr awydd am well cyfleon ar gyfer hamddena anffurfiol ar gyfer bobl leol, a ddatgelir gan yr arolwg, yn effeithiol gan naill ai'r PCC na'r Cynlluniau Datblygu Unedol.

7.50 Gyda'r broblem hon unwaith eto, byddai'n annheg canolbwyntio ar gynllunio gan mai dim ond ambell dro mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau hamdden anffurfiol. Serch hynny, mae pobl lleol yn galw am agwedd fwy lleol tuag at hamdden a disgwylir i gynllunio fod yn rhan o'r ymateb hwnnw.

7.51 Cydnabyddir hyn ym mharagraff 3.1.6 o PCC pan ddywedir y gall bod gwrthdaro rhwng polisïau lleol os yw amgylchiadau lleol yn cyfiawnhau hynny.

CDU Abertawe Drafft Ymgynghorol: Polisi HC35

*"Bydd cyfleoedd hamddena anffurfiol yng nghefn gwlad ac o fewn cyfundrefn tir glas trefol yn cael ei hyrwyddo os*

1. *Na fyddai unrhyw niwed i gymeriad nac ymddangosiad yr ardal wledig neu dir glas trefol;*
2. *Na fyddai unrhyw golled o ran darpariaeth yng nghefn gwlad ar gyfer pobl leol, nac i fwynhad defnyddwyr eraill; ac*
3. *Na fyddai unrhyw niwed i safleoedd pwysig o safbwynt gwarchodaeth natur neu o bwysigrwydd o safbwynt archeolegol neu hanesyddol.*

*Dylid ceisio gwella hygyrchedd ardaloedd o'r fath drwy ddatblygu neu ymestyn rhwydweithiau teithio diogel, cyfleus a deniadol."*

**Cefn gwlad leol, y Parciau Cenedlaethol ac AoeddHNE**

7.52 Datgela'r arolwg bwysigrwydd cefn gwlad leol i boblogaeth Cymru. Mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AoeddHNE yn bwysig hefyd, ond i raddau llai.

7.53 Fe ymddengys felly, bod deuoliaeth yn bodoli o safbwynt y mwyafrif o boblogaeth Cymru – h.y. y rhai sy'n byw y tu allan i'r tri pharc a'r pump AHNE. Mae'r PCC a'r Cynllniau Datblygu Unedol yn amddiffyn y Parciau Cenedlaethol a'r AoeddHNE i'r eithaf. Amddifynnir hefyd safleoedd o bwysigrwydd o ran bioamrywioaeth a gwarchodaeth natur.

7.54 Cyferbynnir hyn â gweddill cefn gwlad sydd heb ei dynodi ac felly sydd ddim yn deilwng o unrhyw warchodaeth arbennig, er bod PCC yn annog dynodiadau lleol megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Er nad ystyrir rhain yn foddau o warchod:

"*Gall dynodiadau anstatudol lleol ychwanegu gwerth at y broses gynllunio, yn enwedig os oes lle ynddynt i gyfranogiad cymunedol ac os ydynt yn adlewyrchu gwerthoedd cymunedol*". (para 5.3.11)

7.55 Fodd bynnag, mae'r materion a grybwyllwyd yn ymestyn ymhellach na'r dynodiadau yn unig. Mae persbectif yn hollbwysig. Am ddegawdau mae cynllunio wedi canolbwyntio ar amddiffyn a gwella'r tirweddau gorau oll – y tirweddau dynodedig. Dengys yr ymchwil bod poblogaeth Cymru yn gwerthfawrogi'r tirweddau mwy 'arferol', lleol, gymaint â'r dynodiadau. Ond er hyn, nid yw cynllunio'n rhoi'r un gwerth â'r cyhoedd ar yr ardaloedd hyn, gan eu gadael yn fwy agored i ddatblygu, yn enwedig o gwmpas aneddiadau mwy. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae astudiaethau LANDMAP o nodweddion tirweddau yn asesiadau hollbwysig y gellid eu

defnyddio er mwyn amddiffyn y priodoleddau cynhenid sy'n ffurfio cymeriad ardal. Bydd agwedd amlhaenog tuag at asesu tirwedd yn gwella polisi cynllunio'r dyfodol.

7.56 Mae'r problemau'r *cyrion trefol* yn dod yn fwyfwy amlwg o safbwynt cynllunio. Awgryma'r arolwg bod angen ailedrych mewn termau ehangach ar werth, a'r defnydd a wneir o'r gefn gwlad leol gan ei fod yn crisialu ystod o faterion problemus, megis hamdden, gorddatblygu a dyfodol ffermio.

7.57 Ni ddylai hyn fychanu mewn unrhyw fodd, bwysigrwydd haeddiannol y Parciau Cenedlaethol a'r AoeddHNA, ond yn hytrach, ychwanegu dimensiwn pellach i'r ffordd integredig o ymdrîn â pholisi cefn gwlad Cymru.

## Strategaeth aneddiadau

7.58 Ychydig iawn o gefnogaeth a welir yn yr ymchwil i'r rhan fwyaf o fathau o ddatblygiadau yng nghefn gwlad agored, neu i aneddiadau newydd. Ond y tu hwnt i hyn, mae safbwyntiau amrywiol ynglŷn ag a ddylid caniatáu datblygiadau tai a datblygu economaidd mewn aneddiadau mwy, aneddiadau llai a phentrefi bychain. Yn arwyddocaol, mae gan Gymru batrwm amrywiol iawn o aneddiadau ac o'r herwydd bydd y 'posibiliadau'a'r 'anghenion' yn amrywio.

7.59 Gosodir strategaeth gyfarwydd gan PCC ar gyfer datblygu gwledig. Dylai *adeiladu newydd yng nghefn gwlad agored*, oddi wrth aneddiadau sydd eisoes yn bod neu ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer datblygu, gael ei *reoli'n llym*, tra bo estyniadau bychain a llenwi mewn i'w caniatâu o fewn aneddiadau sy'n bodoli eisoes. Felly, mae angen i awdurdodau cynllunio lleol astudio nifer o ffactorau wrth greu eu polisïau a'u hargymhellion ar gyfer neilltuo tir:

- "*hybu patrymau cynaliadwy o ddatblygu, clustnodi tir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen, a mannau y gellir eu datblygu'n fwy dwys ar ganolbwyntiau a chyfnewidfeydd ac yn agos at goridorau llwybrau lle y gellir cael mynediad da ar droed ac ar feic a lle ceir trafnidiaeth gyhoeddus dda;*
- *cynnal a gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi, pentrefi, broydd ac ardaloedd lleol;*
- *meithrin dulliau o ddatblygu sy'n cydnabod y cyd-ddibyniaeth rhwng gwlad a thref, gan wella'r cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a'r cefn gwlad sydd o'u cwmpas.*" (para 2.5.2, t17)

7.60 Pwysleisir hefyd bwysigrwydd parchu amrywiaeth leol a gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau lleol.

7.61 Ystyrir gwarchod tir agored o gwmpas trefi a dinasoedd Cymru yn hollbwysig gan PCC, ac annogir awdurdodau cynllunio i ystyried sefydlu lleiniau a lletemau gwyrddion er mwyn:

- *"cynnig cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad agored;*
- *cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a gweithgareddau hamdden awyr agored;*
- *cadw nodweddion diddorol o ran tirwedd/bywyd gwyllt;*
- *cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, a dibenion perthynol; a,*
- *gwella tir diffaith." (para 2.6.2)*

7.62 Mae PCC hefyd yn datgan fod aneddiadau newydd ar safleoedd maes glas "*yn anhebygol o fod yn briodol yng Nghymru*" (para 9.2.13, t 103) ac na ddylent gael

eu hargymell oni bai bod manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn dod yn eu sgîl.

7.63 Mae agwedd hierarchaidd o'r fath, tuag ar gynllunio aneddiadau gwledig yn bodoli ers degawdau ac yn cael ei adlewyrchu'n drwyadl yn y Cynllniau Datblygu Unedol.

7.64 Gan ystyried PCC a'r Cynllniau Datblygu Unedol, mae casgliadau'r arolwg yn cwestiynu'r ffocws eang a roddir ar aneddiadau mawr ar gyfer y mwyafrif o ddatblygu newydd.

7.65 Ychwanega'r canlyniadau a drafodwyd uchod, yn enwedig ynglŷn â thai a datblygu cyflogaeth, ddimensiwn ychwanegol yma. Mae'r awydd i weld datblygu newydd yn cwrdd â'r anghenion sy'n bodoli, ac i beidio ag achosi newidiadau er gwaeth, yn awgrymu angen am agwedd bolisi wahanol. Mae angen i bolisi ar gyfer anghenion datblygu newydd fod wedi'i drwytho mewn dealltwriaeth fanwl o anghenion lleol, ac felly, i fod yn fwy gwahaniaethol. Mae PCC 3.1.6.yn cydnabod bod posibiliadau ar gyfer gwahaniaethu o'r fath, ond mae'r cynllunwyr yn dueddol o ystyried gwyro oddi wrtho fel achlysuron eithriadol.

7.66 Cam rhesymegol ymlaen yw awgrymu y byddai cyd-weithio nes gyda chymunedau lleol ynglŷn â'u blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau newydd, o gymorth mawr i agwedd newydd o'r fath. Byddai hefyd yn fodd o ddatrys peth o'r amwysedd sydd yng nghanfyddiadau'r arolwg. Fe ymddengys mai adeiladu ar fodel y strategaeth gymunedol fyddai fwyaf effeithiol.

Drafft Adneuo CDU Sir y Fflint: Lleoliad Datblygu

*creu patrwm anheddiad cynaliadwy yn ôl yr hwn y bydd:*

*1. y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio i'r prif drefi (aneddiadau categori A sydd ă band potensial dangosol i dyfu o 10% - 20%) sydd ag isadeiledd, swyddi a gwasanaethau cyfredol, yn atebol i gyfyngiadau amgylcheddol a rhai eraill.*

*2. datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio i'r pentrefi lled-drefol hynny (aneddiadau categori B ă band potensial dangosol I dyfu o 8% - 15%) sydd ă chyfleusterau, swyddi a gwasanaethau cyfredol, yn atebal i gyfyngiadau amgylcheddol a rhai eraill.*

*3. tai newydd yn cael eu cyfyngu mewn pentrefi gwledig (aneddiadau category C sydd ă band potensial dangosol i dyfu o 10% ar y mwyaf) oherwydd y diffyg cyffredinol mewn cyfleusterau, swyddi a gwasanaethau cyfredol a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill.*

### Datblygu cynaliadwy a chymunedau lleol

7.67 Awgryma ganfyddiadau'r arolwg nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol eto'n deall ystyr y term "datblygu cynaliadwy". Er hynny, mae sylwadau'r cyhoedd yn cyfleu egwyddorion cyffredinol y term gan adlewyrchu'r galw am ddatblygu integredig ar sail 'angen' a'r 'gallu i ddarparu'. Yn ogystal mae'r pwyslais ar ardal fel y 'lle' y dylai datblygu cynaliadwy fod o bwys, yn hynod o arwyddocaol.

7.68 Mae cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd yn thema bwysig yn PCC. Yn ôl PCC, mae gan y gyfundrefn gynllunio rôl sylfaenol i'w chwarae wrth ddarparu cynaliadwyedd economaidd yng Nghymru. Gosodir naw egwyddor a 18 amcan ar gyfer cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yna'n cael ei wau fel thema strwythurol drwy'r ddogfen.

7.69 Mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn ganolog am gyfnod digon hir i'r Cynllniau Datblygu Unedol i gyd roi'r sylw haeddiannol iddo. Mae datblygu cynaliadwy yn thema amlwg yn y naw CDU astudiwyd. Mae fersiynau o ddiffiniad 1987 Brundtland yn gyffredin ac mae pedair amcan y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy yn cael eu hailadrodd yn rheolaidd[10].

7.70 Croesgyfeirir hefyd at strategaethau eraill a baratowyd gan awdurdodau megis Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, Strategaethau Cefn Gwlad a Strategaethau Datblygu Economaidd a Strategaethau Cymunedol.

7.71 Fodd bynnag, hyd yn hyn, ni ymddangosodd dadansoddiad manwl o *ystyr* cynaliadwyedd ar gyfer ardal arbennig, ac felly, pa swyddogaethau, mewn cefn gwlad amlswyddogaethol y dylai'r gyfundrefn gynllunio eu cynnal, yn y Cynllniau

[10] Dywed y diffiniad y dylai datblygu cynaliadwy gwrdd â'r anghenion presennol heb fygwth gallu cenedlaethau'r dyfodol I gwrdd â'u hangenion eu hunain, Comisiwn Bydeang ar yr Amgylchedd a Datblygu (1987) *Our Common Future*; Gwasg Prifysgol Rhydychen

Datblygu Unedol, Yn yr un modd, ni welwyd unrhyw strategaethau datblygu integredig.

7.72 Gwir brawf ar ddatblygu cynaliadwy yw a ellir cau'r gagendor sy'n bodoli rhwng siarad a gweithredu. Nid beirniadu polisi oedd y mwyafrif o'r sylwadau a gafwyd ond yn hytrach, alw am weithredu polisi mewn modd mwy effeithiol drwy integreiddiad ac ymrwymiad cyhoeddus, ac am ragor o weithredu, neu dystiolaeth o ymgeisio tuag at ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig yn lleol.

7.73 Gellir dadlau nad yw PCC na'r Cynlluniau Datblygu Unedol o gymorth mawr gan nad ydynt yn diffinio ystyr datblygu cynaliadwy ar gyfer gwahanol ardaloedd. Fe ymddengys bod galw am y manylder hyn ond mae'n amlwg iawn ei fod yn absennol ar hyn o bryd.

7.74 Mae'r materion hyn hefyd yn berthnasol i'r gofid rheolaidd yng nghanfyddiadau'r arolwg bod cymunedau lleol yn crebachu a bod y sector gyhoeddus yn colli cysylltiad â nhw. Unwaith eto mae problemau tai yn ganolog i'r gofidiau, ond maent yn ymestyn hefyd i gyflogaeth, trafnidiaeth, darpariaeth gwasanaethau a materion mwy anniddorol megis sbwriel a dympio. Mae 'cynaliadwyedd' hefyd yn hel ynghyd a cheisio datrys casgliadau anodd o faterion, fel y rhain, drwy ganolbwyntio ar ddyfodol cymunedau unigol.

7.75 Mae'r broses Strategaeth Gymunedol eisoes yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau, ac yn rhagweld cysylltiadau clòs gyda chynllunio. Ond nid oedd tystiolaeth o'r prosesau hyn, ac yn arbennig, o gysylltiadau â chynllunio, yn amlwg iawn yng nghanfyddiadau'r arolwg, gan gynnwys y sesiynnau gweledigaethu cymunedol a'r gweithdai ar gyfer cynllunwyr a gynhaliwyd yn ystod yr arolwg.

7.76 Felly, fe ymddengys bod yr angen am gysylltu'n fwy effeithiol gyda chynaliadwyedd leol, a gwell cyfuniad o bolisi a gweithredu, yn elfennau hollbwysig o gynllunio ar gyfer datblygu gwledig cynaliadwy yng Nghymru.

7.77 Diddorol oedd sylwi, pan drafodwyd y syniadau hyn gyda'r cynllunwyr yn y gweithdai i gynllllunwyr eu bod, yn gyffredinol, yn barod i dderbyn polisïau cynllunio mwy lleol eu tarddiad, ynghyd â gwell cysylltiad gyda chymunedau lleol. Awgrymwyd a chafwyd cefnogaeth gref i'r syniad o hel ynghyd eu henillion cynllunio er mwyn cefnogi agweddau eraill heblaw am y defnydd o dir mewn cymunedau lleol.

### Yr Iaith Gymraeg

7.78 Cafwyd cymysgedd o sylwadau ar y pwnc hwn, er bod cytyndeb ei fod yn bwnc pwysig. Roedd y farn yn amrywio o'r rhai a gredai y dylai'r iaith fod yn ystyriaeth gyntaf wrth drafod datblygu gwledig, i awgrymiadau bod gwarchodaeth orfrwdfrydig o'r iaith yn llethu datblygiad.

7.79 Ynglŷn â chyswllt y gyfundrefn gynllunio â'r iaith Gymraeg, noda PCC:

*"Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Bydd lles yr iaith yn y dyfodol ledled Cymru yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio'r defnydd o dir gymryd i ystyriaeth anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny gall gyfrannu at ei lles."* (para 2.10.1)

7.80 Rhoddir cyngor mwy manwl yn TAN 20. Mae'r CauDU yn adlewyrchu'r pryderon cyffredinol hyn.

> Drafft Adneuo CDU Eryri: Polisi PS4 a PC1
>
> *"Gwarchodir natur gynhenid yr adnoddau naturiol, y dreftadaeth ddiwylliannol a nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Eryri*

7.81 Ni amlygwyd y berthynas benodol rhwng yr iaith Gymraeg a chynllunio yng nghanfyddiadau'r cyhoedd ynglŷn â chefn gwlad. Felly rhoddwyd sylw penodol i'r ystyriaethau hyn yn y gweithdai ar gyfer cynllunwyr.

7.82 Cytunwyd er bod hwn yn fater gweddol hawdd i'w adnabod, bod ei ddatrys lawer anos. Pwysleisiwyd hefyd nad oedd diwylliant gwledig Cymru a'r iaith Gymraeg o angenrhaid yn gyfystyr â'i gilydd. Pwysleiswyd yn ogystal nad oedd posib bob amser gyfnewid diwylliant gwledig Cymreig a'r iaith Gymraeg.

7.83 Mynegwyd bryder hefyd nad yw cynllunio lleol yn cael digon o gyfle na hyblygrwydd er mwyn ceisio datrys y problemau hyn. Roeddent yn rhan annatod o hynodrwydd leol ac roedd polisi rhy gaeth, o'r top lawr, yn ei gwneud yn anodd datrys y problemau'n fwy boddhaol. Crybwyllwyd tai hefyd yn y cyd-destun hwn. Ond mae'r canfyddiadau hyn yn tueddu i wrthddweud canfyddiadau arolwg ar Ail Gartrefi a gynhalwyd gan Goleg Prifysgol Llundain (2002).

## CRYNODEB

7.84 Dengys yr arolwg bod cefnogaeth gyffredinol i bolisïau cefn gwlad mwy soffistigedig y PCC diwygiedig, diweddar, ynghyd â'i ofid canolog ynghylch datblygu cynaliadwy a gwarchod cefn gwlad. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd bod disgwyl i gynllunio gyflawni mwy na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ni all cynllunio'n unig ddatrys yr holl broblemau hyn, ac mae angen rhagor o integreiddiad sector gyhoeddus. Mae cefnogaeth gref i ran mwy amlwg i gynllunio yng nghefn gwlad Cymru.

### Cefnogaeth i bolisi sy'n bodoli eisoes

7.85 Cefnogir yn frwd safiad polisi cynllunio ar warchod cefn gwlad rhag effaith datblygu. Cefnogir hefyd y ffaith fod y Parciau Cenedlaethol a'r AoeddHNE yn cael eu gwarchod i'r graddau eithhaf posibl. Felly hefyd y polisi sefydledig y dylai datblygu newydd mewn ardaloedd gwledig fod o faint a dyluniad addas.

7.86 Rhoddir gefnogaeth amodol yn unig i elfennau eraill o bolisi presennol. Cefnogir bolisïau ar gyfer arallgyfeiriad gwledig ac ar ffermydd, ond mae awydd mawr i weld y gyfundrefn gynllunio'n ymddwyn mewn modd mwy gweithredol, ac yn fwy lleol ac integredig.

7.87 Yn yr un modd, gwelwyd gefnogaeth gyffredinol i bolisi ar gyfer twristiaeth a hamdden, ond bod angen ei wella drwy roi rhagor o bwyslais ar dwristiaeth werdd a gwella'r cyfleon ar gyfer hamdden anffurfiol i bobl leol. Unwaith eto, mae'r ddwy elfen yma yn galw am ragor o integreiddiad rhwng cynllunio a gweithgaredd sector gyhoeddus.

7.88 Mae cefnogaeth hefyd i'r agwedd gyfredol tuag at strategaeth aneddiadau – yn arbennig o safbwynt cyfyngu ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored ac aneddiadau newydd. Ond, unwaith eto, mae galw am i bolisi fod wedi'i wahaniaethu'n lleol ac yn fwy cysylltiedig ag anghenion lleol.

7.89 Cefnogir hynny o bolisi cynllunio ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig sy'n bod. Ond cred rhai y dylai fynd ymhellach ac y dylid caniatâu rhagor o amrywiaeth leol. Mae angen canllawiau cenedlaethol mwy cyflawn ar y materion hyn.

**Her i'r polisi sy'n bodoli eisioes**

7.90 O ganlyniad i'w safiad gyffredinol amddifynnol fe ymddengys bod polisi cynllunio, ar y naill llaw, yn adlewyrchu gofidiau cyhoeddus ynglŷn â gorddatblygu cefn gwlad, tra ar yr un pryd yn galw am ystod o ddatblygiadau angenrheidiol, yn seiliedig ar anghenion.

7.91 Mae angen i gynllunio Cymreig ddod o hyd i ffordd o ddatrys y tensiynau hyn. Gall y diddordeb mewn polisi mwy nodweddiadol leol fod yn un ffordd ymlaen. Fe ymddengys, yn hytrach na dibynnu ar bolisïau canolog, gorbenodol, y dylid ystyried rhoi pwyslais ar atebion lleol i gwrdd ag anghenion lleol, gan wneud y cymunedau lleol yn rhan o'r broses.

7.92 Mae canfyddiadau'r arolwg ynglŷn â thai yn gosod her amlwg i bolisi cenedlaethol. Dylid addasu pwyslais y polisi er mwyn cynyddu pwysigrwydd a chefnogaeth benodol i dai i gwrdd ag anghenion lleol, gan gynnwys tai fforddiadwy, a hynny ar sail tystiolaeth gadarn. I'r gwrthwyneb, ni ddylid cefnogi tai nad ydynt yn cyfateb ag anghenion lleol, mewn ardaloedd gwledig. Felly, dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn fwy penodol wrth gyfiawnhau'r "mathau" o dai sydd eu hangen. Gymaint yw'r ymateb i'r materion hyn, teg fyddai awgrymu y dylid dyrchafu pwnc tai i gwrdd ag anghenion lleol i fod yn flaenoriaeth mwy benodol mewn datblygu gwledig.

7.93 Mae trafnidiaeth yn bwnc problemus. Unwaith eto, mae anfodlonrwydd mawr gyda'r sefyllfa fel ag y mae, ond dim ond rhywfaint all cynllunio'i wneud i ddatrys y problemau. Gellid dadlau bod dulliau gwledig eraill a gwahaniaethu lleol yn ddulliau mwy effeithiol, ac mai integreiddiad mwy effeithiol â'r rhain fyddai prif gyfraniad cynllunio.

7.94 Mae pwysigrwydd cefn gwlad leol i'r boblogaeth hefyd yn gosod her sylweddol i bolisi ac agwedd gyfredol, gan awgrymu'n bennaf y dylai cynllunio fod lawer yn fwy atebol i farn cymunedau lleol o safbwynt dyheadau a'r defnydd gwirioneddol o gefn gwlad.

7.95 Ac yn olaf, efallai mai datblygu cynaliadwy yw'r her fwyaf un i gynllunio gwledig. Mewn gwirionedd, dyma ddylai fod y modd o gysoni'r holl faterion hyn er mwyn llywio datblygu lleol er budd cefn gwlad, ar hyd a lled Cymru. Ond dengys yr arolwg bod gagendor parhaus rhwng polisi a chanlyniadau. Os yw'r potensial ar gyfer datblygu cynaliadwy i'w gyflawni i'r eithaf, efallai bod angen newid gêr o safbwynt cynllunio.

# 8 TRAFODAETH: SUT GEFN GWLAD DDYLEM NI EI CHREU ?

## RHESYMEG

8.1 Yn y rhan olaf hwn o'r adroddiad ystyriwn ganfyddiadau'r arolwg, o safbwynt y pynciau allweddol, a'u hoblygiadau ar gyfer prif elfennau polisi gwledig yng Nghymru, a hynny gydag ystyrieth arbennig i'r mecanweithiau angenrheidiol ar gyfer meithrin datblygu cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. Yna cyflwynwn gyfres o argymhellion, wedi'u grwpio yn ôl eu meysydd.

## DATBLYGU CYNALIADWY A DATBLYGU GWLEDIG INTEGREDIG

8. 2 Yn y ddogfen PCC, datblygu cynaliadwy yw canolbwynt polisi cynllunio Cymru. Fe'i gosodir yn ganolbwynt i lywodraeth Cymru hefyd drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac yn adran 121 mae'n nodi:

*Fe wnaiff y Cynulliad gynllun a fydd yn gosod sut y bydd yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwyedd trwy gyflawni ei swyddogaethau..*

8.3 Drwy ganfyddiadau'r arolwg, mae'n rhyfeddol gymaint o gonsensws sydd ynglŷn â phynciau a gysylltir â chynaliadwyedd gwledig, megis:

- cefnogaeth i gefn gwlad amlswyddogaethol ac amrywiol
- angen am warchod asedau amgylcheddol
- dyfodol mwy amrywiol i ffermio a choedwigaeth, ac â gwell cysylltiad â'r amgylchedd, twristiaeth a hamdden
- cynllunio ar gyfer anghenion nid galw, a hynny wedi'i seilio ar dystiolaeth. Felly, polisi mwy nodweddiadol leol
- datblygu ar raddfa lai, wedi'i anelu at helpu cymunedau lleol
- cymunedau lleol yn chwarae rhan fwy amlwg mewn penderfyniadau a llunio polisi
- agwedd fwy integredig at ddatblygu gwledig
- symleiddio cymhlethdod a dyblygiad strwythurau cyfundrefnol gwledig, er mwyn cyflwyniad mwy effeithiol o ganlyniadau.

8.4 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn ymwybodol iawn o'r elfen o integreiddio ynghlwm â datblygu cynaliadwy, hyn yr oedd os oedd peth dryswch ynglŷn ag ystyr y term.

8.5 Gellir cysylltu'r tensiwn a ymddengys rhwng yr awydd i warchod cefn gwlad a'r angen am ddatblygu angenrheidiol hefyd â chynaliadwyedd, gan y gellid cyfateb y pwyntiau hyn â'r syniad o gwrdd ag anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardal.Yma mae'r mater o adnoddau yn allweddol, ond yn arwyddocaol, nid yw'n cael sylw digonol mewn strategaethau cynllunio a pholisïau.

8.6 Mae diffyg data empirig wrth greu polisi, yn achos pryder amlwg. Mae materion megis pryder ynglŷn â cholli cefn gwlad, a thai 'moethus' ar gyfer cymudwyr neu bobl wedi ymddeol (mewnfudwyr), ochr yn ochr â'r awydd gref am gynnal cymeriad cymunedau gwledig yn bwysig o ran cynaliadwyedd.

8.7 Mae awydd amlwg am weld datblygu economaidd addas, wedi'i seilio ar fodel gwledig, er mwyn creu a chynnal swyddi lleol; creu tai ar gyfer y bobl leol a fyddai, yn eu tro, yn cynnal gwasanaethau lleol a'r rhwydwaith gwledig ehangach. Roedd meddylfryd integredig o'r fath yn gyffredin yn lleol, ond ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd ei bod yn cael ei gweithredu'n ymarferol.

8.8 Fe ymddengys bod y blaenoriaethau'n nodweddiadol leol. Y mewnlifiad oedd prif bryder yr arolwg ar gyfer cartrefi yn ardal Tregaron. Yma, ystyriwyd bod y cynnydd canfyddedig yn nifer y Saeson sy'n prynu tai ac yn symud i'r ardal i ymddeol, heb unrhyw gynnydd cyfatebol o safbwynt swyddi a thai i bobl leol, yn fygythiad uniongyrchol i ddiwylliant y dref a'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, yn y Rhyl ystyriwyd bod diffyg buddsoddiad a datblygu economaidd yn rhwystro'r adfywiad angenrheidiol; eto, canfyddwyd bod datblygu tai, ar gyfer cymudwyr yn bennaf, yn ardal wledig y cyrion trefol, yn ffynnu. Yn Llanelwy roedd canfyddiad bod traffig a swyddi'n pasio'r dref, bod yr ystâd ddiwydiannol fawr yn caniatâu i gwmnïau newydd symud i'r ardal, ond nad oedd unrhyw fuddsoddiad mewn cwmnïau bychain a gâi drafferth cadw dau pen llinyn ynghyd. Mae'r adroddiadau hyn i gyd yn pwysleisio'r angen am feddylfryd, dealltwriaeth a gweithredu integredig ar lefel leol.

8.9 Yn wir, drwy gydol yr ymchwil, roedd y canfyddiad o ddiffyg integreiddiad yn thema a bwysleisiwyd yn gyson, o'r lefel leol i'r lefel genedlaethol, ymhlith yr holl fathau o gyhoedd a gyfwelwyd. Mae'r syniad o ddatblygu economaidd integredig, a bwysleisiwyd gan PCC fel modd allweddol o ddatrys problemau gwledig, dyrys, wedi gwreiddio eisoes yn y Gymru wledig. Ond unwaith eto, mae angen canllawiau mwy eglur a mecanwaith gynhaliol er mwyn ei weithredu.

8.10 Dim ond un rhan o ddiwygio polisi wledig yw cynllunio. Ar hyn o bryd, y canfyddiad yw bod cynllunio wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y "defnydd o dir", a'i fod felly wedi'i gyfyngu i weithredu o fewn blaenoriaethau a strategaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill. Dadlodd rhai sylwebyddion y dylai'r system gynllunio gofleidio'r agenda ehangach hon, tra bo eraill o'r farn bod hyn yn broblemus oherwydd y problemau amlwg ynglŷn ag adnoddau a dyblygiad. Rydym ni o'r farn bod angen i'r gyfundrefn gynllunio gael ei hintegreddio gyda hanfodion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eraill, gan adlewyrchu "gweledigaeth gyffredin" i gefn gwlad.

8.11 Dengys yr ymgynghoriad bryder eang ymhlith y budd-ddeiliaid ynglŷn â nifer yr asiantaethau cefn gwlad, a'r ffaith bod bob un ohonynt yn ymhel â'i rhan benodol ei hun o'r agenda wledig. Canlyniad hyn yw agwedd dameidiog ac *ad hoc*. Yn ôl casgliadau'r ymgynghoriad ymhith budd-ddeiliaid a'r ymarferion gweledigaethu cymunedol, fe ymddengys bod llawer o bolisïau'n cael eu llunio ar sail tybiaethau neu ragdybiaethau heb unrhyw ddata empirig, tystiolaeth, nag ymgynghoriad lleol.

8.12 Datblygu cynaliadwy yw prif thema integreiddio PCC. Mae gweddill ymdriniaeth PCC o ddatblygu gwledig yn un thematig yn bennaf, ac er bod gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, yr economi wledig, twristiaeth, hamdden, gwasanaethau, manwerthiant a dylunio, yn benawdau thematig digon cyfarwydd, dim ond croes-gyfeirio achlysurol sydd i integreiddiad, er bod PCC yn ei ystyried yn dasg hollbwysig ar gyfer polisi cynllunio gwledig. Ond aneglur, hyd yn hyn, yw sut ddylid gwneud synnwyr o, a chael y budd mwyaf o gefn gwlad amlswyddogaethol. O fewn ei bum maes gofodol, mae agwedd cwbl integredig i Gynllun Gofodol cyfredol Cymru. Hyd yn hyn, mae'n rhy gynnar i ddadansoddi effaith tebygol yr agwedd

newydd hon ar ffurfio polisi, heblaw am ddweud bod y cysyniad a'r rhesymeg yn arwain at weithredu datblygu economaidd gan ddefnyddio themâu sy'n adlewyrchu'r farn gyhoeddus a welwyd yn yr ymchwil hwn.

8.13 Yn yr adroddiad hwn cefnogir yr agenda ar gyfer cefn gwlad gynaliadwy gan y cyhoedd a'r dogfennau cynllunio. Fodd bynnag, mae'r cyhoedd am weld hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol yn eu hardaloedd eu hunain. Testun pryder yw'r ffaith nad ymddengys hyn i fod yn digwydd: ond yn hytrach, fe wêl y cyhoedd gefn gwlad sy'n canolbwyntio ar ddarparu yn ôl galw'r farchnad; sydd ddim yn cysylltu tai, swyddi a thrafnidiaeth ac sy'n eu cadw draw oddi wrth benderfyniadau. Ar draws y gwahanol fethodolegau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn, gwelwyd bod gagendor sylweddol rhwng theori cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd.

## RÔL CYNLLUNIO

8.14 Dengys y canlyniadau farn gref bod gan gynllunio ran ganolog i'w chwarae yn narpariaeth y math o gefn gwlad yr ydym am ei gweld yng Nghymru. Ond cydnabyddir y pery rhannau helaeth o gefn gwlad (amaethyddiaeth a choedwigaeth) i fod y tu hwnt i reolaeth a chyfrifoldeb y cynllunwyr. Ni ellid felly, ddisgwyl i'r system gynllunio'n unig ddarparu'r gefn gwlad yr ydym am ei gweld.

8.15 Fodd bynnag, mae barn y cyhoedd yn cyd-fynd â llawer o'r prif bolisïau cefn gwlad a gynhwysir yn PCC a'r Cynlluniaau Datblygu Unedol. Cefnogir yn frwd bolisïau sydd wedi eu hanelu at amddiffyn cefn gwlad ehangach a'r tirwedd, cadwraeth natur, annog arallgyfeirio ac ymgynghori â chymunedau lleol.

8.16 Eto fe bery anfodlonrwydd amlwg, yn seiliedig ar brofiadau o benderfyniadau cynllunio go iawn. Mae'r pryder enfawr ynglŷn â "gorddatblygu", a ystyriwyd yn broblem gan bob math o ymatebwyr, waeth be fo'u cefndir, eu statws proffesiynol na'u preswylfan, yn enghraifft dda o ddiffyg cyd-fynd rhwng polisi cynllunio a'i weithredu. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cefnogi arolygon eraill o ganfyddiad gyhoeddus, sy'n digwydd ar hyd ac ar led Cymru ar hyn o bryd fel rhan o gynllun LANDMAP. Ychydig iawn o gefnogaeth a roddir yn yr arolwg hwn, i'r farn a glywir yn rheolaidd, sef bod cynllunio yn cyfyngu'n ormodol ar ddatblygu, er, ei bod yn amlwg y gallai, mewn gwirionedd, fod yn cyfyngu ar y math o ddatblygu gwledig y mae'r cyhoedd am ei weld am nad yw'n ystyried anghenion lleol.

8.17 Mae'n amlwg nad yw cynllunio go iawn yn llwyddo i ddadlau achos derbyniol, yn lleol, dros ddatblygu. Felly, er mwyn esbonio'r diffyg cyswllt â chymunedau lleol, rhaid gofyn a yw'r polisïau o fewn y cynlluniau yn gwrthddweud ei gilydd, yn amwys neu a yw penderfyniadau'n ffafrio rhai diddordebau dylanwadol? Ymhellach, i ba raddau mae prosiectau strategaethol mawr, Cynulliad Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chynlluniau lleol?

8.18 Bydd datblygiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, gobeithio, yn ddull pwysig ar gyfer sicrhau cysondeb mewn polisïau cynllunio, ond, yn yr un modd, mae cyfiawnhâd dros ganolbwyntio hefyd ar ddimensiwn gwleidyddol penderfyniadau cynllunio, yn enwedig o safbwynt ystyriaethau perthnasol. Fe bery'r flaenoriaeth hollbwysig o geisio egluro'r diffyg cyd-fynd rhwng y theori a chynllunio go iawn a ganfyddir gan y cyhoedd yn yr arolwg hwn.

8.19 Er mwyn datrys y materion hyn, mae angen ystyried y sefyllfa o safbwynt gwahanol, sef edrych ar gyfraniad posib cynllunio, yn hytrach na'i gyfraniad

cyfyngedig, presennol. Fel yr awgryma'r ffaith bod PCC yn cysylltu Strategaethau Datblygu Gwledig integredig yn dynn â chynllunio ar gyfer defnydd tir, efallai bod angen ailosod cynllunio yn fwy canolog o safbwynt polisi gwledig. Mae cynllunio'n ddisgyblaeth anghyffredin gan ei bod yn ceisio cael darlun hollgynhwysfawr o ddyfodol ardal wledig, ynghyd a'r datblygu angenrheidiol i sicrhau'r canlyniadau mwyaf buddiol a chynaliadwy. Dyma paham y cysylltwyd cynllunio mor glòs a'r broses Strategaeth Gymunedol. Ond mae'n bwysig deall y gallai cyfraniad cynllunio i weithrediad hyn, fod yn sylweddol lai arwyddocaol na rhannau eraill o bolisi a chynhaliaeth gyhoeddus. Gellid dadleu mai prif gyfraniad cynllunio yw'r agwedd ofodol, ac o safbwynt integreiddiad polisi. Ar lefel leol adlewyrcha hyn y feddylfryd eang y tu cefn i Gynllun Gofodol Cymru. Gallai strategaethau datblygu gwledig integredig fod yn allwedd ar gyfer gweithredu agwedd o'r fath.

8.20 Gwelwyd enghreifftiau ymysg rhai o'r Cynlluniau Datblygu Unedol mwy newydd, o bolisïau cynllun cymunedol a gweledigaethau yn darparu agwedd ofodol mwy straegol. Mae CDU Caerdydd, Sir y Fflint a Chastell-Nedd a Phort Talbot yn enghreifftiau o'r fath. Yn achos Cynllun Sir y Fflint, nodir y dylid dehongli'r ddogfen fel cyfanwaith ac na ddylai polisïau gael eu hystyried yn unigol. Mae hyn yn galonogol, ond mae angen datblygu pellach , yn enwedig ym meysydd problemus datblygu angenrheidiol a thrafnidiaeth. Unwaith eto, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio agwedd mwy integredig at bolisi lleol.

## DATGANOLIAD POLISI A HYNODRWYDD LLEOL

8.21 Dengys ganlyniadau'r budd-ddeiliaid, yr arolygon a'r ymarferiadau gweledigaeth gyhoeddus, gefnogaeth gyson i'r syniad y dylid ymgynghori'n ymarferol â chymundau lleol wrth greu a llunio polisi. Fe ymddengys mai o'r top lawr, yn amlwg iawn, y mae'r system bresennol yn gweithio, gydag atebion cenedlaethol yn cael eu defnyddio i ddatrys problemau lleol, yn aml iawn heb ddefnyddio na model gwledig penodol nag ymgynghoriad cymunedol. Er enghraifft, gwelwyd gryn anfodlonrwydd lleol ynglŷn â gwelliannau i'r ffyrdd yn y Rhyl a Llanelwy, a datblygiadau tai newydd yn ardaloedd Llandrinio a Thregaron. Ymhellach, awgryma thema allweddol ynglŷn â diffyg ymgynghoriad o safbwynt anghenion ieuenctid, mai anaml iawn yr ystyrir materion o'r fath wrth greu polisi.

8.22 Mae dwy thema allweddol yn amlwg o'r canlyniadau. Yn gyntaf, mae anfodlonrwydd amlwg gyda pholisi cynllunio cenedlaethol (PCC) a ystyrir i fod yn "gorfodi" ymatebion cynllunio penodol yn hytrach nag yn gosod fframwaith mwy cyffredinol lle gallai'r cymunedau lleol fynegi ac ymateb i'w hangenion eu hunain.

8.23 Yn ail, bod polisi cynllunio cenedlaethol (PCC), a llawer o bolisi cynllunio lleol yn yr un modd, yn sefyll yn annibynnol, hynny yw, bod ei nod a'i amcanion yn eglur ond nad yw'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer ei gyflawni, yr un mor amlwg. Fel y nododd un cynllunydd , roedd y cynlluniau'n '*…..iawn, ond y gallent fod yr un mor berthnasol i Tasmania*."

8.24 Mae apêl resymegol gan rôl mwy amlwg ar gyfer polisi cenedlaethol fel hwyluswr, fel y gelllid yna ddadansoddi'r amcanion hollgynhwysol ar gyfer cefn gwlad a'u *cysylltu'n* lleol ar gyfer rhannau *penodol* o gefn gwlad Cymru. Golyga'r gydnabyddiaeth bod gwahanol fathau o gefn gwlad yn bodoli yng Nghymru, bod yr ateb i'r cwestiwn, sut fath o gefn gwlad a ddymunwn yng Nghymru, yn un syml iawn – cefn gwlad sy'n tarddu o'r ardal leol. Mae agwedd o'r fath yn cwestiynu trefniadaeth gyfredol ar gyfer cynrychiolaeth a rheolaeth leol.

8.25 Felly, daw'r agwedd 'leol' yn ganolog wrth geisio datrys llawer o'r problemau sy'n wynebu cefn gwlad, boed hynny'n dai fforddiadwy, cyflogaeth, bwyd, gwasanaethau gwledig neu hamdden. Mae gan y term 'lleol' apêl ynddo'i hun, ond fe bery hyn beth dryswch gan fod llawer o broblemau cefn gwlad yn cael eu cysylltu â rhai byd eang. Roedd pryder amlwg bod atebion polisi anaddas yn cael eu gorfodi, heb ystyriaeth i'r agwedd na'r anghenion lleol. Yma, mae'n amlwg bod angen lleisio 'anghenion' yn fwy eglur a phenodol.

8.26 Y broblem ar gyfer y rhai sy'n creu polisi yw ceisio datrys problem lleoleiddiad heb gael eu cyhuddo o gyfyngu ar hawliau dynol (tai ar gyfer anghenion lleol), o ddelfrydiaeth (cael pobl i aberthu'r archfarchnad er mwyn y siop leol), neu ddatblygu ac erydu nodweddion arbennig cefn gwlad (datblygu parciau hamdden).

8.27 Credwn ei bod yn bwysig cyd-weithio gyda, a gwella strwythurau sy'n bodoli eisoes, yn hytrach nag argymell cymhlethdodau ychwanegol. Yn rhesymegol felly, gellid creu polisïay mwy effeithiol mewn sefyllfa lle mae dulliau 'top lawr' yr asiantaethau yn cael eu cyfuno â dulliau 'gwaelod fyny'. Fe ymddengys bod cysyniad y Strategaeth Gymunedol yn ddelfrydol ar gyfer ymateb i'r feddylfryd hon o ddatganoli polisi. Mae'r Strategaeth Gymunedol[11] yn angen statudol ac mae gan gynllunio a datblygu cynaliadwy gysylltiad amlwg â gweithredu'r strategaeth. Credwn nad yw Cymru, hyd yn hyn, wedi sylweddoli llawn botensial y strategaethau hyn.

8.28 Gellid defnyddio gweledigaeth fwy lleol fel modd o ddatblygu cynnyrch, busnesau neu amgylcheddoedd hamdden/cadwraeth newydd, ac i ymwneud ag ystod o asiantaethau. Byddai'r ffocws strategol hon ar ganiatâu i gynlluniau a pholisïau cynllunio manwl gael eu cynhyrchu a'u gweithredu'n lleol yn rhoi pŴer a dylanwad gwirioneddol i gymunedau lleol, gan ateb, yr un pryd, yr amheuon sy'n bod ar hyn o bryd, ynglŷn ag ymgynghoriadau cynllunio a'r hyn a ystyrir fel gorddatblygu.

8.29 Drwy sianelu rhagor o adnoddau i strategaethau a chynlluniau lleol o fewn proses ymgynghorol fwy ymarferol a blaengar sy'n cynnwys ac ysgogi pobl leol, gall y cynllun fwydo a gwasanaethu llu o gyrff sydd ynghlwm â chreu, rheoli a gweithredu polisi cefn gwlad[12]. Yna byddai gan y strategaeth gymunedol bwysigrwyd ac ymrwymiad sydd ar goll yng Nghymru ar hyn o bryd.

8.30 Nid tasg fechan yw hon. Ac ni ellir dibynnu'n llwyr ar y Strategaeth Gymunedol ar gyfer gwell cynllunio ar gyfer y mathau o gefn gwlad mae Cymru ei heisiau, am dri rheswm. Yn gyntaf, ac yn syml, amrywiaeth a diffyg datblygiad y broses ar hyn o bryd. Yn ail, golyga gyfrifoldebau eang y Strategaethau Cymunedol, nad yw'r ffocws angenrheidiol ar ddatblygu gwledig integredig, o bosib, yn ddigon cryf (gan y gellir dadlau bod hwn yn un o gydrannau'r Strategaeth ehangach). A'r trydydd yw'r mater hollbwysig o sut mae'r strwythurau "top lawr" yn

[11] Rhoddodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ddyletswydd ar bob un o brif gynghorau Cymru a Lloegr i baratoi strategaeth gymunedol i hybu a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd ac i gyfrannu at lwyddiant datblygu cynaliadwy'r DU.

[12] Nid ydym yn argymell bod hyn yn disodli'r anghenion statudol presennol na chamau ymgynghoriad gyhoeddus yn y CauDU; yn hytrach byddai gan gynllunwyr, ar ddechrau cynllun/arolwg o gynllun, wybodaeth bwysig ynglŷn â'r math o le mae pobl yn ei ddymuno. Gellid adeiladu polisi cynllunio ar y sail hwn.

cwrdd  a chysylltu â'r  "gwaelod fyny".  Cyn y bydd hyn yn bosib mae angen gwella ac adfywio rôl y cynghorau/cymdeithasau cymunedol.  Gall fod o fudd ystyried hyn fel cwrdd yn y canol.  Dylai polisi cenedlaethol ddisgwyl cael ei blygu a'i stumio i gwrdd â sefyllfaoedd lleol, ond yn yr un modd, dylai polisi lleol ddisgwyl i amcanion cenedlaethol  ddylanwadu arnynt hwythau.  Mae hon yn broses ddeinamig sydd angen trafodaeth ac ymdriniaeth barhaus  ac, o'i gweithredu,  fyddai'n dyst i fodolaeth agwedd bartneriaethol o'r iawn ryw, sydd ar goll ar hyn o bryd.

8.31  Ni gydnabyddir bwysigrwydd man cyfarfod o'r fath gan PCC na'r broses Strategaeth Gymunedol , gan, y gellid dadlau, fod yn ddau yn rhy glwm â 'graddfa' eu gweithrediadau'u hunain.  Mae angen newid pwyslais o'r ddwy ochr er mwyn datrys y sefyllfa, o bosib drwy ddatblygu strategaeth wledig genedlaethol, ddiwygiedig.

## ADEILADU'R GALLU A'R ADNODDAU

8.32  Nid yw apêl datganoli polisi heb ei broblemau.  Mae angen gwybodaeth, cynhaliaeth a brwdfrydedd ar y cyhoedd a'r asiantaethau er mwyn gweithio o fewn system gynllunio fwy datganoledig ac er mwyn ymdrin â'r agenda ddatblygu cynaliadwy ar gyfer cefn gwlad.  Drwy'r ymchwil hwn daethom ar draws tystiolaeth bod budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn deall yr agenda gynaliadwyedd ond bod ganddynt gryn broblem ynglŷn â'r modd y'u gweithredir.

8.33  Mae'n rhaid i ymgynghoriad ac ymrwymiad ymestyn y tu hwnt i'r  "criw arferol, disgwyliedig ". Fan hyn mae angen cynyddu'r gallu a'r adnoddau ar gyfer sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei fwydo i'r cyhoedd a'r asiantaethau, er mwyn sicrhau cynnal trafodaeth effeithiol ynglŷn â phynciau allweddol, a bod y polisi a ddaw yn sgîl hyn yn adlewyrchu ymchwil empirig ac anghenion lleol.   Mae cyfranogiad yn fwy na mater o ofyn cwestiynau i'r cyhoedd, mae'n broses, wedi'i rheoli, ynglŷn â sut a pha wybodaeth a gyfnewidir, pwy wrandewir arno a sut mae trafodaeth yn datblygu a gwrthdaro yn cael ei ddatrys.  Ar hyn o bryd, teimlwn bod diwylliant byrdymor, tic yn y bocs, yn milwrio yn erbyn yr agwedd fwy tymor hir a'r ymrwymiad angenrheidiol.

8.34  Yn rhy aml cyfyngir ymgynghoriad gan lefel y wybodaeth gyhoeddus a'r angen am ymatebion cyflym. At hynny, mae'n dameidiog gan fod y llu o strategaethau a chynlluniau i gyd yn ymgynghori'n unigol. Mae'r cyhoedd ac Asiantaethau'n cael eu llethu gan lwythi o bapur go iawn ac electronig.   Rhaid cydweithio ac ymdrîn â phwnc ymgynghori mewn modd mwy strategaethol.

8.35  Fodd bynnag, rhaid i'r broses o gyfranogi fod yn un hirdymor, wedi'i chynllunio'n fanwl a dylai fod â'r gallu i hawlio adnoddau dynol, ariannol ac amser digonol.   Bydd raid i Asiantaethau ailstrwythuro ac uno i gefnogi'r fenter  mewn modd nas gwelwyd o'r blaen, gan y bydd angen iddynt ymateb i'r strategaeth gymunedol.  Bydd angen i Asiantaethau gynnal arolwg o'u dulliau o weithio a bydd angen i'w datblygu polisi fod yn fwy atebol, drwy iddynt ymateb i a chyflwyno gwybodaeth i'r gymuned lleol drwy drafodaeth fwy agored ac wedi'i rheoli.  Fodd bynnag, ni welwn bod angen uno asiantaethau fel yr awgrymodd Haskins y dylid ei wneud yn ei adolygiad o bolisi gwledig yn Lloegr (AABMG, 2003).  Mewn gwirionedd, mae'n fater o sicrhau bod top lawr a gwaelod fyny yn cwrdd mewn modd sydd wedi'i gynllunio'n well ac sy'n fwy cynhwysol.  Fel y gwelwyd yn yr ymchwil hwn, ni fyddai creu asiantaeth newydd, ynddo'i hun, yn mynd at wraidd problem cefn gwlad.

# 9 ARGYMHELLION

## ARGYMHELLION CENEDLAETHOL

### Datblygu cynaliadwy a datblygu gwledig integredig

9.1 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru greu strategaeth wledig ddiwygiedig a fyddai'n gosod fframwaith ar gyfer gwaith yr asiantaethau a'r gyfundrefn gynllunio. Byddai raid i ddogfen o'r fath ymdrîn â phob cydran o bolisi cefn gwlad ynghyd â sut y byddai'r gyfundrefn gynllunio yn gweithio o fewn y strategaeth. Dylai hefyd ymdrîn â'r angen am ddatganoliad polisi sydd wrth wraidd yr agenda gynaliadwy, gan ddatblygu themâu sy'n rhan annatod o Gynllun Gofodol Cymru. Yn fwyaf penodol, sut y gallai asiastaethau top lawr ailgysylltu â'u cymunedau lleol drwy bolisïau o wahaniaethu a chysylltu lleol. Ystyrir strategaethau datblygu integredig a strategaethau cymunedol fel dulliau pwysig o gyflawni hyn.

9.2 Argymhellir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu canllawiau ar y modd y gellid gweithredu datblygu cynaliadwy o fewn y gyfundrefn gynllunio ac yng nghefn gwlad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Strategaethau Datblygu Integredig. Byddai sicrhau bod pob polisi'n cael ei ystyried o safbwynt cefn gwlad yn un ffordd o wella ymagwedd gyfunol ynglŷn â materion cefn gwlad drwy Gymru. Argymhellir defnyddio Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac adroddiadau Cyflwr ein Hamgylchedd er mwyn sicrhau cysondeb ac ar gyfer monitro polisi/cynlluniau'n gyffredinol.

9.3 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy PCC, wneud cais am i bolisïau diwygiedig gael eu datblygu ar gyfer cefn gwlad (tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth) a hynny ar sail empirig cadarn a dadansoddiad o angen, er mwyn dadwneud rhagdybiaethau sy'n bodoli wrth greu polisïau ar hyn o bryd. Hefyd dylid datblygu cyfres o ddangosyddion cefn gwlad er mwyn olrhain newidau yng nghefn gwlad. Byddai gwaith diweddar ar Ansawdd Cefn Gwlad, gan Brifysgol Nottingham yn fodel defnyddiol.

9.4 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi'r rhan y gall LANDMAP ei chwarae, drwy ddarparu data empirig o'r radd flaenaf, mewn gwella datblygu cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru.

9.5 Mae gan Arsyllfa Wledig Cymru, a sefydlwyd yn ddiweddar, a Phartneriaeth Wledig Cymru[13] rannau allweddol i'w chwarae o ran gweithredu a gwerthuso.

[13] Bydd £300,000 y flwyddyn ar gael i ariannu Arsyllfa Wledig Cymru, i fonitro tueddiadau tymor hir a newidiadau yng nghefn gwlad a darparu atebion ar gyfer problemau a welir. Mae'r cytundeb i ddarparu'r gwasanaeth hwn wedi ei roi I Brifysgol Cymru a bydd y gwaith yn dechrau ddiwedd 2003. Sefydlwyd Partneriaeth Cymru Wledig yn Nhachwedd 1998 fel corff ymgynghorol i hel ynghyd ystod eang o sefydliadau i gyfrannu at ddatblygu polisïau a chynlluniau gwledig y dyfodol. Mae ei orchwylion yn cynnwys materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, cyfle cyfartal a diwylliannol sydd o bwys I'r Gymru wledig.

**Cynllunio gwlad a thref**

9.6 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ddiwygiad TAN 6, ddarparu canllawiau mwy manwl ar ddatblygu cynaliadwy cefn gwlad amlbwrpas Cymru, a'r defnydd o strategaethau datblygu gwledig integredig fel modd o gyflawni hyn. Dylid canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu economaidd (o bob math) a'i berthynas â darpariaeth tai a thrafnidiaeth Dylai Cynllunio: Cyflawni Dros Gymru hefyd ymhel â'r materion hyn.

9.7 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ddiwygiad o TAN 6, ddarparu canllawiau mwy manwl ar adnabod anghenion datblygu gwledig drwy dystiolaeth addas (gan gynnwys barn cymunedau lleol), gan gynnwys tai a chyflogaeth, a'r amgylchiadau lle gallai hyn arwain at bolisïau sy'n ymadael â chanllawiau cyffredinol PCC. Dylai PCC yn ei dro hefyd egluro'r amgylchiadau lle gallai polisïau ar gyfer datblygu gwledig wahaniaethu oddi wrth ei ganllawiau cyffredinol.

9.8 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o Cynllunio: Cyflawni dros Gymru, ddarparu rhagor o ganllawiau ar y berthynas rhwng Strategaethau Cymunedol/Cynlluniau Datblygu Lleol a rheoli datblygu. Yn arbennig, sut y dylid cyfuno anghenion strategaethol a dyleuadau cymdeithasol er mwyn cefnogi datblygu gwledig cynaliadwy.

9.9 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog cydgordio mwy effeithiol o waith ar drafnidiaeth leol drwy Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol, strategaethau Cymunedol, a thwy ddarparu atebion integredig i broblemau trafnidiaeth, gan gynnwys ymdrîn ag effaith y defnydd o geir yng nghefn gwlad.
Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried hel ynghyd eu henillion cynllunio er mwyn cynnal agweddau heblaw am y defnydd o dir mewn cymunedau gwledig.

9.10 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried hel ynghyd eu henillion cynllunio er mwyn cynnal agweddau heblaw am y defnydd o dir mewn cymunedau gwledig.

9.11 Argymhellir y dylai PCC roi rhagor o bwyslais ar ddarpariaeth tai fforddiadwy a thai i gwrdd ag anghenion lleol yn y Gymru wledig. Dylai hefyd esbonio'r amgylchiadau lle y dylid ymwrthod â datblygiadau tai gan nad ydynt yn cyfateb ag anghenion lleol cydnabyddedig. Dylai adolygiad o TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy ymdrîn â thai fforddiadwy a darpariaeth tai i gwrdd ag anghenion lleol mewn ardaloedd gwledig. Dylid annog ymgymryd â'r agweddau a amlinellir yn '*Local Housing Market Analysis: An Advice Note To Welsh Local Authorities From The Welsh Assembly Government*' *(2002)* yng Nghymru wledig.[14]

9.12 Argymhellir y dylai PCC hefyd ei gwneud yn fwy amlwg y gall tybiaethau ynglŷn ag hierarchaeth aneddiadol a pherthnasau ffwythiannol amrywio yn unol ag amgylchiadau lleol, ac y dylai polisi, ar sail tystiolaeth gadarn, adlewyrchu amrywiadau o'r fath.

[14] Mae canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynllunio *Yr agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad*, yn berthnasol iawn i hyn.

9.13 Argymhellir y dylai PCC ddarparu rhagor o ganlawiau ar rôl cynllunio mewn gwella cyfleon ar gyfer hamddena anffurfiol yng nghefn gwlad, yn arbennig ar gyfer cymunedau lleol, a'r cysylltiadau â gweithgareddau eraill, yn enwedig strategaethau cymunedol.

9.14 Argymhellir y dylid croesgyfeirio TAN 12 Cynllunio yn fwy effeithiol gyda PCC ac y dylid roi rhagor o bwyslais ar ddyluniad adeiladau gwledig newydd yn gyffredinol, a'u cyfraniad at dirweddoedd gwledig Cymreig. Dylid hefyd bwysleisio gwerth LANDMAP fel y modd allweddol o ddeall/ddadansoddi tirweddau gwledig Cymru.

9.15 Argymhellir, pan adolygir TAN 20 Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio, y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i faterion cynllunio Cymru wledig, gan ystyried enghreifftiau o waith ymchwil gyfredol arall.[15] Dylai'r TAN annog y defnydd o amrywiaeth o agweddau tuag at lunio polisi, i ateb amrywiol ofynion lleol.

**Hunaniaeth leol**

9.16 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu rôl a chyfrifoldebau cynghorau cymuned er mwyn ymateb i agenda datganoli polisi.

9.17 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi datblygiad strategaethau cymunedol fel modd o greu hynodrwydd lleol ac y dyid defnyddio hyn fel modd o sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng y cymunedau lleol a chynlluniau top lawr yr asiantaethau.

**Cynyddu gallu ac adnoddau**

9.18 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adnoddau a chefnogaeth ddigonol er mwyn cynyddu gallu ac adnoddau sefydliadau a chymunedau i wella ac adfywio strategaethau cymunedol a strategaethau gwledig integredig, ynghyd â'r gwaith a gysylltir â'r rhain megis creu polisïau cynllunio lleol, a hybu trafodaethau gwybodus am bynciau allweddol yng nghefn gwlad. Ni ddylid anwybyddu goblygiadau hyn o safbwynt adnoddau(amser ac arian). Byddai'r agenda a gynlluniwyd o ganlyniadau arolygon cyhoeddus yr arolwg hwn sef: gorddatblygu, sbwriel, dyfodol ffermio, trafnidiaeth a hela a saethu, yn fan cychwyn addas a defnyddiol.

## ARGYMHELLION LLEOL

### Datblygu cynaliadwy a datblygu gwledig integredig

9.19 Argymhellir bod awdurdodau lleol ac asiantaethau yn cydnabod lle a rôl gwaith cynllunio mewn gwaith a rhaglenni eraill yn y sector gyhoeddus. Yn benodol, dylid

[15] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â chonsortiwm o awdurdodau cynllunio lleol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych wedi comisiynu ymchwil dan y teitl *Linguistic Impact Assessment: Welsh Language Impact Research*. Nod yr astudiaeth yw cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu dulliau ymarferol o weithredu polisi cynllunio cenedlaethol a chyngor yngl□n â'r iaith Gymraeg (CPP a TAN 20), gan gynnwys methodoleg Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg.

ymroi i ddatrys y methiant presennol i weithredu strategaethau datblygu gwledig integredig a strategathau cymunedol.

9.20 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau weithredu cynlluniau i lanhau cefn gwlad a chreu diwylliant o barch gan bobl sy'n ymweld â neu'n teithio drwy gefn gwlad. Mae ymateb i'r ganfyddiaeth gyffredin bod cefn gwlad yn llawn o ysbwriel yn flaenoriaeth bwysig a ddaw i'r amlwg yn yr ymchwil hwn.

9.21 Argymhellir bod awdurdodau lleol, ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn ymdrin â datblygu gwledig mewn modd mwy integredig, gan gynnwys defnyddio gweledigaethau a strategaethau datblygu gwledig integredig. Mewn rhai achosion mae lle i ddatblygu polisïau strategol lleol fel y gwnaethpwyd Ne Ddwyrain Cymru. Ni ddylai hyn fod, o angenrheidrwydd, yn ddibynnol ar ganllawiau llawnach Llywodraeth Cynulliad Cymru, er y bydd y rhain, wrth gwrs, yn bwysig.

9.22 Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ac asiantaethau cysylltiedig geisio datblygu/meithrin entrepreneuriaeth leol mewn gweithgareddau datblygu gwledig. Dylid cynnal arolwg o gynlluniau hyfforddi a chynhaliaeth i fusnesau gyfredol er mwyn amlygu bylchau ac esiamplau o arfer dda megis Cyswllt Ffermio.

**Cynllunio**

9.23 Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ystyried gwneud defnydd mwy effeithiol o botensial strategol cynllunio er mwyn ymdrin â datblygu gwledig mewn modd mwy ymarferol ac integredig, yn arbennig drwy strategaethau gwledig integredig a chymunedol.

9.24 Argymhellir y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud rhagor i geisio datblygu polisïau cynllunio sy'n berthnasol i'w cymunedau lleol, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth leol (gan gynnwys barn cymunedau lleol). Rhagwelir y gellir defnyddio data LANDMAP wrth ffurfio polisïau, ynghyd ag arolygon o'r farn gyhoeddus. Gellir yna ddefnyddio'n fath ddeunydd wrth lunio cynlluniau datblygu lleol fel rhan o Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol.

**Hynodrwydd lleol**

9.25 Argynhellir y dylai awdurdodau lleol, ddefnyddio'r broses strategaeth gymunedol fel erfyn ymgynghorol ymarferol, er mwyn adnabod anghenion lleo,l o safbwynt cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn yn ei dro yn gosod seiliau i asiantaethau ar gyfer pennu eu hagendâu mewn dull mwy integredig a chynaliadwy, gan felly osgoi yr angen i or-ymgynghori.

9.26 Argymhellir y dylid rhoi cefnogaeth i brosiectau cymunedol sy'n pwysleisio hynodrwydd lleol. Dylid annog mapiau a chynlluniau plwyfi a datganiadau o gynlluniau pentrefol. Ystyrir elfen ganfyddiad cyhoeddus o LANDMAP yn fan addas ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

### Adeiladu gallu ac adnoddau

9.27 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol, fel rhan o gonsortiwm o asiantaethau, hybu trafodaethau lleol ynglŷn â phrif faterion cefn gwlad, gan sicrhau cyhoeddusrwydd digonnol weithgareddau o'r fath.

9.28 Argymhellir y dylid rheoli a chydgordio'r strategaeth gymunedol er mwyn cwrdd ag angenion strategaethau sector gyhoeddus eraill, er mwyn lleihau'r byrdwn o ymgynghori gormodol.

9.29 Argymhellir y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i le ieuenctid mewn penderfyniadau lleol (er engyhraifft cynrychiolaeth ar gynghorau cymunedol). Yn aml, llais ymylol sydd gan ieuenctid mewn trafodaethau cymunedol gydag eraill yn rhagdybio'r math o gyfleusterau/gweithgareddau y maent eu heisiau.

## ARGYMHELLION PELLACH

9.30 Mae angen ymchwil er mwyn casglu tystiolaeth addas (gan gynnwys barn cymunedau lleol) fel y gellid cynnig gwell cynhaliaeth wrth adnabod anghenion datblygu gwledig. Mae tai, trafnidiaeth a chyflogaeth yn bynciau pwysig ond mae diffyg cyffredinnol yn y defnydd o dystiolaeth er mwyn cefnogi polisïau cynllunio gwledig. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd i wella'r sefyllfa, yn enwedig gan fod hwn yn ran hollbwysig o feithrin cydweithio agosach â chymunedau lleol. Byddai hyn yn darparu'r llwyfan mwy effeithiol, angenrheidiol i ddatblygiad polisi.

9.31 Amlygodd yr ymchwil ran ganolog strategaethau cymunedol a strategaethau datblygu gwledig integredig er mwyn sicrhau cefn gwlad gynaliadwy. Barn yr awduron yw nad yw'r prosesau hyn yn cyflawni eu llawn botensial hyd yn hyn a'i bod yn hollbwysig cydnabod y cwestiynau "pam", "sut", "ble" a "beth" drwy astudio rhychwant a gweithrediad dulliau newydd o weithredu.

9.32 Awgryma ganlyniadau'r ymchwil, yn betrus (ar sail sampl bychan), bod lleiafrifoedd ethnig a phobl sydd wedi ymddeol, yn gwneud llai o ddefnydd o gefn gwlad na grwpiau eraill . Efallai y gallai ymchwil pellach astudio a oes gwahaniaethau arwyddocaol yn nisgwyliadau a defnydd o gefn gwlad ymhlith y grwpiau hyn, ac os oes, y dulliau gorau o ddatrys hyn.

9.33 Astudiwyd sampl o ystod eang o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ac fe ymddengys bod rhai gwahaniaethau cynnil yn y modd y dennir gwahanol grwpiau at wahanol fathau o gefn gwlad. Efallai y gallai ymchwil bellach astudio'r modd y defnyddir cefn gwlad gan wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.

# 10 LLYFRYDDIAETH


Banks J a Marsden T (2000) 'Integrating Agri-Environment Policy, Farming Systems and Rural Development: Tir Cymen in Wales, *Sociologia Ruralis*, 40, 466-480.

Buckwell D, (2002) *The Future of the Countryside*, papur a gyflwynwyd i fforwm Future of the Countryside, Winchester Guildhall 2002; RSA.

Bullen J, Jones, E, Scott A (1998a) *Public Perception of Landscape in Gwynedd.* http://www.irs.aber.ac.uk/jmb/LandscapeResearch/gwynedd.htm (darllenwyd 10/07/03)

Bullen J, Jones, E, Scott A (1998b) *Public Perception of Landscape in Lleyn.* http://www.irs.aber.ac.uk/jmb/LandscapeResearch/llyn.htm (darllenwyd 10/07/03)

Bullen J, Jones, E, Scott A (1998c) *Public Perception of Landscape in the Vale of Glamorgan.* http://www.irs.aber.ac.uk/jmb/LandscapeResearch/VALEOFGLAMORGAN.htm (darllenwyd 10/07/03)

Bullen J, Jones, E, Scott A (1999) *Public Perception of Landscape in Cardiff*, Aberystwyth, Gwasg Prifysgol Cymru

Burgess, J. (1996) Focusing on fear: The use of focus groups in a project for the Community Forest Unit, Comisiwn Cefn Gwlad. *Area* (28) 2, 130-135

Burgess, J. (1999) The genesis of in-depth discussion groups: a response to Liz Bondi, professional geographer, 51(3), 458-460

Byrne S.M. (1979) Perception of the landscape in the Lands End Peninsula. *Landscape Research* 5 (1) 21-24

Cherry G (1973)(ed) *Rural Planning Problems*, L Hill: Llundain

Asiantaeth Cefn Gwlad (2003) *Capturing Richness: Countryside visits by black and ethnic minority populations,* Asiantaeth Cefn Gwlad, Cheltenham.

Cominiwn Cefn Gwlad (1995) *Public Attitudes to the Countryside*, Cheltenham, Cominiwn Cefn Gwlad

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1996) *The Welsh landscape: our inheritance and its future protection and enhancement*, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2001) *The LANDMAP Information System*. Bangor, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Curry, N.R. (1993) *Countryside Planning: A look back in Anguish*, darlith gyntaf (heb ei chyhoeddi), yng Ngholeg Addysg Uwch Cheltenham and Gloucester, Cheltenham

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2003) www.defra.gov.uk/rural/ruraldelivery/report/default.htm

Haskins Report : Darllenwyd 1 December 2003, AABMG.Llundain

Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau *(2001) Planning Green Paper, Delivering a Fundamental Challenge*, Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, Llundain

Comisiwn Coedwigaeth Cymru (2003) *Public Opinion of Forestry 2003: Wales*, Comisiwn Coedwigaeth: Caeredin

Hadjimichalis C (2003) 'Imagining Rurality in the New Europe and Dilemmas for Spatial Policy', *European Planning Studies*, 11 (2) 103-113.

Hales, R. (2000) Land use development planning and the notion of sustainable development: exploring constraint and facilitation within the English planning system, *Journal of Environmental Planning and Management* 43 (99) 99-112

Kingston, R. (1998) *The Slaithwaite Public Participation Geographical Information System.* www.ccg.leeds.ac.uk/slaithwaite/ (darllenwyd 09/07/03)

Land Use Policy Group (2002) *New Wildwoods in Britain. The potential for developing new landscape-scale native woodlands*,Cyhoeddwyd yr adroddiad gan y Land Use Policy Group

Macnaghten P (2003) 'Contested Countrysides and Planning Futures', *Planning Theory & Practice*, 4 (1) 96-99.

Marsden T (1999) *Rural Sustainability. Rural Sustainable Development: towards evolutionary planning*, The Tomorrow Series, Cymdeithas Cynllunwyr Gwlad a Thref, Llundain

Midmore P (2003) Flexible solutions are vital for a changing countryside, *Rural Focus* Rhagfyr 1, 2003, 7

Mobbs P (1995) *Consultation response for the Brecon Beacons National Park Local Plan (deposit) draft*; Adroddiad a baratowyd ar gyfer Cyfeillion y Ddaear Cymru, Paul Mobb's Investigations: Banbury

Nottingham Consortium of Consultants (2003) Countryside Quality Counts: Tracking Change in the English Countryside: 1 Approaches to Indicator Development http://www.countryside-quality-counts.org.uk/docs/CQC_Final_Report_Vol1.pdf;

Osborn D (2002) *What is the countryside for: A radical review of land Use in the UK*, papur a gyflwynwyd i fforwm Future of the Countryside, Winchester Guildhall 2002; RSA.

Panelli R (2003) A Countryside for Life? Constructing and Participating in Rural Planning', *Planning Theory & Practice*, 4 (1) 89-92.

Penning-Rowsell, E.C. and Hardy, D.I. (1973) Landscape evaluation and planning policy: a comparative survey in the Wye Valley Area of Outstanding Natural Beauty. *Regional Studies* 16 (2) 97-112

Penning-Rowsell, E.C. (1981) Assessing the validity of landscape evaluations, *Landscape Research*, 6 (2)  22-24.

Ploeg van der J D, Renting H, Brunori G, Knickel K, Mannion J, Marsden T, de Roest K, Sevilla-Guzmán, Ventura F (2000) 'Rural Development: From Practices and Policies towards Theory, *Sociologia Ruralis,* 40(4) 391- 407.

Scott, A.J. (2001) Contesting Sustainable Development: Low impact development in Pembrokeshire Coast National Park, *Journal of Environmental Policy and Planning,* 3 273-287

Scott, A (2002a) Assessing Public Perception of Landscape: the LANDMAP experience yn *Landscape Research,* Cyf 27:3, tt 271-295

Scott, A. (2003) Assessing Public Perception of Landscape: from practice to policy, *Journal of Environmental Planning and Policy* 5 (2) 123-144

Scott A.J. Midmore P  and Christie M (2004) Foot and Mouth: implications for rural restructuring in Wales. *Journal of Rural Studies*  20 1-14

Selman, P. (2002) Multi-function landscape plans: a missing link in sustainability planning? *Local Environment*,  7 (3) 283-294

Shorten J, Brown C and Daniels I (2001) *Are Villages Sustainable*? Adroddoad ar gyfer yr Asiantaeth Cefn Glwad gan Ganolfan yr Amgylchedd a Cynllunio. Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste.

Tress, B. & Tress, G. (2003) Scenario visualisation for participatory landscape planning – a study from Denmark, *Landscape and Urban Planning*,  64  61-178

Wakeford, R. (1999) Countryside Character, in *Using Local Distinctiveness as an Economic Development Tool*  (Hughes, J.  ed), trafodion gweithdy Rhwydwaith Hamdden Cefn Gwlad, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Caerdydd.

Wakeford R (2003) 'Planning a Countryside for Life', *Planning Theory & Practice*, 4, (1) 75-99.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1996) TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy - 1996

Llywodraeth Cynulliad Cymru TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio - 1996

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1997) TAN 13 Twristiaeth - 1997

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1999)  *Rural Development Plan for Wales 2000-2006*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1998) TAN 14 Cynllunio'r Arfordir - 1998

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1998) TAN 16 Chwaraeon a Hamdden - 1998

Llywodraeth Cynulliad Cymru (1998) TAN 18 Trafnidiaeth - 1998

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002a) Ar y cyd â Land Use Consultants, *Yr Economi Wledig a'r System Gynllunio,* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002b)Ar y cyd â'r Bartlett School of Planning *Second and Holiday Homes and the Land Use Planning System*', Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002c) *Polisi Cynllunio Cymru*; Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002d) *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) TAN 6 Datblygu amaethyddol a Gwledig - Mehefin 2000

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) TAN 20 Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniadu Datblygu Unedol a Rheoli cynllunio – Mehefin 2000

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003a) *Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Wibberely G. (1982) *Countryside Planning : A Personal Evaluation*, Coleg Wye: Llundain

Parc Cendlaethol yr Yorkshire Dales (1992) *Landscapes for Tomorrow: Interpreting landscape futures in the Yorkshire Dales National Park*, Grassington, Parc Cenedlaethol yr Yorkshire Dales